

Ffuglen Ddyfodolaidd yn y Gymraeg

1918-2009

(1960 – 2135)

Miriam Elin Jones

Crynodeb

Bwriad yr astudiaeth hon yw bwrw cipolwg ar ddatblygiad y *genre* ffuglen wyddonol yn y Gymraeg, gan ganolbwyntio ar un motiff penodol, sef y dyfodol. Wrth olrhain hanes llenyddiaeth ddyfodolaidd yn y Gymraeg o 1918 hyd at 2009, cymherir cynnwys enghreifftiau o ffuglen wyddonol gyda chyd-destun hanesyddol a chymdeithasol eu cyfnod. Gobeithir mai rhagymadrodd yn unig yw hwn a fydd yn cyflwyno'r posibilrwydd o waith ymchwil beirniadol pellach ym maes y *genre*.

Diolchiadau

Hoffwn ddiolch yn bennaf oll i Mihangel Morgan am ei gyngor a chefnogaeth gyson, ynghyd â gweddill staff Adran y Gymraeg Prifysgol Aberystwyth. Hoffwn hefyd gydnabod fy ngwerthfawrogiad i Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen am ariannu fy ngwaith ymchwil, ac i Sumer Sertel am y nawdd ychwanegol.

Diolchaf i Llŷr Titus, o Brifysgol Bangor, cyd-ddarllenwr ffuglen wyddonol, fel myfi, am awgrymu sawl nofel a stori fer ar gyfer yr astudiaeth hon, a diolchaf hefyd i Mam a 'Nhad, i'm teulu ac i'm ffrindiau, ac yn arbennig i Aled Morgan Hughes, am eu cefnogaeth barhaus.

Cynnwys

Rhagair 5

Pennod 1 : Dyfalu Dyfodolaidd 8

Pennod 2 : Dechrau Annisgwyl 12

Pennod 3 : Newid Byd 28

Pennod 4 : Dwy Ffrwydriad – a’u Sgil-Effeithiau 45

Pennod 5 : Gwawr y Mileniwm Newydd 56

Pennod 6 : Machlud Hen Ganrif 94

Pennod 7 : Yn Ôl i’r Dyfodol 117

Llyfryddiaeth 123

Rhagair

Cyn i mi eich gwahodd i ddarllen yr astudiaeth hon, mae angen i mi esbonio ambell beth pwysig.

Rhaid cydnabod mai un o anawsterau llunio'r gwaith hwn oedd gwybod sut yr oedd mynd ati i fathu termau a thrafod ieithwedd *genre* sydd heb gael ei drafod yn y fath fodd yn y Gymraeg o'r blaen. Ystyrir y maes gwyddonol, yn gyffredinol, gan nifer yn faes lle na feddylir bod y termau Cymraeg yn 'addas'. Yn yr un modd ag y gofynnodd Owain Owain mewn ysgrif yn 1963, pendronaf innau, 'Beth yw'r rheswm dros yr ystyfnigrwydd yma ynglŷn â defnyddio'r Gymraeg mewn rhai meysydd?'¹ A oes termau i'w cael sy'n gweddu i faes rhyddiaith ffuglen wyddonol yn y Gymraeg?

'Wrth reswm, mae modd eu cyfieithu ond a fydd y darllenydd yn eu deall?'² Bu'n rhaid bathu ambell derm o'r newydd yn y traethawd hwn, gan benderfynu bod 'arallfydwr' yn well dadansoddiad o *alien* nag 'estronwr', gan obeithio y byddai'n ddigon clir i'r darllenydd ei ddeall yn y cyd-destun hwn. Ond cyn hynny, hyd yn oed, bu'n rhaid penderfynu ar derm cyson i gyfeirio at 'science fiction'. Wedi darllen nifer o erthyglau ac adolygiadau, sylwyd ar nifer o eiriau Cymraeg gwahanol wrth gyfeirio at y *genre*. Er enghraifft, bathwyd y term 'gwyddonias' gan Islwyn Ffowc Elis pan gyhoeddodd *Y Blaned Dirion* yn 1968, a chyfeiria Eirwen Gwynn at lyfrau 'ffug-wyddonol'.³ Ffuglen wyddonol oedd y term yr oeddwn innau

¹ Owain Owain, 'Y Sawl a Garo ei Hanner Iaith' yn *Bara Brith* (Lerpwl: Cwmni Cyhoeddiadau Modern Cymreig, 1971), t. 105.

² Eirwen Gwynn, 'Rhyddiaith Gwyddoniaeth' yn *Y Traddodiad Rhyddiaith yn yr Ugeinfed Ganrif* gol. Geraint Bowen (Llandysul: Gwasg Gomer, 1976). t. 24.1

³ *Ibid.* t. 249.

fwyaf cyfarwydd ag ef, er y byddai rhai, megis Dewi Prysor, yn cwyno ei fod yn gyfieithiad slafaidd, a'i alw'n 'un o'r cyfieithiadau mwyaf erchyll erioed yn y Gymraeg.'⁴

Serch hynny, tynnais sylw at hynny mewn blog ar wefan Gwyddonias,

Nid ieithydd mohonof, ond gallaf weld nad oes yna gyfieithiad Almaenig, a'r unig wahaniaeth yn y term Ffrengig yw eu bod hwy yn Ffrainc yn cyplysu'r ddau air, 'la science-fiction'. Mae ieithoedd eraill yn dibynnu ar gyfieithiadau llythrennol hefyd i gyfleu'r term 'science fiction'.⁵

Felly, penderfynwyd mai ffuglen wyddonol oedd y term mwyaf addas yn y fan hon. Wrth gwrs, mae'n bur debyg y byddai rhai yn anfodlon ar fy newis. Aled Rhys Wiliam, wrth drafod terminoleg yn ymwneud â thrafod y teledu, a ddywedodd, 'Nid hawdd yw penderfynu sut mae dewis geirfa ... Mater o chwaeth, wedi'r cyfan, yw pob "safon" mewn gramadeg yn ogystal â llên.'⁶

Fy mhrif amcan oedd bod yn eglur, nid cyfieithu'n uniongyrchol. Talfyrrir science fiction yn SF gan nifer o feirniaid adnabyddus yn y maes, ond rhywsut, nid oedd 'FfW' yn yr astudiaeth hon yn tycio. Roedd hi'n bwysig i mi beidio â dibynnu ar gyfieithiadau slafaidd o'r Saesneg, a chreu neu ddefnyddio geiriau a oedd eisoes i'w clywed yn naturiol yn y Gymraeg.

Penderfynwyd peidio â chyfieithu termau megis *cyberpunk* neu *steampunk*, a hynny'n bennaf am fod pyncstêm, i ddechrau, yn chwerthinllyd o letchwith, ac ni fûm yn ddigon dewr i geisio cyfieithu *cyberpunk* wedi hynny.

⁴ Dewi Prysor, 'Adolygiad Gwales: Sibrydion o Andromeda', <http://www.gwales.com/goto/biblio/cy/9780860742296> [Darllenwyd: 4 Medi 2014].

⁵ Miriam Elin Jones, 'Cwestiynu'r Cyfieithiad' <https://gwyddonias.wordpress.com/2014/03/25/cwestiynur-cyfieithiad-miriam-elin-jones-syn-holi-beth-yn-gwmws-yw-science-fiction-yn-gymraeg> [Darllenwyd: 23 Ionawr 2015].

⁶ Aled Rhys Wiliam, 'Termau Technegol' *Y Gwyddonydd* 9.4 (1971), 201.

Efallai'n wir y byddai nifer yn dadlau'r dewis termau, fodd bynnag, rhaid cydnabod mai tamed i aros pryd yw'r traethawd hwn, a gobeithiaf mai dechrau trafodaeth yw gwaith ymchwil y traethawd hwn, ac mai megis dechrau mae'r daith ar hyn o bryd.

Pennod 1: Dyfalu Dyfodolaidd

Cwestiwn y baglais drosto, bron drwy hap a damwain, a'm harweiniodd i holi ynghylch bodolaeth traddodiad ffuglen wyddonol yn y Gymraeg. Cyfaill ystyfnig a fynnodd nad oedd 'na'r fath beth â *Star Wars* Cymraeg a arweinodd at ddadlau brwd ynglŷn â'r nofel *Back to the Future*-aidd (*Wythnos yng Nghymru Fydd*, yn digwydd bod) a ddarllenais flynyddoedd yn ôl. Heb os, mae'n 'faes mor anatblygedig'⁷ yn ein hiaith, ond wedi dweud hynny, darganfuwyd hyd at ddeugain enghraifft o ryddiaith Gymraeg y gellir eu hystyried fel gweithiau sy'n perthyn i'r *genre*.

Wrth gwrs, mae ffuglen wyddonol yn adnabyddus am fod yn *genre* sy'n anodd ei ddiffinio. Er y dadleua John Frow, 'genres are not fixed and pre-given forms,'⁸ mae'n rhaid inni benderfynu ar ryw fath o ganllaw cyn dechrau ar y daith hon drwy ein cynnyrch ffuglen wyddonol Cymraeg. Cynigia *The Oxford Dictionary of Literary Terms* mai llenyddiaeth sy'n trafod 'the probable consequences of some improbable or impossible transformation of the basic conditions of human (or intelligent non-human) existence'⁹ yw ffuglen wyddonol. Yn yr un modd, noda Robert Heinlein mai 'realistic speculation about future events'¹⁰ yw hanfodion y *genre*. Wrth drafod diffiniadau gwahanol, cyfeiria Adam Roberts at y ffin annelwig rhwng y real a'r afreal mewn gweithiau o'r fath. Ymddengys fod peryg teithio'n rhy bell oddi wrth y presennol yn peryglu hygrdedd gwyddoniaeth y nofel ffuglen wyddonol:

⁷ Robyn Tomos, 'Llên Yfory: Gwyddonias Cymreig' *Golwg*, 28 Ebrill 1994, t. 19.

⁸ John Frow, *Genre* (London and New York: Routledge, 2006), t. 3.

⁹ Chris Baldick, *The Oxford Dictionary of Literary Terms* (chweched arg.; Oxford: Oxford University Press, 2008), t. 301.

¹⁰ David Seed, *Science Fiction: A Very Short Introduction* (Oxford: Oxford University Press, 2011), t. 1.

It has to do with the degree of proximity of the “difference” of SF to the world we live in: too removed and the SF text loses purchase, or becomes merely escapist; too close and it might as well be a conventional novel.¹¹

Afraid dweud, mae yna eithriad i bob diffiniad, gyda’r prif *genre* yn wraidd i nifer o is-genres, megis straeon hanes amgen, *cyberpunk*, a gwahaniaeth amlwg rhwng ffuglen wyddonol ‘gadarn’ sy’n canolbwyntio ar ffeithiau gwyddonol, megis gweithiau Arthur C. Clarke, a ffuglen wyddonol sy’n canolbwyntio ar ddatblygiadau cymdeithasol neu wleidyddol, megis *Nineteen Eighty-four* gan George Orwell. I ryw raddau, mae modd datgan, gyda chynifer o opsiynau a motiffau ar gael o fewn y *genre*, bod ymateb greddfoll pob darllenlydd unigol yn rhan annatod o benderfynu a yw darn o ryddiaith yn ffuglen wyddonol neu beidio.

Serch hynny, yng nghyd-destun yr astudiaeth hon, y cwestiwn pwysig yw, a oes yna fwy i’r traddodiad ffuglen wyddonol Cymraeg nag *Wythnos yng Nghymru Fydd* a *Seren Wen ar Gefndir Gwyn*? Wedi dod o hyd i dros ddeugain o enghreifftau sy’n cynnwys nodweddion amrywiol o’r *genre* ffuglen wyddonol yn Gymraeg, a’r rheini’n cyfateb i nifer o ddiffiniadau amrywiol, y penderfyniad anodd wedyn oedd ble orau i ddechrau ar fy astudiaeth?

Wrth gwrs, oherwydd cyfyngiadau’r traethawd hwn, bu’n rhaid penderfynu canolbwyntio ar un agwedd benodol. Gan gyfeirio at yr hyn a ddywed David Seed: ‘Science fiction is closely associated with the future,’¹² daeth yn amlwg pa mor bwysig yw’r dyfodol pell ac agos mewn naratifau ffuglen wyddonol. Dewis naturiol, felly, oedd pennu rhyddiaith ddyfodolaidd fel prif ffocws fy archwiliad. Dywed Dafydd Rowlands, wrth grynhoi cynnyrch cystadleuaeth y Fedal Ryddiaith yn 1992, ‘Cofir y gorffennol; ymatebir i’r presennol; ni ellir

¹¹ Adam Roberts, *Science Fiction* (London and New York: Routledge, 2000), t. 16.

¹² Seed, t. 97.

ond dyfalu parthed y dyfodol ac esgus paratoi ar ei gyfer.¹³ Wrth ystyried hynny, rhydd y dyfodol rwydd hynt i lenor greu a chyflwyno ei weledigaeth ei hun.

Ond a oes rhaid i bob nofel sy'n portreadu'r dyfodol fod yn ffuglen wyddonol? Cyn dechrau, gwelwn fod yn rhaid i ni chwynnu ambell nofel o'r astudiaeth. Er enghraifft, mae'n rhaid i ni hepgor nofel ddiectif Eirug Wyn, *Lara*, a leolir mewn dyfodol agos, yn ôl y neges y tu mewn i glawr y gyfrol, a anfonwyd hefyd i gystadleuaeth y Fedal Ryddiaith yn 1992, a hithau'n cynnig y 'Dyfodol' fel thema. Serch hynny, nid ystyrir hi'n nofel ffuglen wyddonol. Ac eithrio defnyddio'r dyfodol hwnnw i wthio cynlluniau busnes Cadwaladr Roberts yn eu blaenau, ni welaf unrhyw arlliw o arallfyd ffuglen wyddonol yn rhan o'r nofel honno. Yn yr un modd, mae *Heulfan* gan Llwyd Owen, a gyhoeddwyd yn 2012, yn neidio yn ôl ac ymlaen o 1996 i 2016, ond ymddengys mai dim ond er mwyn rhoi ugain mlynedd o wahaniaeth rhwng digwyddiadau'r 1990au (a thrac sain perthnasol i'r naratif, sy'n cynnwys Super Furry Animals, Oasis a'r Manic Street Preachers) oedd y rheswm am hynny. Os felly, ydy lleoli nofel yn y dyfodol yn ei gwneud hi'n ffuglen wyddonol? Cwestiwn ar gyfer traethawd arall, o bosib, yw ystyried a ddylai ffuglen ddyfodolaidd fod yn *genre* ynddo'i hun.

Gan fanylu ar hanfodion llenyddiaeth ddyfodolaidd, fe'i disgrifir gan Paul K. Alkon fel 'what is arguably the modern world's most revealing mode of literary statement.'¹⁴ Wrth drafod llenyddiaeth y 1950au, awgryma Raymond Williams fod y dyfodol yn rhoi cyfle i awduron drafod agweddau ar y gymdeithas oedd ohoni.

Nearly always it is obviously contemporary society that is being written about;
indeed this is becoming the main way of writing about social experience, [it]

¹³ W. J. Jones (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Aberystwyth 1992* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1992), t. 135.

¹⁴ Paul K. Alkon, *Origins of Futuristic Fiction* (Athens and London: The University of Georgia Press, 2010), t. 4.

removes the ordinary tension between the selected pattern and normal observation.¹⁵

Wrth ystyried hynny, sylwn hefyd ar gysyniad diweddar a elwir yn ‘Gymroddyfodoliaeth’, sydd ynghlwm â damcaniaeth Affroddyfodoliaeth Mark Dery. Rhydd Affroddyfodoliaeth gyfle i lenorion neu artistiaid o leiafrifoedd ethnig ail-greu ac ailddehongli eu hanes eu hunain am y tro cyntaf erioed, ac yn ôl Ytasha L. Womach, ‘Afrofuturists redefine culture and notions of blackness for today and the future.’¹⁶ Mewn modd tebyg, noda Rhodri ap Dyfrig fod defnyddio’r dyfodol a’r gofod fel lleoliad yn rhoi’r cyfle i artsitiaid Cymraeg fynegi eu hunain mewn ffordd newydd. Gall ymbellhau oddi wrth y presennol drwy ffoi i amser arall fod yn ‘ffordd o weithio o fewn y system i roi sylwebaeth ar bresennol Cymru a’r Gymraeg gyda rhyw fath o bellter.’¹⁷

Rhydd yr astudiaeth hon gyfle i mi weld sut mae’r ddelwedd o’r dyfodol wedi esblygu yn y traddodiad llenyddol Cymraeg o ddechrau’r ugeinfed ganrif hyd heddiw. Gan ddechrau gyda stori fer gan Kate Roberts, ‘Y Diafol yn 1960’ a gyhoeddwyd yn 1918, ac olrhain y daith drwy amser tan *Y Dŵr*, Lloyd Jones, a gyhoeddwyd yn 2009, archwiliwn sawl dyfodol amrywiol er mwyn ceisio dod ar draws patrymau a motiffau cyson. Wrth gwrs, er mai astudio llenyddiaeth ddyfodolaidd a gyhoeddwyd rhwng 1918 a 2010 a wneir, delweddau o’r blynyddoedd rhwng 1960 a 2135 a ddadansoddir. Wrth edrych ar lenyddiaeth ddyfodolaidd Gymraeg, gofynnwn ba ddarlun o’r presennol a adlewyrchir yn y dyfodol a bortreadir, a pha bryderon sy’n codi gan lenorion Cymraeg wrth ystyried cyd-destun cyhoeddi nifer o’r darnau a astudir.

¹⁵ Raymond Williams, *The Long Revolution* (London: Chatto & Windus, 1961), t. 281.

¹⁶ Ytasha L. Womack, *Astrofuturism: The World of Black Sci-Fi and Fantasy Culture* (Chicago: Lawrence Hill Books, 2013), t. 9.

¹⁷ Rhodri ap Dyfrig, ‘Cymroddyfodoliaeth’ <https://medium.com/@nwdls/cymroddyfodoliaeth-574f23a5fdd3> [Darllenwyd: 25 Tachwedd 2014].

Pennod 2: Dechrau Annisgwyl

Synnais wrth ddarganfod mai un o'r llenorion cyntaf yn yr ugeinfed ganrif i fentro i'r dyfodol oedd Kate Roberts. Heb os, ni ddisgwylir i lenor sy'n adnabyddus fel arbenigwraig ar y stori fer realaidd yng Nghymru lunio stori ddyfodolaidd. Er i Geraint Wyn Jones honni mai yn 1921 y dechreuodd Kate Roberts lenyddu,¹⁸ cyhoeddwyd un o'i straeon byrion cynharaf, 'Y Diafol yn 1960', ym mhapur newydd wythnosol *Y Darian* yn 1918. Mae'r stori'n olrhain hanes y Diafol yn ymweld â hen wreigen dlawd a hwnnw'n datgan ei fod yn ddigartref, wedi cael ei wthio o Uffern gan ei fod yn llawn pechaduriaid.

Er ei bod yn stori wahanol iawn i'r hyn a ddisgwyliwn gan yr awdures, sylwn ar nifer o themâu sy'n nodweddiadol o'i gwaith, fel y noda Mihangel Morgan,

Oherwydd iddi'i chyfyngu'i hunan i ddulliau realaidd ac i ddeunydd ei phrofiadau'i hun am weddill ei gyrfa (gydag eithriadau) mae'r stori hon yn ein taro ni fel un annodweddiadol o'r llenor. Ac eto mae'n glir fod Kate Roberts yma, mewn ffordd ysgafn, ddoniol a gwneuthuredig yn dweud pethau go bwysig, uniongyrchol a gwleidyddol am ei theimladau ar y pryd.¹⁹

Ysgrifennwyd y stori hon tra roedd Kate Roberts yn athrawes ifanc yn dysgu yn Aberdâr, a datgelir llawer am ei hagwedd tuag at ei gyrfa a'i chartref yn ystod y cyfnod hwnnw. Adroddir y stori o safbwynt yr hen wreigen, sy'n adrodd hanes ei bywyd fel athrawes, a dyfalwn nad yw Kate Roberts yn rhag-weld dyfodol cysurus iawn iddi hi ei hun, wrth iddi bortreadu gwraig chwerw a thlawd sydd wedi rhygnu byw ar hyd ei hoes. Ni wna'r awdures

¹⁸ Geraint Wyn Jones, *Fel Drôr I Fwrdd: Astudiaeth o Waith Kate Roberts hyd 1962* (Caernarfon: Gwasg y Bwthyn, 2010), t. 24.

¹⁹ Mihangel Morgan, 'Kate yn y Cwm' yn *Cwm Cynon* gol. Hywel Teifi Edwards (Llandysul: Gwasg Gomer 1997), t. 287.

lawer o ymdrech i guddio mai amdani hi ei hun mae'r stori. Cyfeiria at y ddwy dref lle bu'r prif gymeriad yn dysgu fel, 'A____' ac 'Y____' ac mae'n ddigon rhwydd i'r darllenydd ddyfalu mai Aberdâr ac Ystalyfera sy'n llenwi'r bylchau hynny.

Yn ogystal â phryderu am ei dyfodol hi ei hun yn bersonol, gwelwn deimladau chwerw tuag at y Rhyfel Mawr, ac mae sgil-efeithiau'r brwydro ar bobl gyffredin yn thema flaenllaw. Bu farw un o'i brodyr, David Owen Roberts, yn ystod y Rhyfel, a chyfeirir at y digwyddiad hwnnw fel prif gymhellant Kate Roberts dros ysgrifennu. Fel y dywed Eigr Lewis Roberts, 'Yr ydym oll yn hen gyfarwydd â'r rheswm a roes Kate Roberts dros iddi ddechrau ysgrifennu, sef colli ei brawd yn y rhyfel byd cyntaf a gorfod "dweud rhywbeth neu suddo."²⁰ Gwelwn ddylanwad y digwyddiad hwnnw arni wrth ddarllen am hanes y Diafol yn dod i ymweld â'r hen athrawes, a datgan 'Mae hi'n bendramwnwgl yn Uffern heno'.²¹ Cyhoedda ei fod bellach yn ddigartref, gan fod Uffern yn llawn o'r swyddogion a'r gwleidyddion a fu'n barod i anfon llanciau ifanc i ryfela dros eu gwlad. Bu Kate Roberts hefyd yn graff iawn i ddarogan effaith y Rhyfel Mawr ar hanes y byd, fel y noda Alan Llwyd; 'Gan gofio mai yn 1960 y daeth y Diafol i ymweld â'r athrawes, awgrymir y bydd i'r cof am y Rhyfel Mawr a'i gamweddau barhau am ddegawdau, os nad am byth.'²² Fodd bynnag, datgelir mai breuddwyd hunllefus yw'r cyfan ar ddiwedd y stori, a bod yr athrawes ifanc yn deffro ar ddiwrnod olaf y gwyliau haf yn 1918 ac yn gorfod gadael ei chartref yn y Gogledd a dychwelyd i'r Cymoedd. Wrth ystyried ei diwedd glo, sylwn ei bod hi'n debycach i ffantasi freuddwydiol sy'n adleisio nodweddion y *genre* uffernaidd sy'n perthyn i *Gweledigaethau y Bardd Cwsc* yn hytrach na gwaith ffuglen wyddonol.

²⁰ Eigr Lewis Roberts, *Llên y Llenor: Kate Roberts* (Caernarfon: Gwasg Pantycelyn, 1994), t. 8.

²¹ Kate Roberts, 'Y Diafol yn 1960' *Y Darian*, 12 Tachwedd 1918, t. 3.

²² Alan Llwyd, *Kate 1891-1985: Cofiant Kate Roberts* (Talybont: Y Lolfa, 2011), t. 77.

Fodd bynnag, yng Ngholofn y Merched ym mhapur Plaid Cymru, *Y Ddraig Goch*, yn 1929, â Kate Roberts ati i ddarlunio Ysgol Haf Machynlleth yn 1976, gan fentro i diroedd dyfodolaidd am yr ail dro. Ar yr olwg gyntaf, nid yw'r Ysgol Haf ffuglennol yn wahanol iawn i'r hyn a ddisgwyliem, er ei bod hi bellach, yn 1976, yn dathlu hanner can mlwyddiant ers yr Ysgol Haf gyntaf.²³ Gwelwn yr un wynebau cyfarwydd, sef Lewis Valentine a D. J. Williams, 'er eu bod ill dau mewn gwth o oedran,²⁴ a chyfeirir hefyd at Saunders Lewis, sydd bellach yn llywydd y Blaid ac yn llywydd y Wladwriaeth yn y Gymru Rydd a ddarlunia Kate Roberts.

Yn y stori, nodir, mai 1970 yw'r 'flwyddyn fythgofiadwy pan gafodd Cymru ei Senedd ei hunan,²⁵ a gwelwn, bellach, mai dod ynghyd i ddathlu'r fuddugoliaeth honno yw pwrpas yr Ysgol Haf, yn hytrach na mynd ati i gynllwynio a chyflwyno tactegau gwleidyddol. Mae yna naws lawer mwy cartrefol i'r Ysgol Haf hon yn y dyfodol. 'Nid oedd papurau na darlithiau i fod yn yr Ysgol Haf hon. Dyfod yma i adrodd profiadau ac i siarad atgofion yr oedd pawb.'²⁶ Â Lewis Valentine a D. J. Williams ati i rannu eu profiadau, ac maen nhw ill dau yn cyfeirio at y 1920au fel cyfnod cymharol lwm yng nghyd-destun cefnogaeth i Blaid Cymru. Disgrifir y cyfnod gan Lewis Valentine fel 'dyddiau drain mwyaduron [sic] diffwrwyth a phryfed llwydion,²⁷ ond bod y Blaid wedi ffynnu ers hynny. Yn yr un modd, cymhara D. J. Williams y Blaid i fochyn 'nad oedd dim byd yn likely yndo [sic],²⁸ a dyfodd maes o law yn fochyn cryf. Mae Kate Roberts yn darogan bod dyfodol addawol iawn i'r Blaid, er bod pethau'n edrych yn ddiobaith ar y pryd.

²³ Kate Roberts, 'Ysgol Haf Machynlleth, 1976: Yr Arweinwyr yn Parhau'n Dirf ac Iraidd.' *Y Ddraig Goch*, 2 Gorffennaf 1929, t. 6.

²⁴ Ibid. t. 6.

²⁵ Ibid. t. 6.

²⁶ Ibid. t. 6.

²⁷ Ibid. t. 6.

²⁸ Ibid. t. 6.

Dysgwn hefyd mai dinas newydd, 'Caer Ddewi' yw prifddinas Cymru Rydd Kate Roberts, oherwydd i gynghorwyr dinasoedd a threfi mawrion y wlad anghytuno ynglŷn â lle y dylid lleoli'r brifddinas. 'Pan ganfu Caer Dydd, Abertawe, Aberystwyth, Caernarfon, Bangor a'r llefydd yna fod Cymru o'r diwedd yn mynd i gael Ymreolaeth aethant i ffreao a'i [sic] gilydd am y fraint o gael bod yn Brifddinas Cymru.'²⁹ Er mwyn ateb y cweryl, sonia Kate Roberts sut yr aethpwyd ati i chwilio am safle ar gyfer dinas newydd. 'Apwyntiwyd Mr. [Iorwerth C.] Peate i fynd i chwilio am lecyn canol Cymru... a daeth ar draws y llecyn canol yn Sir Drefaldwyn.'³⁰ Gorffen y stori ar y nodyn gobeithiol hwnnw, drwy ddisgrifio sut yr adeiladwyd y Senedd-dy newydd a sut yr heidia Cymry i'r ddinas newydd.

Cyfeiria Kate Roberts at yr ysgrif hon mewn llythyr at Saunders Lewis ar y 26ain o Fehefin 1929, a gwelwn nad oedd hi'n hoff iawn ohoni, wrth iddi ddweud 'mae hi'n wael iawn,'³¹ a phoeni am ei chic hi, 'os na wneir rhywbeth yn y twymiad bydd cyn fflatied a [sic] chrempog.'³² Fodd bynnag, gwelwn ymateb i'r amheuon hyn mewn llythyr byr oddi wrth Saunders Lewis ar y 16eg o Orffennaf 1929. 'Dywedodd fy nhad wedi iddo ddarllen eich ysgrif Orffennaf: "y mae'r Kate Roberts yma'n wir yn medru sgrifennu'n ddoniol." Clywais lawer a ddywedai'n debyg.'³³ Yn wir, gallwn feirniadu nad yw'r stori hon yn mentro'n ddigon pell wrth greu dyfodol dychmygus. Ni sonnir am gymeriadau newydd, dim ond am gymeriadau cyfarwydd sydd wedi heneiddio - nid ystyrir, o bosib, y byddai rhai ohonynt wedi marw erbyn 1970, megis Mr H. R. Jones a grybwyllir, ysgrifennydd y Blaid a fu farw flwyddyn wedi cyhoeddi'r stori hon, ym mis Awst 1930. Er mai dyfodol cymharol agos sy'n cael ei bortreadu yn yr ysgrif, mae'n annhebygol, a dweud y lleiaf, y byddai cynifer o'r

²⁹ Ibid. t. 6.

³⁰ Ibid. t. 6.

³¹ Dafydd Ifans (gol.), *Annwyl Kate Annwyl Saunders: Gohebiaeth 1923 – 1983* (Aberystwyth: Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 1992), t. 56.

³² Ibid. t. 56.

³³ Ibid. t. 59.

cymeriadau sy'n ganolog i'r Blaid yn 1929 yn goroesi i weld y Blaid yn dathlu hanner can mlynedd ers sefydlu'r Ysgol Haf gyntaf. Fodd bynnag, sylwn ar Kate Roberts yn sôn am garcharu Prosser Rhys a sut y lladdwyd Morris Williams mewn ysgarmes wrth geisio'i amddiffyn. Gwelwn ei hiwmor crafog, y dychan yr oedd tad Saunders Lewis mor hoff ohono, wrth iddi ddarogan ei thynged ei hun. 'Yr oedd Kate Roberts wedi marw o doriad calon o achos nad oedd neb yn ysgrifennu i golofn y Merched.'³⁴ Yn yr un modd, gosoda Ceiriog, yn llythyron Syr Meurig Grynsyth, ei hun yn rhan o'r darn. Wrth i Syr Meurig syllu i lawr ar y ddaear drwy ysbienddrych noda ei fod yn gweld 'Rhyw fod ag sydd yn galw ei hun yn Ceiriog. Mae ef wedi cael yr anhap o feddwl ei hun yn fardd, ac yn hyn o opiniwn, gwahaniaetha oddi wrth bawb eraill.'³⁵ Pwysleisir mai ffuglen yw'r cyfan wrth i'r ddau lenor ymbellhau oddi wrth eu gwaith. Er mai er mwyn beirniadu y gwna Ceiriog hynny, y gwrthwyneb yw tric Kate Roberts, wrth iddi obeithio am ddyfodol llewyrchus i Blaid Cymru.

Mae'n annhebygol y byddai unrhyw un wedi rhag-weld astudio Kate Roberts mewn cyd-destun ffuglen wyddonol, ac mae'n anodd dweud pa effaith a gafodd y ddwy stori gynnar hyn ar y traddodiad ffuglen wyddonol yn y Gymraeg. Fodd bynnag, mae'r themâu dyfodolaidd yn sicrhau eu lle yn yr astudiaeth hon. Mae'r ysgrif 'Ysgol Haf Machynlleth 1976' yn enwedig yn benthg nifer o elfennau cyfarwydd o'r *genre* ffuglen wyddonol. Er enghraifft, mae'r ddinas newydd a'r datblygiadau gwleidyddol a ddisgrifir yn nodweddion cyfarwydd, ac mae'n ddigon posib y gwelwn y Senedd-dy a'r Gymru Rydd eto yn ddiweddarach yn hanes y *genre*. Yn ogystal â hynny, mae cysylltiadau 'Ysgol Haf Machynlleth 1976' yn ein harwain ymlaen yn naturiol at garreg filltir bwysig yn hanes y *genre* ffuglen wyddonol yn y Gymraeg. Nid adwaenwn Kate Roberts fel llenor ffuglen

³⁴ Roberts, 'Ysgol Haf Machynlleth, 1976.', t. 6.

³⁵ Hugh Bevan (gol.), *Gohebiaethau Syr Meurig Grynsyth*, (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1948), t. 29.

wyddonol, yn hytrach, ystyriwn Islwyn Ffowc Elis fel ‘tad y nofel wyddonias Gymraeg³⁶ a’i ddylanwad yntau, yn hytrach na Kate Roberts, a welwn ar weithiau ffuglen wyddonol ddiweddarach. Cyhoeddwyd *Wythnos yng Nghymru Fydd* gan Islwyn Ffowc Elis yn 1957 drwy Wasg Plaid Cymru, gydag elw’r gyfrol yn wreiddiol yn mynd i goffrau’r Blaid.

Ar ddechrau’r nofel, cyhoedda ein hadroddwr, Ifan, ei fod am gofnodi’r digwyddiadau eithriadol a’i harweiniodd i fod yn genedlaetholwr Cymreig, a datgelir pam nad yw wedi gwneud cyn hynny. ‘...tybiwn na fyddai neb yn credu fy stori.’³⁷ Yn wir, mae hi’n stori ryfeddol, sy’n olrhain hanes Ifan yn teithio drwy amser, o 1957 i 2033. Tra ymwêl Ifan â’i gyfaill Tegid, mae’n cyfarfod Doctor Heinkel, ffisegwr niwclear o’r Almaen, sy’n adnabod priodweddau *K Eins* yn ei bryd a’i wedd. Golyga hynny ei fod yn meddu ar allu arbennig, yn bennaf ei fod yn ‘medru teithio mewn amser.’³⁸ Yn sgil hynny, mae’r gwyddonydd yn cynnal arbrawf sy’n anfon Ifan i’r dyfodol, i ymweld â dau fersiwn gwrthgyferbyniol o’r flwyddyn 2033.

Yn y dyfodol cyntaf, deffry Ifan yn labordy Doctor Llywarch, a derbyn croeso cynnes i’r Gymru Rydd, oleuedig. Wrth iddo astudio’r ystafell fodern o’i amgylch, mae’n ddifyr gweld mai ‘ansylweddol’ yw’r ansoddair a ddefnyddia Ifan i ddisgrifio’r dodrefn.³⁹ ‘Rhywbeth tebyg i blastig tryloyw, a hwnnw’n laswyrdd,’⁴⁰ a gwelwn furiau ‘fel pe bai wedi’u gwneud o niwl symudliw, a’r llawr – yr oedd hwnnw’n debyg i wydr cynnes a golau ynddo.’⁴¹ Rhyfeddwn wrth weld Doctor Llywarch yn cerdded trwy un o’r waliau niwlog, fel ysbryd.

³⁶ Tomos, ‘Llên Yfory: Gwyddonias Cymreig’, t. 18.

³⁷ Islwyn Ffowc Elis, *Wythnos yng Nghymru Fydd* (trydydd arg.; Llandysul: Gwasg Gomer, 2007), t. 1.

³⁸ Ibid. t. 12.

³⁹ Ibid. t. 19.

⁴⁰ Ibid. t. 19.

⁴¹ Ibid. t. 19.

Yn wir, pwysleisia'r gwyddonydd fod angen i Ifan drin ei ymweliad fel pe bai'n breuddwydio, rhag iddo ddiodeff 'gan glefyd y rhai sy'n torri llen amser.'⁴² Cadarnha Johan Schimanski, 'Dyma naws Cymru Rydd: cymryd pethau'n gymedrol, ac yn bwyllog.'⁴³ Serch hynny, os edrychwn yn fanylach ar yr iwtopia a bortreadir yn nyfodol cyntaf y nofel, gwelwn obeithion gwleidyddol a chymdeithasol Islwyn Ffowc Elis ar gyfer dyfodol Cymru, a'r rheini wedi eu ffurfio ar wedd polisiau cynnar Plaid Cymru. 'Mae'r Gymru gyntaf i Ifan ymweld â hi yn iwtopia ar lun Deg Pwynt Polisi'r Blaid union gan mlynedd cyn hynny yn 1933.'⁴⁴ Wrth i Ddoctor Llywarch, ac yn ddiweddarach, ei ferch Mair, dywys Ifan o amgylch Caerdydd a gweddill y wlad, gwelwn bolisiau gwreiddiol Saunders Lewis yn ffurfio seiliau'r dyfodol iwtopaidd.

Er enghraifft, gwelwn fod y diwydiant amaethyddol yn ffynnu. "Amaethyddiaeth Cymru heddiw yw'r fwya llewyrchus yn Ewrop."⁴⁵ Yn unol â seithfed pwynt polisi'r Blaid, gwelwn mai 'amaethyddiaeth a ddylai fod yn brif ddiwydiant Cymru ac yn sylfaen ei gwareiddiad.'⁴⁶ Dysgwn fwy wrth i Ifan ymweld â fferm Meistr a Meistres Puw, ger Llanrwst. Ar y fferm honno, tyfir 'baco', *Y Ddeilen Aur*, ac mae Cymru hefyd yn tyfu ei choffi a'i ffrwythau egsotig ei hun.⁴⁷ I ryw raddau, mae'r Gymru hunangynhaliol hefyd yn adlewyrchu ail bwynt Polisi'r Blaid, ac yn sicrhau 'pe deuai rhyfel neu ryw raid arall, [medrai Cymru] borthi ei phobl a'u cadw rhag newyn.'⁴⁸

⁴² Ibid. t. 20.

⁴³ Johan Schimanski, 'Wythnos yng Nghymru Fydd – unwaith eto' *Taliesin* 88 (1994), t. 25.

⁴⁴ T. Robin Chapman, *Rhywfaint o Anfarwoldeb: Bywgraffiad Islwyn Ffowc Elis* (Llandysul: Gwasg Gomer, 2003), t. 120.

⁴⁵ Elis, *Wythnos yng Nghymru Fydd* t. 142.

⁴⁶ Saunders Lewis, 'Deg Pwynt Polisi'r Blaid: Egwyddorion a Sylfeini Polisi Cymdeithasol ac Economaidd' *Y Ddraig Goch*, Mawrth 1934, t. 1.

⁴⁷ Elis, *Wythnos yng Nghymru Fydd*, t. 28.

⁴⁸ Lewis, 'Deg Pwynt Polisi'r Blaid: Egwyddorion a Sylfeini Polisi Cymdeithasol ac Economaidd' t. 1.

Gwelwn hefyd gyfeiriad at un o bolisiau pwysicaf Plaid Cymru, sef 'nid swydd llywodraeth gwlad ydyw creu cyfundrefn gyflawn a pheiriant economaidd y geill gwerin gwlad eu derbyn a chydymffurfio â hwy.⁴⁹ Gwelwn y modd y portreadir hyn gan Islwyn Ffowc Elis wrth i Mair esbonio sut y mae cwmnïau megis Cwmni Brics-Llechen Bethesda yn rhedeg, noda mai'r gweithwyr eu hunain sy'n rhedeg y gwaith.⁵⁰ Esbonia un o'r chwarelwyr, "Nid cyflog ydyn ni'n gael. Rhannu'r elw y byddwn ni, gan fod pob gweithiwr yn dal cyfrannau yn y gwaith."⁵¹ Wrth drafod cyfarwyddo â'r gyfundrefn newydd, ymhelaetha,

Roedden ni'n ei gweld hi'n rhyfedd fel hyn ar y cychwyn. Y dynion heb arfer â chyfrifoldeb, a doedd ar lawer ohonyn nhw ddim eisiau cyfrifoldeb. Ond erbyn hyn, rydan ni wedi arfer â'r peth, ac rydan ni'n berffaith siŵr mai dyma'r drefn orau at weithio sy i'w chael.⁵²

Gwelwn fyd sy'n torri'n rhydd oddi wrth ddylanwad cyfalafol a chynnal gwlad a chenedl heb gymorth y Llywodraeth Brydeinig, a phwysleisir drwy gydol y nofel bwysigrwydd y busnesau teuluol. "Amcan y trethiant yma yw sefydlu busnesion teulu - y ffarm fach, y siop fach, y bwyty bach - dyna'r pethau sy'n talu yng Nghymru heddiw. A dyna, yn ôl y Llywodraeth, yw sylfaen bywyd cenedlaethol iach."⁵³ Gwelwn fod cymdeithas iwtopaidd Islwyn Ffowc Elis yn wledig ac yn osgoi trafod diwydiannau glo'r De, er, fel yr ydym eisoes wedi gweld, y cyfeirir at chwareli'r Gogledd.⁵⁴ Mae Cymru Rydd y nofel yn ymdebygu i'r hyn a ddisgrifia Richard

⁴⁹ Ibid. t. 1.

⁵⁰ Elis, *Wythnos yng Nghymru Fydd*, t. 144.

⁵¹ Ibid. t. 144.

⁵² Ibid. t. 145.

⁵³ Ibid. t. 53.

⁵⁴ Ibid. t. 143.

Wyn Jones fel y delfryd Saundersaidd; ‘Cymdeithas wledig, Gymraeg ei hiaith, yn seiliedig ar fân berchnogaeth ac amaethyddiaeth.’⁵⁵

Ond wrth gwrs, nid polisïau cynnar Saunders Lewis yn unig sydd wedi dylanwadu ar *Wythnos yng Nghymru Fydd*. Hyd yn oed pe na bai Islwyn Ffowc Elis wedi cyflwyno’r nofel i Gwynfor Evans, mae dylanwad olynnydd Saunders Lewis yn amlwg ar ei weledigaeth. Wrth ystyried pamffled a gyhoeddwyd gan y Blaid yn 1949, *Eu Hiaith a Gadwant*, noda Gwynfor Evans y dylai’r Gymraeg fod yn ‘[b]rif iaith Cymru ymhob rhan o’i bywyd, mewn masnach a difyrrwch yn ogystal ag addysg ac addoliad.’⁵⁶ Wrth edrych ar Gymru Fydd Islwyn Ffowc Elis, gwelwn fod pawb yn deall Cymraeg, er efallai “fod yn well gan bawb siarad yn gyhoeddus yn ei iaith gyntaf.”⁵⁷ Dysgwn fod modd derbyn addysg brifysgol yn y Gymraeg,⁵⁸ bod modd darllen papurau newydd dyddiol drwy gyfrwng y Gymraeg⁵⁹ ac mae’r nosweithiau llawen yn mynd o nerth i nerth, ac yn cynnwys cantorion rhyngwladol.⁶⁰ Yng Nghymru berffaith 2033, mae’r Gymraeg yn nodwedd normal o fywyd bob dydd.

Serch hynny, nid yw’r nofel yn gwbl gaeth i bolisïau gwleidyddol, a gwelwn ddigon o nodweddion a datblygiadau dyfodolaidd i’w phenodi’n fwy na ‘dim ond’ ymgorfforiad o bolisïau’r Blaid. Dychymyg Islwyn Ffowc Elis, wedi’r cwbl, sy’n creu’r ‘Tai hylif’, adeiladau sy’n galluogi eu preswylwyr i newid siâp eu hystafelloedd fel y mynnant,⁶¹ ac efe sy’n rhagweld mai te mwyar duon a rhew yw diod y cyfnod. Yn anffodus, wrth i ni synnu at weledigaethau’r Gymru Rydd, digon llipa yw cymeriadau’r gyfrol hon. Fel y dywed W. J.

⁵⁵ Richard Wyn Jones, *Rhoi Cymru’n Gyntaf: Syniadaeth Plaid Cymru Cyfrol 1* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2007), t. 96.

⁵⁶ Gwynfor Evans, *Eu Hiaith a Gadwant* (Caerdydd: Plaid Cymru, 1949), t. 4.

⁵⁷ Elis, *Wythnos yng Nghymru Fydd*, t. 89.

⁵⁸ *Ibid.* t. 37.

⁵⁹ *Ibid.* t. 84.

⁶⁰ *Ibid.* t. 157.

⁶¹ *Ibid.* t. 25.

Jones, 'y neges yn hytrach na'r cymeriadau sy'n gorlywodraethu, a thrwy hyn aeth y wefr o ddarganfod ar goll o'r darllen.'⁶² Mae'n anodd uniaethu â phrif gymeriad y nofel, Ifan, a ddisgrifir gan John Rowlands fel cymeriad 'robotaidd',⁶³ wrth iddo ein tywys drwy Gymru'r dyfodol a gofyn cwestiynau niferus ar ran y darlennydd. Mae ei gariad obsesiynol tuag at Mair yn ymddangos yn ffals, ac yn brofiad 'synthetig', fel y datganwyd gan John Rowlands.⁶⁴ Nid oes gronyn o deimlad i'r olygfa lle cyfarfydda â Mair am y tro cyntaf - 'Mi ddwedwn i fod Mair Llywarch yn un o'r merched ifanc glanaf a welais i erioed'⁶⁵ - ac mae'n amlwg mai'r unig reswm y cynhwysir Mair yw er mwyn denu Ifan yn ôl i 2033 am yr eildro. Yn wir, beirniadwyd y nofel am ei chymeriadau prenaidd, ond gwelwn nad cymeriadau yw elfen bwysicaf ffuglen wyddonol. 'The special effects in any given SF film - and in a slightly different way, the technical marvels of more conventional written SF - are the point.'⁶⁶ Efallai, i raddau, fod dadansoddiadau creadigol o gymeriadau unigol wedi bod yn ormod o bwyslais mewn llenyddiaeth Gymraeg. Hugh Bevan, wedi'r cwbl, a awgrymodd, '...nad â chymeriadau yr ysgrifennir nofelau ychwaith, eithr â geiriau.'⁶⁷

Er nad ydym yn wir yn dod i adnabod arwr y nofel, mae gan Ifan ran bwysig iawn i'w chwarae, wrth i ni ddarganfod rhithfyd dyfodolaidd y Gymru iwtopaidd. 'Swyddogaeth Ifan yn *Wythnos yng Nghymru Fydd* yw darllen, ac felly, mewn gwirionedd, bod yn "ddwbwl" i'r darlennydd.'⁶⁸ Fel yr esbonia Johan Schimanski, cyflwynwyd *Wythnos yng Nghymru Fydd* i gynulleidfa o ddarllenwyr lle nad oedd y mwyafrif ohonynt erioed wedi cyffwrdd â nofel

⁶² W. J. Jones, 'Islwyn Ffowc Elis' yn *Dyrnoid o Awduron Cyfoes* gol. D. Ben Rees (Pontypridd a Lerpwl: Cyhoeddiadau Modern Cymreig Cyf., 1975), t. 106.

⁶³ John Rowlands, *Ysgrifau ar y Nofel* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1991), t. 211.

⁶⁴ Ibid. t. 211.

⁶⁵ Elis, *Wythnos yng Nghymru Fydd*, t. 26.

⁶⁶ Roberts, *Science Fiction*, tt. 152-3.

⁶⁷ Hugh Bevan, 'Darllen Nofelau' yn *Beirniadaeth Lenyddol* gol. Brynley F. Roberts (Caernarfon: Gwasg Pantycelyn, 1982), t. 43.

⁶⁸ Schimanski, 'Wythnos yng Nghymru Fydd - unwaith eto', t. 25.

ffuglen wyddonol o'r blaen, yn enwedig yn y Gymraeg, a bod gofyn i Islwyn Ffowc Elis arafu'r naratif er mwyn cyflwyno elfennau'r *genre*. '...y mae [Ifan] hefyd yn helpu'r darllenydd i ddod i delerau â iaith a chonfensiynau anghyfarwydd ffuglen wyddonias.'⁶⁹

Serch hynny, wrth drafod tempo araf Cymru Rydd a'r bywyd hamddenol braf, mae Schimanski yn ei wrthgyferbynnu gyda thrafnidiaeth gyhoeddus echrydus y Gymru ddystopaidd a chyflymder bywyd a rhwystredigaeth trigolion yr ail ddyfodol. 'Mae mesurau diogelwch Orwellaidd Gorllewin Lloegr yn peri i rywun deimlo mai cael ei wyllo y mae, yn hytrach na'i fod ef ei hun yn edrych.'⁷⁰ Yn wir, y Gymru ddystopaidd sy'n dueddol o apelio fwyaf at ddarllenwyr y nofel hon. Fel y dywed T. Robin Chapman, '...mae'r stori'n well am fod rhywbeth o leiaf yn *digwydd* ynddi.'⁷¹ Mae Cymru Ddu'r nofel yn rhydd o rwymau gweledigaeth y Blaid, a rhydd hynny rwydd hynt i Islwyn Ffowc Elis blymio i'w ddychymyg byw ei hun.

Swyn Mair Llywarch, afraid dweud, sy'n denu Ifan yn ôl i'r dyfodol am yr ail dro. 'Yr oedd Mair wedi gyrru hollt drwy fy enaid, ac nid oedd dim a allai'i gau.'⁷² Er i Ddoctor Heinkel rybuddio Ifan ei bod hi'n bosib na ddychwela i'r un dyfodol, mynna deithio eto i 2033. Fodd bynnag, deffry Ifan yn y Gymru Ddu, frawychus, sydd bellach yn rhan o Loegr, a elwir yn 'Western England'. 'Yr un fan. Yr un flwyddyn. Ond dim Llywarch. Dim Gwilym. Dim Cymraeg. Yr oedd fel breuddwyd drwg, ac yr oedd arnaf eisiau deffro.'⁷³ Unwaith eto, sylwn ar y cysyniad o freuddwyd, a'r freuddwyd honno bellach yn hunllef, a phwysleisir maes o law, 'Yr oedd hunllef yn air rhy neis am y daith hon.'⁷⁴ Wrth drafod ail nofel Robin Llywelyn,

⁶⁹ Ibid. t. 25.

⁷⁰ Ibid. t. 26.

⁷¹ Chapman, *Rhywfaint o Anfarwoldeb: Bywgraffiad Islwyn Ffowc Elis*, t. 121.

⁷² Elis, *Wythnos yng Nghymru Fydd*, t. 196.

⁷³ Ibid. t. 200.

⁷⁴ Ibid. t. 234.

O'r Harbwr Gwag i'r Cefnfor Gwyn, noda Bethan Mair Hughes, 'Yn wir, dibynna'r stori ar y ffaith fod diriaethau pendant yn dod o freuddwydion.'⁷⁵ Er mai naws freuddwydiol a ffantasiol sydd i'r Gymru iwtopaidd, a naws hunllefus i'r Gymru ddystopaidd yn *Wythnos yng Nghymru Fydd*, mae pryderon 'real' a phendant y presennol yn dylanwadu'n gryf arnynt, a'r gobaith o newid ar droed yn glir yng ngeiriau Islwyn Ffowc Elis.

Yng Nghymru Ddu, nid yw'r cysyniad o deithio mewn amser yn un newydd, nac yn un arbennig. "We've had others here from the nineteen sixties and seventies,"⁷⁶ datgela Spencer, y gwyddonydd sy'n diawlio ymddangosiad Ifan. Gwelwn yr un dechnoleg unwaith eto: y muriau niwlog, a chrybwyllir ceir electromagnetig er nad ydynt yn bodoli yng Nghaerdydd "a little provincial town,"⁷⁷ eto. Teithia Ifan o amgylch y Gymru frawychus, ddystopaidd yng nghwmni'r Athro Richards, ysgolhaig sydd wedi dysgu'r iaith, a chroesawa Ifan fel y dyn o'r 1950au, "yr oes ffodus pan oedd y Gymraeg yn fyw."⁷⁸ Yn ogystal â gwahaniaethau amlwg megis absenoldeb yr iaith, sylwn ar nifer o wrthgyferbyniadau cynnil rhwng y ddwy Gymru. Sylwn mai 'sosej a selsigen' y mae'r Athro Richards yn ei fwyta,⁷⁹ sy'n wahanol iawn i lysieuwyr a llwrymwrthodwyr Cymru Rydd.

Mae'r wlad bellach dan drefn dotalitaraidd, a gwelwn fod De Cymru yn 'rhanbarth ddiwydiannol'⁸⁰ a gweddill y wlad wedi ei gorchuddio gan goedwigoedd. "Mae agos i ddwy filiwn o aceri o Gymru dan goed – agos i hanner arwynebedd y wlad."⁸¹ Nid yw hen bentrefi cyfarwydd megis Llanuwchllyn, Abergynolwyn, Bryn-crug a Llanegryn yn ddim byd ond

⁷⁵ Bethan Mair Hughes, 'Dwy Nofel, Dau Fyd, Un Gamp' *Golwg*, 18 Awst 1994, t. 21.

⁷⁶ Elis, *Wythnos yng Nghymru Fydd*, t. 200.

⁷⁷ Ibid. t. 201.

⁷⁸ Ibid. t. 203.

⁷⁹ Ibid. t. 203.

⁸⁰ Ibid. t. 213.

⁸¹ Ibid. t. 213.

adfeilion wedi'u rhifo. "Ruin 17 yw'r enw arno [Abergynolwyn] heddiw. Yr ydym yn gorfod rhifo'r adfeilion er mwyn hwylustod; mae'r hen enwau'n amhosibl eu hynganu."⁸²

Nid yn unig y defnyddir tiroedd y wlad er budd Lloegr, ond gwelwn ddiffyg parch tuag at hanes a thraddodiadau Cymru yn y dyfodol dystopaidd, wrth i'r Athro Richards ddatgelu "fod canol neuadd ddawnsio New Woodville yn union ar fedd Dafydd ap Gwilym,"⁸³ a bod y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth "wedi'i throi'n westy ers blynyddoedd,"⁸⁴ a maes o law, ffieiddia Ifan wrth ddysgu fod colofn Thomas Charles yn y Bala wedi cael ei symud er mwyn creu maes parcio ar gyfer Swyddfa'r Goedwigaeth.⁸⁵ Yn ystod ei ymweliad â'r Bala, â Seeward, nai'r Athro Richards, ag Ifan i weld y siaradwr Cymraeg cynhenid olaf. 'Mae rhywbeth cysegredig am olygfa sy'n troi darn o bropaganda yn waith llenyddol.'⁸⁶ Dyma, heb os, un o olygfeydd mwyaf trawiadol y nofel gyfan, wrth i'r iaith Gymraeg gael ei phersonoli ar wedd hen wreigen fethedig sy'n colli gafael ar ei geiriau. Datganiad moel Ifan wrth ei gweld hi'n cau ei llygaid, yw: 'Yr oeddwn wedi gweld â'm llygaid fy hun farwolaeth yr iaith Gymraeg.'⁸⁷ Cydedrydd Ifan Salm 23 gyda hi, a daw Dylan Iorwerth at gasgliad brawychus wrth ddatgan, 'Trwy gael hen wraig i gofio dim ond ychydig adnodau herciog o fersiwn William Morgan o Salm 23, roedd Islwyn Ffowc Elis wedi dangos trychineb colli'r gweddi i gyd.'⁸⁸

Mae rhybudd y nofel hon yn ddigon eglur ac amlwg i bawb, wedi ei hamlygu drwy araith Yr Athro Richards.

⁸² Ibid. t. 232.

⁸³ Ibid. t. 215.

⁸⁴ Ibid. t. 204.

⁸⁵ Ibid. tt. 236-7.

⁸⁶ Johan Schimanski, 'Hen Wraig y Bala' *Barn* 414-5 (1997), 72.

⁸⁷ Elis, *Wythnos yng Nghymru Fydd*, t. 240.

⁸⁸ Dylan Iorwerth, rhagymadrodd i *Wythnos yng Nghymru Fydd* gan Islwyn Ffowc Elis (trydydd arg.; Llandysul: Gwasg Gomer, 2007), t. xi.

“Hen wendid y Cymry,” meddai [Yr Athro Richards]. “Ymrannu ac ymgecru a phetruso. A’u twyllo eu hunain fod yr hen air “Cymru am byth” yn wir. Fe gododd gobaith olaf y genedl yn 1925. Y mudiad cenedlaethol. Petai’r Cymry wedi sylweddoli hynny, ac wedi llifo i’r mudiad hwnnw mewn pryd, fe allent fod wedi’u hachub eu hunain. Ond dewis aros yn eu paradwys ffŵl a wnaethant, gyda’u rhagfarnau bychain a’u gobeithion pitw. A thra buont yn petruso ac yn dadlau, fe lifodd y Saeson i mewn, fe ymledodd y goedwig, fe foddwyd y dyffrynnoedd. Ac fe ddeffrodd y Cymry diwethaf ar y ddaear yn rhy hwyr. Yr oedd eu tir a’u hiaith a’u cenedl wedi mynd.”⁸⁹

Fel sy’n arferol mewn llenyddiaeth ddyfodolaidd, cyflwynir potensial gweithredoedd (neu ddiffyg gweithredoedd) y presennol ar wedd y dyfodol. ‘Mae’r syniad creiddiol nad yw’r dyfodol eto wedi’i benderfynu yn un digon athrylithgar, ac yn galluogi Islwyn Ffowc Elis i bregethu’i genedlaetholdeb yn ddi-flewyn-ar-dafod trwy ddangos dwy Gymru wrthgyferbyniol. Gosododd y cyfrifoldeb am y dyfodol yn blwmp ac yn blaen ar ysgwyddau’r presennol.⁹⁰ Yn hynny o beth, â gam ymhellach nag a wna Kate Roberts gyda’i hysgrif hithau, gan gyflwyno dewis i’w ddarllenwyr. Gobeithia Islwyn Ffowc Elis y bydd ei ddarllenwyr yn gweithio tuag at y Gymru oleuedig, annibynnol, a thrwy wrthgyferbynnu’r iwtopia gyda’r ddelwedd echrydus o Western England, dengys beth allai ddigwydd pe na baent yn cefnogi Plaid Cymru:

‘The author and publishers of the novel obviously hoped that the contemporary reader might follow Ifan’s example.’⁹¹

⁸⁹ Ibid. t. 224.

⁹⁰ Rowlands, *Ysgrifau ar y Nofel*, t. 211.

⁹¹ Johan Schimanski, ‘Singing “Che Gelida Manina” In Welsh: Internal and External Cultural Translation In the Future Wales of Islwyn Ffowc Elis’ *Interlitteraria* 5 (2000), 367.

Ar ddiwedd y nofel, mae Ifan yn breuddwydio ei fod 'yn sefyll mewn tyrfa fawr, a thân gwyllt yn ariannu'r awyr, a'r dyrfa'n torri i ganu am fod Cymru wedi dod yn rhydd.'⁹² Yn 1957, breuddwyd yn unig yw Cymru Rydd (ac felly mae hi hyd heddiw, i ryw raddau) ond breuddwyd a all fod yn realiti erbyn 2033, petaem yn gwneud y penderfyniadau cywir, yn ôl *Wythnos yng Nghymru Fydd*.

'Nofel ydyw i'w hanghofio gan yr awdur, yn ddilys ddiamau, ac i'w gwthio fraich ac ysgwydd i blith hunllefau yr euog isymwybod hwnnw sy gan bob llenor diwyd gwerth ei halen,'⁹³ yw geiriau creulon R. M. Jones wrth drafod *Wythnos yng Nghymru Fydd*, gan atgyfnerthu eto galw'r gynulleidfa Gymraeg am gymeriadau cryfion. Serch hynny, cyhoeddwyd ail nofel ffuglen wyddonol gan Islwyn Ffowc Elis, *Y Blaned Dirion*, yn 1967, ac ymddengys fod y cysyniad o iwtopia yn mynd â'i fryd unwaith eto. Ni fanylaf yn ormodol ar gynnwys y nofel hon yn y traethawd hwn, gan nad yw'n cyd-fynd gyda'r thema ddyfodolaidd, a hithau'n portreadu cyfnod wedi'r Ail Ryfel Byd. Fodd bynnag, gwelwn adleisiau o *Wythnos yng Nghymru Fydd* yn *Y Blaned Dirion*, wrth gymharu dinas arallfydol Cosmopolis i Gaerdydd oleuedig Cymru Rydd, a chymhara T. Robin Chapman Teyrnnon Williams fel 'magus figure in the mould of *Wythnos yng Nghymru Fydd*'s Doctor Heinkel.'⁹⁴ Â Islwyn Ffowc Elis gam ymhellach gyda'r nofel hon, a dinistrio iwtopia heddychlon planedwyr y Blaned Dirion, wrth i'r criw pechadurus o'r Ddaear ddylanwadu ar yr arallfydwyr. '[The novel] makes the examination of an alien culture a mirror which reflects a wider view of human nature. Perfection, it tells us, destroys the value of means by which we seek to attain it.'⁹⁵

⁹² Elis, *Wythnos yng Nghymru Fydd*, t. 252.

⁹³ R. M. Jones, *Llenyddiaeth Gymraeg 1936 – 1972* (Llandybie: Christopher Davies, 1975), t. 258.

⁹⁴ T. Robin Chapman, *Writers of Wales: Islwyn Ffowc Elis* (Cardiff: University of Wales Press, 2000), t. 74.

⁹⁵ *Ibid.* t. 76.

Felly, gallwn weld i'r iwtopia Gymreig chwythu ei phlwc, i ryw raddau, yn gynnar iawn gyda Chymru Rydd Islwyn Ffowc Elis. Cytunaf â datganiad John Rowlands, a ddywed, 'Problem perffeithrwydd yw ei fod yn anniddorol,'⁹⁶ ac mae'n rhaid crybwyll eto sylwadau T. Robin Chapman wrth drafod *Y Blaned Dirion*, 'The Gentle Planet is a place without stories because stories arise from conflict.'⁹⁷ Bu'n rhaid i Islwyn Ffowc Elis ddinistrio iwtopia'r Blaned Dirion er mwyn gyrru'r stori yn ei blaen ac osgoi'r traethu undonog a nodwedda rhan gyntaf *Wythnos yng Nghymru Fydd*. Serch hynny, ni ellir anwybyddu dylanwad y clasur ffuglen wyddonol, *Wythnos yng Nghymru Fydd*, ar ein traddodiad dyfodolaidd. Efallai nad yw Cymru Rydd wedi syfrdanu neb, gwelwn fod Cymru Ddu a'r dyfodol dystopaidd wedi dal ei thir yn y traddodiad yng ngwaith olynwyr Islwyn Ffowc Elis

⁹⁶ Rowlands, *Ysgrifau ar y Nofel*, t. 211.

⁹⁷ Chapman, *Writers of Wales: Islwyn Ffowc Elis*, t. 77.

Pennod 3: Newid Byd

Yn dilyn cyfnod tawel yn ystod y 1960au, ar drothwy refferendwm 1979 gwelwn ryddiaith ddyfodolaidd yn datblygu ac yn dod yn fwy poblogaidd unwaith eto. Serch hynny, mae'r enghreifftiau a gasglais o'r cyfnod hwn yn wahanol iawn i'r elfennau breuddwydiol a welwyd ynghynt, ac yn ymdebygu fwy i glasuron dystopaidd megis *Brave New World* gan Aldous Huxley a *Nineteen Eighty-four* gan George Orwell. Er nad oes gan yr un nofel ffuglen wyddonol arall gysylltiadau mor gryf â Phlaid Cymru ag *Wythnos yng Nghymru Fydd* nag 'Ysgol Haf Machynlleth 1976', mae'r elfen wleidyddol, a phortreadu Cymru Ddu neu Gymru Rydd yn parhau'n thema gyson yn ein llenyddiaeth.

Rydym eisoes wedi bwrw cipolwg ar un dystopia, drwy edrych ar Gymru Ddu *Wythnos yng Nghymru*; fodd bynnag, mae hi'n werth holi beth yn union sy'n gwneud iwtopia yn 'iwtopia' a dystopia yn 'ddystopia'? Onid yw iwtopia neu ddystopia pob unigolyn yn wahanol? Wrth gwrs, mae'n rhaid ystyried beth sy'n gyffredin ym mhob dystopia neu'n y rhan fwyaf o ddystopiau llenyddol, sef bod yna brif gymeriad yn ein tywys o amgylch y byd hwnnw. 'It is the perception of the protagonist that the reader is asked to accept as a valid representation of the dystopian experience.'⁹⁸ Yn hynny o beth, dyfalaf na fyddai un o wleidyddion Seisnig Cymru Ddu 2033 yn teimlo'r un fath at 'Western England' ddi-Gymraeg ag a wna Ifan. Er mai efe yw'r unig brif gymeriad sy'n teithio trwy amser, o'i gyfnod i gyfnod yn y dyfodol, mae naratifau cymeriadau *Y Dydd Olaf* a *Cafflogion* hefyd yn cael eu hadrodd drwy'r person cyntaf. Serch hynny, gan eu bod yn gymeriadau sydd wedi cael eu geni a'u magu yn y byd hwnnw, nid ânt i'r un ymdrech ag Ifan i ddisgrifio'r byd. Fel y dywed Alun am

⁹⁸ Maria Varsam, 'Concrete Dystopia: Slavery and Its Others' yn *Dark Horizons: Science Fiction and the Dystopian Imagination* gol. Raffaella Baccolini a Tom Moylan (London and New York: Routledge, 2003), t. 205.

gymuned Cafflogion, ‘Doedd dim syndod yn y pethau hyn i mi; nhw oedd fy myd i,’⁹⁹ a dibynnwn ar Garth, yr ymwelydd, i esbonio’r gymuned anghyfarwydd i ni.

Fodd bynnag, dechreuwn drwy drafod y dyfodol dystopaidd cyntaf, sef *Y Dydd Olaf* gan Owain Owain. Ystyrir y nofel hon, a gyhoeddwyd yn 1976, fel carreg filltir arall yn nhraddodiad y nofel ffuglen wyddonol Gymraeg. Fe’i hysgrifennwyd ar ffurf cofnodion dyddiaduron Marc, ond er gwaethaf naratif ac arddull uchelgeisiol y nofel hon, nid enillodd le anrhydeddus yng nghanon ein llenyddiaeth. Llenor gwylaidd a diymhongar oedd Owain Owain, na aeth i dderbyn gwobr ar gyfer ei ail nofel, *Mical*, mewn seremoni wobrwyo llyfrau yng Nghaerdydd ‘gan na fynnai unrhyw sylw a ffÿs personol.’¹⁰⁰ Yn wahanol i nifer o’r awduron ffuglen wyddonol sydd – ac a fydd - yn rhan o’r astudiaeth hon, roedd Owain Owain yn wyddonydd. Bu’n wyddonydd niwclear ac yn arbenigwr gwyddonol a chyfrannwr cyson i nifer o bapurau newydd a chyfnodolion Cymraeg. Yn 1969, ef oedd y cyntaf i drafod y we fyd-eang drwy gyfrwng y Gymraeg, yng ngholofn ‘Nodiadau Gwyddonol’ *Y Cymro*.¹⁰¹ Nid oes rhyfedd, felly, bod *Y Dydd Olaf* yn ymdrin â phosibiliadau datblygiadau technolegol brawychus a pheryglus.

Yn ogystal â hynny, noda Islwyn Ffowc Elis fel yr anfonwyd y nofel i gystadleuaeth Y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Genedlaethol Rhydaman yn 1970, ac fe ataliwyd y wobwr.¹⁰² Gwelwn i’r beirniaid, Rhiannon Davies Jones, Alun Llywelyn-Williams a Thomas Parry ganmol Owain Owain am ei waith ‘cymhleth ac uchelgeisiol’. Fodd bynnag, ni fu’n ‘ddigon llym wrth drafod

⁹⁹ R. Gerallt Jones, *Cafflogion* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1979), t. 13.

¹⁰⁰ Dienw, ‘Cofio Owain Owain’ *Y Cymro* 12 Ionawr 1994, t. 12.

¹⁰¹ Owain Owain, ‘Addysg 2,000 OC’ *Y Cymro*, 23 Gorffennaf 1969, t. 6.

¹⁰² Islwyn Ffowc Elis, ‘Yr Eisteddfod Genedlaethol a’r Nofel Gymraeg’ yn *Rhyddid y Nofel* gol. Gerwyn Williams (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Caerdydd, 1999), t. 148.

y defnydd hwnnw nac yn ddigon golau wrth ei gyfleu.¹⁰³ Treuliodd 'Caethwas' chwe blynedd arall yn perffeithio'i nofel cyn ei chyhoeddi.

Er i'r nofel dderbyn clod mawr gan Pennar Davies yn ei ragymadrodd iddi - 'Llawenhawn fod y math yma o ddisgleirdeb yn bosibl yn y Gymraeg.'¹⁰⁴ - ni fu'r ymateb cyffredinol iddi mor ffafriol. Cofia'r gantores Gwenno Saunders ei thad, y bardd Cernyweg Tim Saunders, yn sôn am feirniadaeth lem darllenwyr y cyfnod ar *Y Dydd Olaf*; "At the time there were letters of complaint about the book being written, saying "things like this shouldn't be written in Welsh"."¹⁰⁵ Fodd bynnag, fel y dywed John Rowlands, 'Nid yw'r ffaith fod adolygwyr – ac aelodau cyffredin y gynulleidfa – yn blagardio rhai o'n hawduron newydd yn arwydd o'u methiant o gwbl. Pa lenyddiaeth o werth sydd nad yw'n procio ac yn anesmwytho?'¹⁰⁶ Dim ond yn y blynyddoedd diweddar y gwelwn werthfawrogiad o'r nofel – sy'n cael ei rhestru fel 'nofel ias a chyffro' yn unig gan Steve Eaves wrth bwysu a mesur llenyddiaeth y cyfnod hwnnw¹⁰⁷ - wedi i Gwenno Saunders arddangos dylanwad y nofel honno ar weledigaeth ei halbwm ddiweddaraf, sy'n rhannu'r un teitl â'r nofel, ac yn cyflwyno rhai o'i themâu ar wedd newydd drwy draciau electronig megis 'Fratolish Hiang Perpeshki' a 'Calon Peiriant'.¹⁰⁸

Yn nyfodol dystopaidd *Y Dydd Olaf*, cyfrifiadur hollbwerus, Omega-delta, sy'n teyrnasu, gyda chnewyllyn bach o bobl yn creu'r 'Frawdoliaeth' ddirgel sy'n gweithio tuag at greu byd heddychlon a delfrydol drwy 'ddiddynoli' a 'ddiryweiddio'¹⁰⁹ dinasyddion y byd. Yr Uchel Gyfrifydd (pwy bynnag yw hwnnw) yw'r unig ddyn sy'n gallu dehongli negesau

¹⁰³ J. Tysul Jones (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Rhydaman a'r Cylch 1970* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1970), t. 102.

¹⁰⁴ Owain Owain, *Y Dydd Olaf* (Abertawe: Christopher Davies Cyf, 1976), t. 6.

¹⁰⁵ Aug Stone, 'Sense of Emergency: Gwenno Interviewed' *The Quietus* <http://thequietus.com/articles/16576-gwenno-interview> [Darllenwyd 1 Tachwedd 2014].

¹⁰⁶ John Rowlands, 'Nofelau Deng Mlynedd' yn *Y Traethodydd* CXLIV (1989), 12.

¹⁰⁷ Steve Eaves, 'Hynt a Helynt y Nofel Gymraeg, 1975-1982' yn *Rhyddid y Nofel* gol. Gerwyn Williams (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Caerdydd, 1999), t. 158.

¹⁰⁸ Gwenno Saunders, *Y Dydd Olaf* (Peski, 2014) CD.

¹⁰⁹ Jones (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Rhydaman a'r Cylch 1970*, t. 102.

electromagnetaidd y cyfrifiadur.¹¹⁰ Er hynny, dysgwn drwy ddyddiaduron amrywiol nad yw Marc yn cael ei effeithio gan dechnegau cyflyru'r Frawdoliaeth, ac ei fod yn berchen ar ei enaid ei hun.

Ar ddechrau'r nofel, cyflwynir rhagymadrodd ychwanegol sy'n nodyn gan 'Uwch-bwyllgor yr Ychydig Newydd.'¹¹¹ Cyfeirir yn uniongyrchol at y darllenydd, 'Ti wyddost...'¹¹² wrth olrhain hanes cyfnod ail hanner yr ugeinfed ganrif, gan awgrymu bod yna fai arnom ni, ddarllenwyr, am ddigwyddiadau 'Canrif Goll' frawychus Owain Owain. Fodd bynnag, ymddengys 'ddeng mlynedd yn ddiweddarach' (oddeutu 2010) fod tro arall ar fyd a phethau wedi newid er gwell.¹¹³ Yng nghofnod cyntaf Marc, sef ei gofnod olaf ar y 31ain o Ragfyr 1999, gwelwn ei fod yn breswylwr yn neuadd L3 (dysgwn fod yna L2 ac L4 hefyd,¹¹⁴ a dyfalwn fod yna fwy o neuaddau eto) yn wynebu ei farwolaeth. 'Y Dydd Olaf – olaf o'r ganrif fer, olaf o'm hoedl hir. Y dydd olaf am na fydd yna yfory – i mi nac unrhyw un arall o drigolion Neuadd L3.'¹¹⁵

Ffurfir naratif y nofel drwy ddarnio dyddiaduron amrywiol gan Marc, sydd wedi eu hysgrifennu yn ystod cyfnodau gwahanol yn ei fywyd, yn ogystal â llythyron a dderbyniodd a dogfennau swyddogol. Gwelwn dystiolaeth o dri chyfnod penodol ym mywyd Marc. Labelir y tri dyddiadur yn 'Dyddiadur Cynnar', sy'n dyddio rhwng 1948-9, sef blwyddyn gyntaf Marc a'i ffrindiau yn y Coleg, 'Dyddiadur Canol' sef hanes bras sut y daeth tro ar fyd yn 1984, a 'Dyddiadur Olaf', ei gyfnod mewn Cartref Machlud yn 1999. Ni threfnir y dyddiaduron hyn mewn trefn gronolegol; yn hytrach, y maent yn datgelu cyfrinachau erchyll y Frawdoliaeth

¹¹⁰ Owain Owain, *Y Dydd Olaf* (Abertawe: Christopher Davies Cyf, 1976), t. 10.

¹¹¹ Ibid. t. 8.

¹¹² Ibid. t. 7.

¹¹³ Ibid. t. 7.

¹¹⁴ Ibid. t. 9.

¹¹⁵ Ibid. t. 9.

fesul dipyn. Honnir, ar ddechrau'r nofel, i gyflwynydd anhysbys olygu'r dogfennau,¹¹⁶ fodd bynnag, awgrymir yn gryf, ar ffurf cerdd goffa i Marc sy'n atalnodi'r casgliad, mai Anna sy'n gyfrifol am drefnu'r darnau i greu'r stori.

Dychwelwn at y gerdd honno maes o law, wedi i ni ystyried yr hyn a ddangosir i ni o'r dyfodol dystopaidd yn nyddiaduron Marc. Mae dechrau gyda'r cofnod olaf, lle darllenwn fod Marc yn awyddus i adael tystiolaeth am 'Anwiredd Mawr' yr ychydig rai i drigolion y dyfodol,¹¹⁷ yn gwneud i'w gofnodion cynnar o 1948 ymddangos yn boenus naïf ac eironig. Ymysg ei gasgliad o ddogfennau, gwelwn lythyron oddi wrth ei Fodryb Bodo, ac awgrymir ynddynt fod yna newid mawr ar droed a'i bod hi'n ofni grym y to iau, gan ei ddisgrifio fel 'cyfnod sy'n mynd yn fwy ac yn fwy annealladwy'¹¹⁸ iddi. Wrth ystyried cyngor Modryb Bodo ynglŷn â dewis cyfeillion yn gall ('Mae ffrindiau dyn fel ei silff lyfrau - yn gywirach adlewyrchiad ohono ef a'i gymeriad a'i bersonoliaeth na dim.'¹¹⁹) gwelwn gyferbyniad amlwg rhwng cenhedlaeth hŷn Modryb Bodo a chenhedlaeth ei nai. Mae'r hen fodryb yn darogan nifer o ddigwyddiadau'r nofel, ac yn cynnig cyngorion ar sut i'w hatal, ac er mai gwyddonydd oedd Owain Owain yn gweithio a datblygu cysyniadau a thechnoleg o ddydd i ddydd, gallwn weld rhywun sy'n poeni am golli moesau'r gorffennol, wrth i dechnoleg y byd ddatblygu'n gyflym. Hola Marc, yn ei ddyddiadur diweddarach, 'Beth ddywedai Modryb Bodo, tybed? Gyda chyfrifydd electronaidd - Uchel Gyfrifydd neu beidio - yn dduw?'¹²⁰ a chlywed adlais ei chynghorion doeth yn yr hyn a ddychmyga a fyddai ei hateb; "Dyn a wnaeth y Peiriant."¹²¹

¹¹⁶ Ibid. t. 8.

¹¹⁷ Ibid. t. 11.

¹¹⁸ Ibid. t. 24.

¹¹⁹ Ibid. t. 24.

¹²⁰ Ibid. t. 78.

¹²¹ Ibid. t. 78.

Yn ddiweddarach, dysgwn pam fod Marc a'i debyg yn cael eu hanfon i'r Cartref Machlud. 'Gwn ein bod yma – yn y Cartref Machlud – oherwydd ein “hadnoddau”. Gwn mai amcan y chwe mis yw cyfoethogi'r “adnoddau” hynny. Gwn mai defnydd crai ydym – i greu bywyd yn ôl eu diffiniad Nhw.¹²² Mae'r Nhw brawychus yn rheibio trigolion y neuaddau o'u 'hadnoddau', sef eu horganau, ar gyfer cynnal arbrofion amrywiol. Disgrifir, ar ddechrau *Y Dydd Olaf*, sut y cedwir yr adnoddau.

Oddieithr i'r can pâr o lygaid sy'n dal i befrio'n ddall yn un o'r stordai dwfn, a'r hanner can pâr o geilliau byw sydd wedi'u rhewi'n gorn yn un o'r stordai eraill, a'r miloedd o giwbiau bychain o'r asid dynol DNA-X sy'n aros yr atgyfodiad cemegol ym meddau plastig yr ystordai isaf.¹²³

Mae'n ddarlun trawiadol o'r organau wedi eu cadw mewn 'beddau plastig' tan yr 'atgyfodiad cemegol', lle awgrymir eu bod yn cael eu trawsblannu i un o'r dynion 'Di-ryw', sy'n fath o beiriant byw neu seiborg, yn hybrid o ddyn a robot.

Dysgwn, wrth ddarllen dyddiaduron cynnar Marc, mai cyd-fyfyriwr iddo, Cwansa, sydd wrth wraidd y digwyddiadau. Ac yntau o leiafrif ethnig, gwêl gyfle i uno pob un o'r lleiafrifoedd i greu un mwyafrif grymus.¹²⁴ Ysgrifenna Marc yn ei ddyddiadur yn 1949 am ei gyfaill, 'Mae angen iddo aeddfedu rywfaint, a deall nad yn nwylo'r “neb” y mae tynged byd a phobloedd, ond yn nwylo'r “hwynt-hwy” nerthol a grymus.¹²⁵ Gwelwn fod cynlluniau uchelgeisiol Cwansa wedi eu gwyrddroi'n llwyr, a bod enw'r 'Frawdoliaeth' yn cael ei ddefnyddio er drwg, ac nid er da. 'Anos credu mai un o'r meidrolion hynny a heuodd - o'i gariad tuag at y

¹²² Ibid. t. 32.

¹²³ Ibid. t. 9.

¹²⁴ Ibid. t. 87.

¹²⁵ Ibid. t. 87.

difreintiedig – y cynhaeaf chwerw y mae byd gorthrymedig yn ei fedî'n awr.¹²⁶ Yn yr un modd, synnwn, wrth i Marc fychanu pŵer yr unigolyn yn 1949, mai efe yn 1999, ac efe yn unig, sy'n cyflwyno'r unig dystiolaeth o'r Cartrefi Machlud i ymchwilyr y dyfodol, a hynny drwy ysgrifennu ei ddyddiadur yn ei 'iaith fach ddibwys'¹²⁷ sef y Gymraeg.

Mae'n eironig, wrth ystyried uchelgais wreiddiol Cwansa, nad oes gan y Gymraeg ronyn o statws yn 1999 a datgela Marc ei fod yn gwybod fod yr is-raglen yn Omega-delta oedd yn galluogi'r cyfrifiadur i ddeall ieithoedd lleiafrifol wedi cael ei dileu a'i diystyru fel rhaglenni dibwrpas. 'Rhaglen gyfieithu is-ieithoedd ar gyfer yr Uchel Gyfrifydd yn ddianghenraid bellach!'¹²⁸ Yn sgil hynny, mae Marc yn ysgrifennu ei ddyddiadur olaf yn y Gymraeg, gan wybod na fydd yr un ohonyn 'Nhw' a fydd yn ei ddarllen yn gallu nodi unrhyw wybodaeth waharddiedig o fewn y testun.

Cyfeirir yn agored at 'Byd Newydd Braf' Aldous Huxley a 'Mil-Naw-Wyth-Pedwar' George Orwell, ac â Marc mor bell, yn y flwyddyn 1984, â dweud ei fod yn chwerthin wrth ailddarllen clasur Orwell a'i gymharu gyda'i ddyfodol yntau. Disgrifia'r llyfr fel a ganlyn: 'Mor chwerthinllyd, mor ffaeledig â horosgob llynedd. A darnau ohono'n gwbl afresymol – yn ymddangos yn naif iawn erbyn hyn ... Ond mor agos ydyw i'r gwirionedd, yn ei hanfodion.'¹²⁹ Cyflwynir felly ddechrau'r drefn dotalitaraidd, ac mae Marc yn argyhoeddedig ei bod 'hi'n rhy hwyr yn awr i ni fedru newid y drefn.'¹³⁰ Serch hynny, derbynia sawl llythyr oddi wrth Pedr sy'n ymbil arno i berswadio Anna, y ferch y mae Marc yn ei charu o bell sydd hefyd yn gariad i Cwansa, i siarad ag arweinydd y Frawdoliaeth. Gwrthoda Marc fradychu ei

¹²⁶ Ibid. t. 103.

¹²⁷ Ibid. t. 10.

¹²⁸ Ibid. t. 11.

¹²⁹ Ibid t. 103.

¹³⁰ Ibid. t. 103.

gariad rhag peryglu'i bywyd. '...nid arberthwn y gorffennol byw am y posibilrwydd – anfeidrol fychan – o atgyfodi'r dyfodol marw.'¹³¹

Dyfalwn i Marc gael ei ladd, ond ni wyddom beth a ddigwyddodd i Anna. Datgelir mewn llythyr at Marc nad oedd hi wedi teimlo ei fod ef wedi ei charu hi, ac am mai dyna pam aeth yn gariad i Cwansa. 'Dim ond dwywaith yr adwaenais gariad: Cwansa tuag ataf, a minnau tuag atat ti.'¹³² Dyfalwn, mai Anna yw bardd y gerdd o gyferbyniadau sy'n deyrnged i Marc ar ddiwedd y nofel, drwy ddarllen y ddwy linell sy'n ei chloi.

Gwnaf hyn o'm cariad a'm casineb.

*Fe wyddai – ac eto, ni wyddai.*¹³³

Gwelwn deimladau cymysg Anna tuag at Marc wedi eu crynhoi yn y gerdd, gan ddatgelu fel y bu hi'n gyfrifol am olygu ei ddogfennau.

Gwelwn bwysigrwydd y stori garu yn *Y Dydd Olaf* wrth i Marc wrthod negyddu'r darn platinwm yn ei feddwl sy'n ei alluogi i deimlo. Mae'r platinwm yn ei atal rhag cyflyru ymenyddol llwyr,¹³⁴ ac yn hytrach nag ildio i gyflyru perffaith a bodlonrwydd llwyr, penderfyna Marc gadw ei ewyllys rydd. Sylweddola ei fod yn ei gadw er mwyn 'cael cadw'r hawl i garu,'¹³⁵ mewn byd lle nad yw'r Uchel Gyfrifydd yn gweld cariad fel peth 'dealladwy.'¹³⁶ Mae'r dinasyddion o amgylch Marc wedi colli'r gallu i deimlo ac wedi troi'n robotiaid dienaidd ymhell cyn i neb ymyrryd â hwy. Yn un o ddyddiaduron cynnar Marc, defnyddia'r dywediad 'dyn ar ffurf peiriant' fel trosiad i ddisgrifio ei ddarlithydd a dywed nad

¹³¹ Ibid. t. 113.

¹³² Ibid. t. 116.

¹³³ Ibid. t. 123.

¹³⁴ Ibid. t. 84.

¹³⁵ Ibid. t. 50.

¹³⁶ Ibid. t. 109.

yw 'ddim amgen na gramaffon o gnawd.'¹³⁷ Ymddengys, hyd yn oed yn 1948, fod dynion yn dechrau colli gafael ar eu hemosiynau ac yn ildio i ddylanwad niweidiol y dechnoleg newydd o'u cwmpas. Rhybudd yw *Y Dydd Olaf*, rhybudd rhag agweddau'r genhedlaeth ifanc, wrth i dechnoleg ddatblygu ac wrth i emosiwn a ffydd fynd yn angof. Wrth ystyried hynny, mae datgan fod *Y Dydd Olaf* yn nofel ffuglen wyddonol yn orchwyl digon hawdd.

Er y gwelwn nifer o gyfeiriadau agored at *Nineteen Eighty-four* ynddi, sylwn fod *Cafflogion* gan R. Gerallt Jones yn debycach i'r nofel honno nag yw *Y Dydd Olaf*. Ar yr olwg gyntaf, mae perthynas cyfrol fuddugol y Fedal Ryddiaith yn 1979 â'r *genre* ffuglen wyddonol yn fwy amwys, a hynny mewn modd digon tebyg i *Nineteen Eighty-four*. Byddai rhai yn ddigon parod i wrthod derbyn nofel enwog Orwell fel rhan o'r canon ffuglen wyddonol, tra bo eraill yn ddigon parod i ddweud ei bod hi, gyda'r datblygiadau technolegol a lleoliad dyfodolaidd yn perthyn iddi. Clorianna Adam Roberts y ddadl drwy ddweud, 'In some ways, it does utilise science fictional tropes: the telescreens, rocket-bombs, the advanced technologies of war-making. But in another sense, the regime of the novel has no use for technology.'¹³⁸ Ond penderfyna, yn yr un modd ag y gwnaf innau, fod *Nineteen Eighty-four* yn wedd ar ffuglen wyddonol. 'Orwell's fantasy here IS science fiction. The model is less the technological SF of 1920s and 1930s Pulps, but rather more the theoretical and subtle SF of [Olaf] Stapledon.'¹³⁹ Ac os felly... mae dyfodol *Cafflogion* hefyd yn ffitio i'r patrwm.

Mae'r 'teledrych'¹⁴⁰ (fersiwn R. Gerallt Jones o'r weleffon) a'r trydan sy'n ddibynol ar egni solar yn rhan o weledigaeth ddyfodolaidd y llenor, ond nid ydynt yn greiddiol i'r stori. Mae'r nofel yn ein cyflwyno i gymuned fechan, *Cafflogion*, sydd wedi torri'n rhydd o'r Ddinas

¹³⁷ Ibid. t. 58.

¹³⁸ Adam Roberts, *The History of Science Fiction* (Basingstoke and New York: Palgrave Macmillan, 2005), t. 209.

¹³⁹ Ibid. t. 209.

¹⁴⁰ Jones, *Cafflogion*, t. 33.

ddystopaidd. Mae Ieuan, un o hynafiaid y gymdeithas yn penderfynu ei bod hi'n bryd i'r byd gael gwybod am fodolaeth Cafflogion. "Does ganddon ni ddim hawl i lechu'n ddistaw bach yng Nghafflogion tra bydd miloedd o bobol yn diodde'n ddiachos. Mae o'n llwfr ac mae o'n hunanol ac mae o'n hollol groes i'n hegwyddorion ni."¹⁴¹ Gwahodda'r trigolion y cynhyrchydd teledu, Garth, i greu ffilm amdanynt, ac o'i safbwynt ef a dau o drigolion y gymuned, Alun a'i wraig Mair, y gwelwn Cafflogion.

Mae'r gwahaniaethau rhwng Y Ddinas a Chafflogion mor eithafol fel bod Steffan yn datgan, "Mae poblogaeth Y Ddinas yn byw ar blaned arall."¹⁴² Ieuan sy'n crynhoi'r cyferbyniad amlycaf rhwng y ddau fyd orau;

"Roeddech chi - a rydych chi, am wn i, - wedi seilio'ch holl gymdeithas ar gystadleuaeth economaidd, lle mae'r cryf bob amser yn ennill a'r gwan bob amser yn colli. Roedd ein cymuned ni wedi ei seilio ar gydweithrediad, ar gytbwyso angen yr unigolyn yn erbyn ei gyfraniad posib i gymdeithas ... Mae'n cymuned ni'n gymuned rydd, lle mae pobol yn cael mynd a dod fel maen nhw'n dymuno. Mae eich byd chi'n gaeth, yn garchar. Mae'r gwahaniaeth wedi mynd yn gwbl eithafol."¹⁴³

Gwelwn fod y gymuned a enwyd ar ôl un o dri chwmwd cantref Llŷn yn seiliedig ar werthoedd Comiwnyddol, sy'n tanseilio dylanwad y llywodraeth Ewropeaidd. Ymhelaetha Garth ar gyflwr truenus Y Ddinas, a'i ddisgrifio fel a ganlyn: 'Mae yna filoedd o bobol yn marw yn Y Ddinas o ddiffyg bwyd ac mae'r cyfan o'r boblogaeth yn byw fel cwingod yn eu tyllau dan lywodraeth gwbl ormesol. Mae'r cwbl yn un carchar anferth o Benarth i

¹⁴¹ Ibid. t. 27.

¹⁴² Ibid. t. 27.

¹⁴³ Ibid. t. 47.

Ferthyr.¹⁴⁴ Disgrifir Y Ddinas fel lle brawychus a pheryglus, gyda'r awdurdodau yn gwthio rhybuddion di-ri i lawr corn gyddfau'r dinasyddion er mwyn eu cadw'n paranoid ac yn ufudd iddynt hwy. 'Gwnewch yn siŵr fod pob drws ynghlo. Peidiwch ag agor drws i neb yn ystod oriau tywyllwch. Ffoniwch yr awdurdodau os clywch chi unrhyw sŵn anghyfarwydd.'¹⁴⁵ I'r gwrthwyneb, wrth i Mair hiraethu am Gafflogion ar ddiwedd y nofel, nodi, 'doedd dim angen cloi drysa yng Nghafflogion.'¹⁴⁶ Gwahaniaeth bach digon pitw, ond arwyddocaol, fodd bynnag, sy'n arddangos pa mor ddiogel yw'r gymuned yng Nghafflogion.

Cyfeiriwn eto at eiriau John Rowlands, wrth drafod perffeithrwydd yr iwtopia fel rhywbeth 'anniddorol'¹⁴⁷ ac afraid dweud nad yw bywyd heddychlun Cafflogion yn wahanol i Gymru Rydd Islwyn Ffowc Elis. "Mae bywyd mor sefydlog," medd Steffan, un o drigolion Cafflogion wrth ddisgrifio'r lle. "Mor ddisymud, os leiciwch chi feddwl amdano felly. Mae unrhyw symudiad yn creu pryder. Ofn, hyd yn oed."¹⁴⁸ Wrth gwrs, mae cyflwyno'r gymuned i'r Ddinas yn fater o chwarae gyda thân. Fel y nodi Alun T. Lewis yn ei feirniadaeth, 'Mae cymuned rydd lewyrchus yn llawer rhy beryglus i'r anghenfil totalitariaidd.'¹⁴⁹ Mae'r llywodraeth wedi llwyddo i ddarbwylllo pawb mai 'tir gwag, diffaith, di-fudd oedd daear Cymru y tu allan i ffiniau'r Ddinas.'¹⁵⁰

Ymddengys fod Prydain yn rhan o 'Unol Daleithiau Ewrop' a dysgwn maes o law nad yw Iwerddon yn rhan o'r undod hwnnw.¹⁵¹ Datgela Garth fwy am ddigwyddiadau sy'n arwain at ddyfodol *Cafflogion*, wrth esbonio arwyddocâd Deddfau Cyfyngu 1991 i 1993, a fu'n gyfrifol

¹⁴⁴ Ibid. t. 26.

¹⁴⁵ Ibid. t. 10.

¹⁴⁶ Ibid. t. 62.

¹⁴⁷ Rowlands, *Ysgrifau ar y Nofel*, t. 211.

¹⁴⁸ Jones, *Cafflogion*, t. 33.

¹⁴⁹ T. M. Bassett (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon a'r Cylch 1979* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1979), t. 143.

¹⁵⁰ Jones, *Cafflogion*, t. 16.

¹⁵¹ Ibid. t. 42.

am reoli'r defnydd o olew, yn ogystal â dymchwel gwasanaethau cyhoeddus a gwahardd gweithwyr rhag streicio.¹⁵² Mae Garth yn synnu na ddinistriwyd yr hen fyd lawer ynghynt. 'Fe fyddai wedi digwydd ar ddiwedd y saithdegau pe bai'r Torïaid heb ddod i rym y pryd hwnnw a chreu diweithdra llethol a defnyddio'r fyddin i gadw trefn cyn i Ryfel Cartref 1984 roi terfyn ar hynny a dechrau'r mudo mawr o'r ardaloedd diffaith i'r canolfannau mawr.'¹⁵³ Defnyddir prif lythyren ar ddechrau 'Trefn', gyda'r deddfau yn cyfyngu gweithgareddau amrywiol dinasyddion Unol Daleithiau Ewrop. Ond fel yr ydym eisoes wedi gweld, mae yna obaith ymysg lleiafrif. 'Doedd pawb, does bosib, ddim wedi cael eu dallu'n llwyr gan yr awch am bres a phres a mwy o bres a feddiannai Ewrop gyfan yn y saith-degau a'r wyth-degau.'¹⁵⁴ Er ein bod ni wedi gallu cymharu sawl nodwedd debyg rhwng Cafflogion a fersiynau Islwyn Ffowc Elis o Gymru'r dyfodol, gwelwn fod elfen realaidd yn perthyn i Cafflogion, nad ydyw'n perthyn i ddyfodol breuddwydiol (a hunllefus) Cymru 2033. Pwysleisir realiti sefyllfa trigolion Cafflogion wrth i Garth ddatgan: 'Roedd y lle yn fy hudo i ddechrau meddwl mewn termau ffantastig. Ond doeddwn i ddim wedi crwydro i fyd ffantasi.'¹⁵⁵ Fel y nodia Schimanski, 'One of the main problems of *Wythnos yng Nghymru Fydd* is that the book does not provide a good enough explanation of what happens in the future-historical space which lies inbetween 1953 and 2033.'¹⁵⁶ Rydym eisoes wedi gweld y gwneir hynny yn *Cafflogion*, ac nid breuddwyd mo gymuned Cafflogion, o bell ffordd.

Wrth gwrs, fel yr ydym eisoes wedi crybwyll, mae Cafflogion yn cynnig rhyw fath o obaith i Garth, wrth iddo ddisgrifio'r gymuned fel a ganlyn; 'Y ffaith ddiymwad oedd fy mod i fy hun

¹⁵² Ibid. t. 24.

¹⁵³ Ibid. t. 23.

¹⁵⁴ Ibid. t. 24.

¹⁵⁵ Ibid. t. 17.

¹⁵⁶ Schimanski, 'Singing "Che Gelida Manina"', t. 369.

bellach yn gweld Cafflogion fel kannwyll yn olau mewn byd o dywyllwch.’¹⁵⁷ Er i’r llywodraeth ddod i wybod am fodolaeth y gymuned a dechrau eu ffordd yno i’w difa, mae leuan yn anfon Alun a’i deulu ifanc, ynghyd â llond llaw o deuluoedd eraill, oddi yno, yn y gobaith o “gadw’r ddelfryd [sic] yn fyw.”¹⁵⁸ Yn wahanol i *Y Dydd Olaf*, gwelwn ddyfodol mwy gobeithiol o flaen Alun a Mair.

Delfryd cwbl wahanol sydd gan nofel ddyfodolaidd a gyhoeddwyd yn yr un flwyddyn, sef *Da o Ddwy Ynys* gan Gwynn ap Gwilym. Erbyn 2020 y nofel hon, mae Cymru’n wlad annibynnol, gyda Rowland Watcyn, gŵr o Orllewin Maldwyn, yn brif weinidog. Wrth gwrs, gyda refferendwm 1979, roedd y cysyniad o Gymru Rydd yn obaith real, yn wahanol i’r freuddwyd bellgyrhaeddol a bortreadwyd gan Islwyn Ffowc Elis. Mae teitl y nofel, wrth gwrs, yn dwyn i gof eiriau olaf Branwen yn Ail Gainc y Mabinogi, ‘Da a dwy ynys a diffeithwyd o’r achaws i.’¹⁵⁹ Yn yr un modd ag y gwna stori Branwen ferch Llŷr, cyflwyno *Da o Ddwy Ynys* ryfel rhwng Prydain – neu Loegr, yn y nofel hon – ac Iwerddon. Wrth gwrs, fel y gellid dychmygu, mae Cymru yn wleidyddol ac yn ddaearyddol wedi ei dal yng nghanol y rhyfel.

Ymddengys fod llywodraeth Dilyn yn awyddus i feddiannu Ulster, ac yn benderfynol o waredu grym yr ymerodraeth Brydeinig unwaith ac am byth. Afraid dweud, nid yw llywodraeth Lloegr yn gefnogol iawn i’r cynllun. “Dyma’r cornelyn olaf o’i hymerodraeth sydd gan Loegr ar ôl, a ‘wneith hi ddim gadael iddo fo fynd ar chwarae bach.”¹⁶⁰ Yn naturiol, dychmygir Cymru’n ochri gyda’r Gwyddelod, yn sgil y cysylltiadau Celtaidd, fodd bynnag, atgoffa Rowland Watcyn ei Gabinet, “...‘ryden ni’n byw y drws nesaf i Loegr. Ac oherwydd

¹⁵⁷ Jones, *Cafflogion*, t. 38.

¹⁵⁸ Ibid. t. 63.

¹⁵⁹ Ifor Williams (gol.), *Pedeir Keinc y Mabinogi* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1951), t. 45.

¹⁶⁰ Gwynn ap Gwilym, *Da o Ddwy Ynys* (Abertawe: Gwasg Christopher Davies, 1979), t. 39.

hynny 'ryden ni wedi gorfod ymddwyn yn ddoeth a phwyllog ym mhob argyfwng."¹⁶¹

Ymddengys hefyd nad oes gan Gymru mo'r adnoddau i ymuno gydag Iwerddon yn ei hymgais i frwydro am Iwerddon unedig, er ymrwymiad y wlad i Gytundeb Dilyn 1995.

Dywed yr Ysgrifennydd dros Amddiffyn Llywodraeth Cymru am Loegr, fod "ganddi filwaith mwy o adnoddau na'r Gwyddelod a ninnau gyda'n gilydd." A chydag adnoddau felly, "fedrai hi ddim methu ag ennill y frwydr."¹⁶² Golyga hynny fod gan y Prif Weinidog benderfyniad anodd iawn i'w wneud, ac ymddengys mai aros yn niwtral yw'r unig opsiwn. "...a chan fod adnoddau rhyfel Lloegr ganwaith yn fwy na'r eiddom ni, fe fyddwn ni'n peryglu sofraniaeth ein gwlad. Ar y llaw arall, os cefnogwn ni Loegr, fe fyddwn ni'n torri'r cytundeb a wnaethom ni â'r Gwyddelod ym 1995, ac yn bradychu'n hegwyddorion i gyd."¹⁶³

Ac eithrio un cyfeiriad at "ben fel Bendigeidfran",¹⁶⁴ wrth i Rowland ddisgrifio ei benmaenmawr wedi iddo gael ei wenwyno gan gyffur ysbiwr Lloegr, nid oes yna unrhyw baralel amlwg rhwng brwydr waedlyd Iwerddon a Chymru fel yn Ail Gainc y Mabinogi. Fodd bynnag, crybwyllir doli merch fach Rowland, a enwyd yn Branwen, sydd wedi torri ar ddechrau'r nofel. Daw'r Prif Weinidog ar ei thraws yn gorwedd mewn drôr. 'Yno, yn union fel pe bai hi mewn bedd petryal, gorweddai'r ddoli. Yr oedd Branwen druan, gwae hi o'i geni, yn bedwar aelod a phen.'¹⁶⁵ Geiriau'r ferch fach wrth ei thad, wrth gwrs, yw "Mi ddwedodd Mam y basat ti yn gwybod sut i roi Branwen yn ôl wrth'i gilydd."¹⁶⁶ Fodd bynnag, ar ddiwedd y nofel, gwraig Rowland, Siân, sydd wedi trwsio'r ddoli. Wrth i ni ddysgu am ailenedigaeth y ddoli, mae'r cysyniad o drefn yn cael ei adfer yn dod i'r meddwl. Gellid dehongli bod y ddoli doredig sy'n 'bedwar aelod a phen' yn ddelwedd o bedair gwlad

¹⁶¹ Ibid. t. 33.

¹⁶² Ibid. t. 40.

¹⁶³ Ibid. t. 48.

¹⁶⁴ Ibid. t. 126.

¹⁶⁵ Ibid. t. 101.

¹⁶⁶ Ibid. t. 101.

Prydain, gyda phob darn yn atebol i'r pen, sef llywodraeth Llundain. Heb os, Rowland yw arwr y nofel hon. Efe yw'r penteulu parchus sy'n atal cyflenwad trydan a dŵr rhag cyrraedd Lloegr, a thrwy hynny yn gorffen y rhyfel. 'Ef, erbyn hyn, oedd arwr y werin, a mynych y disgrifid ef fel "y gŵr a drechodd Loegr."¹⁶⁷ Er hynny, mae'n anodd gwybod sut yn iawn y daw'r cyhoedd i'r casgliad hwnnw, gan fod Yr Alban yr un mor gyfrifol am ddirwyn y rhyfel i ben, drwy atal allforio olew.

Er y clywn gryn dipyn am y brwydrau rhwng Iwerddon a Lloegr, mae Cymru yn aros ar diroedd niwtral drwy gydol y nofel. I ryw raddau, efallai y byddai mwy yn digwydd yn y nofel pe bai Cymru wedi ymuno yn y frwydr, yn hytrach nag edrych o'r tu allan. Nid yw triciau brwnt Llywodraeth Lloegr wrth geisio anfon *femme fatale* i osod cyffur yn niod y Prif Weinidog yn ychwanegu rhyw lawer o gyffro at y plot ychwaith. "Cenedl heddychlon yden ni, a 'dydi rhyfel ddim yn ein gwaed ni,"¹⁶⁸ dadleua Rowland. Fodd bynnag, fel y mae Pwyllgor Cilmeri, a sefydlwyd gan aelodau o'r llywodraeth Gymreig yn ei atgoffa, "Nid heddychwyr oedd Llywelyn Fawr nag [sic] Owain Glyn Dŵr ... Nid heddychwyr oedd Arthur nac Owain Lawgoch na Mathau Goch. A dyma finnau heddiw'n gofyn i chi adfer peth o ysbryd dewr yr arwyr hyn i'n bywyd cenedlaethol modern ni, a llunio Cynghair Geltaidd newydd i herio am y tro olaf ddyheadau ymerodrol y Sais."¹⁶⁹ Cyflwyno sefyllfa a wna *Da o Ddwy Ynys*, a cheisio dehongli i ba gyfeiriad yr â Cymru wrth ddod i benderfyniad. Nofel wleidyddol yw hi yn anad dim, sy'n arddangos tensiynau rhwng pleidiau gwleidyddol Cymru (mae'r Blaid Lafur a'r Torïaid yn awyddus i gefnogi Lloegr a'u cynorthwyo gyda'r rhyfel), yn ogystal ag archwilio'r berthynas rhwng egwyddor a dyletswydd i ddiogelwch gwlad.

¹⁶⁷ Ibid. t. 159.

¹⁶⁸ Ibid. t. 35.

¹⁶⁹ Ibid. t. 92.

Yn wir, dywed John Rowlands wrth gyfeirio at *Da o Ddwy Ynys*; ‘Yn anffodus, ei hamseriad yw’r unig beth dyfodolaidd ynglŷn â hi - mae’r agweddau at bobl a chymdeithasau a gwladwriaethau yn sylfaenol adweithiol.’¹⁷⁰ Mae gwerthoedd cymdeithasol y nofel hon yn hen ffasiwn, a gwelwn Rowland yn clodfori dro ar ôl tro fywyd gwledig ei etholaeth ym Maldwyn. Yn yr un modd, mae Siân Watcyn yn gwrthod magu ei phlant yn y brifddinas, gan ei bod hi’n poeni y byddent yn dechrau siarad yr hyn a eilw’n ‘Gymraeg anghymreig.’ ‘Ni allai ddygymod â’i phlant yn defnyddio priod-ddulliau trwsogl megis, “Ble wyt ti’n dod o?” a “dweud bod ‘na ddim” a “rhai fy côf fi arno.”’¹⁷¹ Yn yr un modd, dwrdia’r tad ei ferch ifanc am ddweud “Lle wyt ti’n mynd i?” drwy gwyno, “Rhydfeleneg ydi peth fel ‘na.”¹⁷² Mynnir, sawl tro, mai bro Gymraeg Sir Drefaldwyn yw’r bywyd glanaf i Gymry o’r fath.

Yn ogystal â hynny, mae hen ragfarn tuag at y Saeson yn amlwg yn y nofel. Disgrifia Rowland Lysgennad Lloegr yng Nghymru fel a ganlyn;

Syr John Gilbert wrth ei enw, dwylath o filitariaeth flinedig mewn brethyn drud, pen moel, mwstas, monocl. Er gwaethaf ei Seisnigrwydd digamsyniol, yr oedd Rowland ac yntau ar delerau da â’i gilydd. Wedi’r cwbl, syniai Rowland, Sais oedd y dyn i fod, ac ni ellid disgwyl iddo ymddwyn yn wahanol.¹⁷³

Portreadir y Saeson fel cenedl na all ollwng y cysyniad o’i Hymerodraeth Brydeinig. “Mae annibyniaeth Cymru a’r Alban yn dal yn anathema ym meddwl y Saeson. Fe wnâi unrhyw esgus y tro iddyn nhw i geisio adfeddiannu’r ddwy wlad.”¹⁷⁴ Ond onid llywodraeth Llundain

¹⁷⁰ Rowlands, ‘Nofelau Deng Mlynedd’, t. 20.

¹⁷¹ ap Gwilym, t. 14.

¹⁷² Ibid. t. 100.

¹⁷³ Ibid. t. 42.

¹⁷⁴ Ibid. t. 39.

a alluogodd Gymru a'r Alban i ennill statws annibynnol? Ac oni fyddai agweddau, o bosib, wedi newid erbyn 2020?

Rydym eisoes wedi cyfeirio at refferendwm 1979, ac mae'r ddwy nofel ddyfodolaidd a gyhoeddwyd yn y flwyddyn honno yn datgelu cryn dipyn am agweddau'r ddau lenor tuag at y refferendwm aflwyddiannus ym mis Mawrth y flwyddyn honno. Mae'n bur debyg bod Gwynn ap Gwilym ac R. Gerallt Jones wedi bod wrthi'n llunio'r ddwy nofel wrth i'r dadleuon o blaid ac yn erbyn pwerau datganoliedig i Gymru a'r Alban gael eu trafod, ac wedi gweld y ddwy nofel yn cael eu cyhoeddi yn yr un flwyddyn ag y cyhoeddwyd na fyddai'r ddwy wlad yn derbyn y pwerau hynny. Wrth gwrs, mae Gwynn ap Gwilym yn darogan y bydd Cymru a'r Alban yn wledydd rhydd erbyn 2020, a dyfalwn fod y llenor yn rhag-weld canlyniad cadarnhaol i'r refferendwm yn 1979 (sef yr un flwyddyn ag y ganwyd y Prif Weinidog yr ydym yn ei ddilyn yn nofel.¹⁷⁵) Fodd bynnag, ni sonia R. Gerallt Jones am y refferendwm yn benodol, ond gellid dehongli ymgais y gymuned leiafrifol i dorri'n rhydd fel proffwydoliaeth ynglŷn â phosibiliadau dyrys Cymru Rydd. Fel y gwelwn yn *Cafflogion*, nid yw'r llywodraeth ormesol yn awyddus i'r gymuned hunangynhaliol fodoli'n annibynnol. Wrth ystyried hynny, cofiwn hefyd mai ym mis Mai 1979 yr etholwyd Margaret Thatcher yn Brif Weinidog, ac wrth inni ymweld â'r degawd nesaf, gwelwn atgasedd amlwg llenorion Cymraeg yr 1980au tuag at ei gwleidyddiaeth yn ogystal â chwerwder amlwg rhai o llenorion y cyfnod wedi'r refferendwm.

¹⁷⁵ Ibid. t. 16.

Pennod 4: Dau Ffrwydrad – a’u Sgil-effeithiau

Unwaith eto, gwelwn fod gogwydd ffuglen wyddonol ddyfodolaidd Gymraeg yn newid cryn dipyn yn ystod y degawd hwn, ac yn ogystal ag ymwrthod â’r cysyniad o Gymru Rydd, credaf nad yw’n gyd-ddigwyddiad bod dwy nofel y cyfnod yn canolbwyntio ar sgil-effeithiau rhyfeloedd niwclear. Er mai yn yr 1980au y cyrhaeddodd y Rhyfel Oer ei uchafbwynt, sylwn nad yw’r cysyniad o fygythiad niwclear yn newydd mewn cyd-destun ffuglen wyddonol yn fyd-eang. ‘In the years immediately following Hiroshima, a number of SF authors produced atomic war stories which, if they generally lacked literary merit or scientific accuracy, were at least written in a distinctly admonitory tone.’¹⁷⁶ Gwelwn fod trychineb Hiroshima ar ddiwedd yr Ail Ryfel Byd wedi ysgogi ymatebion amrywiol oddi wrth lenorion ffuglen wyddonol, ond yn cyflwyno rhybudd amlwg i’w darllenwyr.

Llwyddais i ddarganfod dau ddyfodol sy’n delio gyda’r cysyniad o fyd ôl-apocolyptaidd yn y degawd hwn, rhywbeth arall, afraid dweud, nad yw’n gysyniad newydd. Dywed David Seed, ‘Disaster, apocalypse, and the end of the world have been staple themes in science fiction, all with their roots in antiquity.’¹⁷⁷ Yn yr enghraifft gyntaf, *Pennod yn Hanes Milwr* gan Cliff Bere, a gyhoeddwyd yn 1981, gwelwn y cysylltiad gyda’r hen fyd ar ei fwyaf amlwg. Yn y nofel hon, mae’r Cadfyw Gronw yn dychwelyd at ei ddyletswyddau milwrol, ac yn bwrw draw at y ffin rhwng Cymru a Lloegr i gadw trefn ar ffoaduriaid Seisnig sy’n bygwth dechrau gwrthryfel newydd. Teithia Gronw drwy wlad wedi ei rheibio gan ‘storm apocolyptaidd,’¹⁷⁸ a throi cefn ar fro ei febyd yn y Gorllewin. ‘Dyletswyddau blin y dyfodol oedd o’r blaen i

¹⁷⁶ Paul Brians, ‘Nuclear War in Science Fiction, 1945-59’ *Science Fiction Studies* 11.3 (1984), 253.

¹⁷⁷ Seed, t. 113.

¹⁷⁸ Cliff Bere, *Pennod yn Hanes Milwr* (Caerfyrddin: Gwasg yr Ynys Newydd, 1981), t. 8.

'nawr; deuai amser eto, gallwn obeithio, i gyniwair ar hyd hen lwybrau ac ymgolli mewn atgofion.'¹⁷⁹

Mae'n aneglur ym mha flwyddyn yn union y lleolir y nofel. Fodd bynnag, datgela Gronw ei fod wedi darganfod barddoniaeth Waldo Williams yn ystod ei lencyndod, cyn i Waldo farw yn 1971.¹⁸⁰ Dyfalwn felly fod Gronw yn ei ddeugeiniau hwyr a bod byd ôl-apocolyptaid *Pennod yn Hanes Milwr* wedi ei leoli yng nghanol yr unfed ganrif ar hugain. Dysgwn fod adroddwr y nofel wedi bod yn dyst i sawl rhyfel, gan gynnwys Rhyfel y Cyfandir, gyda sifftiau byd-eang yn rhoi'r cyfle i Gymru ennyn parch rhyngwladol, a manteisiwyd ar y cyfle i fynnu annibyniaeth. 'Gwelsom ddechrau'r diwedd ar gyfnod yr hir ganrifoedd pan fyddem fel cenedl yn fodlon i wneud pob dim ond sefyll wyneb yn wyneb â'n hofnau a'u herio. Gwelsom ofn yn cael ei ddiorseddu yn ein calonnau a hunan-barch yn mynd i'w le.'¹⁸¹

Disgrifia Gronw sut yr aethpwyd ati i newid meddylfryd y genedl Gymreig wedi Rhyfel y Cyfandir:

Bu carthu'r genedl o ôl-ffeithiau gormes y masnacheiddio dienaidd y bu'r rhan hon o'r byd yn dioddef o dano yn amcan sylfaenol yn athroniaeth wleidyddol llywodraeth ein gwlad yn y cyfnod cyntaf wedi Rhyfel y Cyfandir. Ac fel hanfod o'r diben hwnnw fe roddwyd pwys ar y syniadaeth o arafu a symleiddio bywyd bob dydd yn ei holl agweddau. *Trwy arafu y daw dyrchafu* - dyna'r hyn a ddaeth i bob pwrpas yn athrawiaeth wleidyddol y llywodraeth ar gyfer ein cymdeithas, ac a weinyddwyd mor rhyfeddol o lwyddiannus ganddi er lles ysbrydol a chorfforol i'r bobl.¹⁸²

¹⁷⁹ Ibid. t. 10.

¹⁸⁰ Ibid. t. 115.

¹⁸¹ Ibid. t. 15.

¹⁸² Ibid. t. 40.

Yn ogystal â dychwelyd at werthoedd traddodiadol, gwelwn fod gwella polisïau ieithyddol wedi bod o bwys mawr. ‘Trwy orfodaeth o’r Gymraeg yn greadigol y bwriedid carthu malltod yr orfodaeth ddifäol Saesneg a fu.’¹⁸³ Yn ogystal â hynny, dysgwn am yr iaith ‘Id-Esperano’, “auxiliary language of many countries.”¹⁸⁴ Agwedd gwrthryfelwr Seisnig yn ddiweddarach yn y nofel yw un o’r arwyddion cyntaf o densiynau rhwng y Cymry a’r Saeson. Cyhoedda’r Sais am yr iaith Ewropeaidd; “There’s no place for it in England,” ac ychwanega Gronw; ‘Adlais oedd ei eiriau, o agwedd cyson llywodraeth ganolog Lloegr ers y dyddiau cynnar wedi’i sefydlu’n “weriniaeth y Bobl Seisnig” ar ddiwedd Rhyfel y Cyfandir.’¹⁸⁵ Pwysleisia Gronw fod hen agweddau’r ymerodraeth yn dal y llanc ifanc hwn yn ôl. “There will be no place for England in this world without it,”¹⁸⁶ ac mae’n rhyfedd ystyried byd gyda Lloegr yn ymladd am ei hawliau a’i hunaniaeth yn hytrach na Chymru a’r gwledydd Celtaidd. Wrth gwrs, mae’r Rhyfel Niwclear a ddilynodd Ryfel y Cyfandir yn newid pethau eto, wrth achosi dinistr aruthrol i diroedd dwyrain Cymru a rhannau helaeth o Loegr. Mae’r nofel yn ‘ymdrin â’r tyndra rhwng y Cymry a’r Saeson yn y sefyllfa honno,’¹⁸⁷ fel yr ydym eisoes wedi gweld. Cwyna un o drigolion y Gymru ôl-apocolyptaidd; “Ffasgwyr Lloegr a dynnodd y bomiau i lawr ar yr ynys hon – a ‘nawr maen nhw’n ceisio ymgartrefu yn ein gwlad ni wedi difetha eu gwlad eu hunain.”¹⁸⁸ Mewn modd digon tebyg ag a wneir yn *Da o Ddwy Ynys*, gwelwn nad yw trigolion a’r hyn sy’n weddill o lywodraeth Lloegr yn barod iawn i ollwng eu gafael ar yr Ymerodraeth Brydeinig. Fodd bynnag, dysgwn hefyd mai llywodraeth Lloegr sy’n

¹⁸³ Ibid. t. 41.

¹⁸⁴ Ibid. t. 88.

¹⁸⁵ Ibid. t. 86.

¹⁸⁶ Ibid. t. 87.

¹⁸⁷ Rowlands, ‘Nofelau Deng Mlynedd’, t. 20.

¹⁸⁸ Bere, t. 45.

rhannol ar fai am ddechrau'r 'Armagedon Atomig,'¹⁸⁹ drwy bwysu ar gymorth llywodraeth America a chreu tensiynau rhyngddynt a Chyfandir Ewrop.

Wrth i Gronw gyfarfod â'i gyd-filwyr ym Mhencadlys Trefyclo ger y ffin, clyw un ohonynt yn tystio: "Mae'r hyn rydw i wedi'i weld yma wrth y ffin yn yr ychydig fisoedd er pan ddes i yma wedi newid y cyfan imi am byth. Rydyn ni'n gweld dechrau'r diwedd ar fywyd y byd - Angau ar hynt i feddiannu'r byd cyfan."¹⁹⁰ Mae effeithiau'r bomiau niwclear wedi gadael eu hôl ar nifer o drigolion yr ardal, hyd yn oed y bobl na chawsant eu heffeithio yn gorfforol. "Yn ein hysbryd y mae'r rhai ohonon ni sy'n edrych yn iach o ran corff yn dioddef."¹⁹¹ Gwêl Gronw effaith y drychineb ar nifer o'r bobl y daw ar eu traws yn ystod ei waith, gan gynnwys dwy ferch a wêl yng ngwersyll Cwm Milw. 'Roedd eu llygaid fel pyllau dwfn yn eu pennau,'¹⁹² ac esbonia'r Capten Alec, mai "anobaith" sy'n gyfrifol am eu dallineb.¹⁹³

Yn ddiweddarach, yn dilyn ymosodiad ffyrnig ar geir milwrol, gan gynnwys car y Cadlyw Gronw, cyflwynir cynllun i sefydlu ffin newydd rhwng y gwledydd Prydeinig. Fe'i disgrifir fel a ganlyn: 'Ymgyrch milwrol ar ein rhan ni, mewn cydweithrediad â'r Albanwyr o'r pen arall, i fyny drwy dalaith Gogledd-Orllewin Lloegr i'r hen diroedd Celtaidd. Hen freuddwyd a atgyfodwyd o fwrlwm brwdfrydedd y Drefn Newydd yn Ynys Prydain genhedlaeth yn ôl ydoedd.'¹⁹⁴ Wedi'r cwbl, fel y dywed Gronw, "Ein hen dir ni yw e."¹⁹⁵ Ymhelaetha, '...y ddyletswydd arnom 'nawr [yw] i bennu ffiniau tiriogaethol ar sail cyfiawnder parhaol o'r diwedd rhwng cenedloedd y Celt a'r Eingl-Sais yn Ynys Prydain.'¹⁹⁶

¹⁸⁹ Ibid. t. 45.

¹⁹⁰ Ibid. t. 59.

¹⁹¹ Ibid. t. 59.

¹⁹² Ibid. t. 84.

¹⁹³ Ibid. t. 84.

¹⁹⁴ Ibid. tt. 126-7.

¹⁹⁵ Ibid. t. 175.

¹⁹⁶ Ibid. t. 182.

Gorffenna'r nofel ar y nodyn gobeithiol hwnnw, gyda'r milwyr yn galw "Tuag at Ynys y Dyfodol,"¹⁹⁷ ac ni allwn anghofio geiriau David Seed, 'Endings are never final.'¹⁹⁸ Fodd bynnag, gwendid y nofel hon yw ei llinyn storiol, fel y noda John Rowlands: 'Nid yw'r llinyn storiol yn ddigon cryf i ennyn diddordeb, na'r mynegiant yn ddigon pefriol i beri inni gael mwynhad llenyddol, ac felly cyll unrhyw neges wleidyddol ei grym.'¹⁹⁹ Er hynny, mae cysylltiadau Cliff Bere gyda Mudiad Gweriniaethol Cymru a gwerthoedd y mudiad hwnnw yn ddylanwad amlwg ar waith y llenor:

Credent fod pwyslais Plaid Cymru ar y Gymraeg ac ar fuddiannau'r bröydd gwledig yn ei rhwystro rhag ennill tir yn y de-ddwyrain diwydiannol; dadleuant hefyd fod heddychiaeth Gwynfor Evans, y llywydd er 1945, yn llesteirio'r blaid rhag bod yn feiddgar filwriaethus ... Gwelir cenedlaetholdeb o fath newydd - sosialaidd, seciwlar, gwrthfrenhinol, amharchus, a'r Saesneg yn gyfrwng iddo.²⁰⁰

Heb os, mae'r nofel hon yn weledigaeth gwbl wahanol i fyd heddychlun Islwyn Ffowc Elis yn *Wythnos yng Nghymru Fydd*. Nid oes yna le i fyddin yng Nghymru Fydd, ac ystyrir is-adran y Gynghrair Prydain Unedig (CPU), Cymdeithas Filwrol Cymru yn 'un o'r blotiau duon ar Gymru Rydd.'²⁰¹

Er i'r Mudiad Gweriniaethol ddirwyn i ben cyn diwedd y 1950au, ymddengys fod y manifesto a ysgrifennodd Cliff Bere yn dal i fod yn agos at ei galon. Wrth ystyried yr hyn yr ydym wedi ei drafod eisoes ynglŷn â Deg Pwynt Polisi gwreiddiol y Blaid, gwelwn fod y nofel hon yn mynd gwrth-graen i'r rheini. Ydyn, mae'r Cymry yn heidio i fywyd gwledig y gorllewin

¹⁹⁷ Ibid. t. 186.

¹⁹⁸ Seed, t. 113.

¹⁹⁹ Rowlands, 'Nofelau Deng Mlynedd', t. 20.

²⁰⁰ John Davies, *Hanes Cymru* (trydydd arg.; London: Penguin Books, 2007), t. 569.

²⁰¹ Elis, *Wythnos yng Nghymru Fydd*, t. 37.

wedi'r drychineb niwclear, ond beth am ddwyrain y wlad? Beth am yr ardaloedd diwydiannol, a pha le oedd i'r rheini ym mholisiau Plaid Cymru? Pwysleisia Cliff Bere y gwahaniaeth rhwng y gorllewin a'r dwyrain drwy ddatgan ei fod yn camu drwy'r porth i'r arallfyd chwedlonol, Annwn (neu Annwfn) yr isfyd tanddaearol, wrth fentro i'r Dwyrain. 'Porth Annwn o fath - porth i fyd mall y tu draw a allai, mewn gwirionedd, fod; oherwydd safai'r bryniau hyn rhwng gorllewin a dwyrain ein gwlad.'²⁰² Gallwn ddehongli mai gwaedd o fath yw'r nofel hon, sy'n ceisio tynnu sylw at dynged Cymry'r ffin a'r ardaloedd diwydiannol.

Un nodwedd ddiddorol iawn ynglŷn â *Pennod yn Hanes Milwr* yw fod trigolion y dyfodol yn ddibynnol ar beiriannau stêm unwaith eto. Gan fod y Rhyfel Niwclear wedi effeithio ar gyflenwadau trydan, gwelwn y brawd a'r chwaer Gwyn a Gwen Nest yn adeiladu'r 'Ddraig', eu cerbyd stêm. Ymdebyga i lori fawr gyda bwyler yn ei rhedeg, yn hytrach na thanc petrol. 'Codai simnai, â pheipen neu ddwy wrth ei hochr, hyd at uchder o tua metr uwchlaw'r to metel fflat a gysgodai'r bwyler a'r peirianwaith.'²⁰³ Yn ddiweddarach yn y nofel, adnewyddir y rheilffyrdd er mwyn ailgysylltu Dwyrain Cymru gyda'r Gorllewin a'r Gogledd, ac ar y rheini y rhedir trenau stêm,²⁰⁴ ac yn hynny o beth, gallwn haeru fod yna elfennau o'r *genre steampunk* yn perthyn i'r nofel hon, a hynny cyn i'r term cael ei fathu yn 1987.

Diffinia *Steampunk Magazine* y diwylliant *steampunk* fel a ganlyn: 'It rejects the ultra-hip dystopia of the cyberpunks - black rain and nihilistic posturing - while simultaneously forfeiting the "noble savage" fantasy of the pre-technological era.'²⁰⁵ Diffinia Adam Roberts *cyberpunk* fel '[a] contemporary mode of SF most implicated with technology ...

²⁰² Bere, t. 40.

²⁰³ Ibid. t. 17.

²⁰⁴ Ibid. t. 128.

²⁰⁵ Dienw, 'What then, is steampunk?' *Steampunk Magazine* 1 (2007), 4.

<http://www.combustionbooks.org/downloads/SPM1-web.pdf> [Darllenwyd 21 Rhagfyr 2014].

representing a world that prioritises the technological over the psychological.’²⁰⁶ Heb os, mae dyfodol *Pennod yn Hanes Milwr* yn mynd groes-graen i hynny. Rydym yn gweld byd lle nad yw’r dechnoleg yn gweithio. Er nad yw’r nofel yn dychwelyd i gyfnod amgen yn Oes Fictoria, fel y gwna nifer o enghreifftiau o *steampunk*, gwelwn greffu am ffordd o fyw symlach. Rydym eisoes wedi ei weld gydag un o arwyddeiriau’r llywodraeth Gymreig, ‘Trwy arafu y daw dyrchafu,’ er, fel y cydnabyddia Gronw ei hun, mae’n annhebygol y buasai’r un dyn byw wedi rhagweld dychwelyd at orfod teithio ar drenau stêm eto.²⁰⁷ Ni chyflwynwyd y cysyniad o lenyddiaeth *cyberpunk* yn y Gymraeg cyn gwaith Andras Millward yn y 1990au, felly mae’n dweud llawer am yr agwedd Gymreig mai *steampunk*, *is-genre* sy’n adnabyddus am gynnwys elfennau *nostalgic*, sy’n ymddangos yn gyntaf yn y Gymraeg. Serch hynny, mae’n bur debyg nad crefu am hen ffordd o fyw a wna Cliff Bere wrth bortreadu’r dyfodol â pheiriannau stêm, dim ond ystyried goblygiadau colli cyflenwadau trydan, ac elfennau ymarferol gorfod ailadeiladu gwareiddiad yn dilyn trychineb.

Wrth gwrs, rydym eisoes wedi crybwyll bod yna ddwy gyfrol yn yr 1980au sy’n dangos ymateb i ymosodiadau niwclear, a symudwn ymlaen at nofel fuddugol cystadleuaeth y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Genedlaethol Llanbedr Pont Steffan a’r Fro yn 1984, *Y Tŷ Haearn* gan John Idris Owen. I ryw raddau, mae’n addas mai nofel ddyfodolaidd sy’n cipio’r Fedal yn y flwyddyn sydd mor arwyddocaol i ddilynwyr y dyfodol dystopaidd, diolch i George Orwell.

Fodd bynnag, ‘Dyddiadur dychmygol yn ymwneud â bywyd mewn cymdeithas neilltuedig’ oedd gofynion y gystadleuaeth y flwyddyn honno, ac mae’r gyfrol ar ffurf dyddiadur Huw ac yn cofnodi ei fywyd mewn gwarchodfa niwclear danddaearol yn y flwyddyn 1994. Drwy hap a damwain y daw Huw a’i gyfaill Bet i ddyfnder y warchodfa, wedi cael eu tynnu i waelodion

²⁰⁶ Roberts, *Science Fiction*, t. 168.

²⁰⁷ Bere, t. 40.

Neuadd y Cyngor Sir wrth gynorthwyo dynes ddirgel ar ôl damwain car. Dysgwn maes o law mai Margaret Lloyd Telford, Prif Weithredwr Rhanbarth De Clwyd yw'r wreigen,²⁰⁸ ffigwr sy'n cael ei galw'n 'Controller' a rheolwr y 'ganolfan' mewn argyfwng. Ymuna nifer o ffigyrau awdurdodol eraill gyda'r criw bychan yn y gwarchodde ac o'r fan honno, hwy sy'n rheoli tynged y byd y tu hwnt i furiau eu cysgodfan. "Rydan ni gyd yma i geisio achub bywydau, i geisio cadw trefn ar ôl y difrod sy tu allan."²⁰⁹

Gwelwn ddyfodol diobaith i Gymru, sy'n dychwelyd at ethos *Cafflogion* R. Gerallt Jones:

Bum mlynedd yn ôl, pan wnaethpwyd Cymru a Lloegr yn un uned weinyddol, enciliodd y Cymry Cymraeg yn ôl i'r capeli. Gweithred wleidyddol oedd hi i'r rhan fwyaf ohonom ni ar y cychwyn nes i'r ffin rhwng etifeddiaeth a chenedlaetholdeb, rhwng iaith crefydd ac iaith calon, rhwng capel a chymdeithas leiafrif, ddiflannu.²¹⁰

Gwelwn mai biwrocratiaeth y llywodraeth bresennol sydd ar fai, yn rhannol, am y newid hwnnw. Trafoda Huw yn ei ddyddiadur sut yr âi Mrs Telford i'w hystafell ac 'ymdaflu ei hun yn ffyrnig i'w gwaith ... a mynd ati i greu mynydd swyddogol o bapur.'²¹¹ Wrth gwrs, crefa Huw am ddychwelyd i'r 'Tu Allan', a chael mynd allan i helpu mewn modd ymarferol, yn ogystal â chwilio am ei wraig a'i ferched.

Ni ellir anwybyddu'r adleisiau o chwedl Branwen a'r chwedl Wyddelig, y Tŷ Haearn, sy'n ddylanwad amlwg ar gynnwys y nofel hon, a chyfeirir at y ddwy yn gyson. Pwysleisia'r llenor fod Huw yn breuddwydio ei fod yn un o'r saith milwr a oroesodd y frwydr rhwng Iwerddon a Chymru yn ail gainc y Mabinogi. Safant ger Aber Alaw yn Nhalebolion wedi iddynt

²⁰⁸ John Idris Owen, *Y Tŷ Haearn* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1984), t. 14.

²⁰⁹ *Ibid.* t. 19.

²¹⁰ *Ibid.* t. 23.

²¹¹ *Ibid.* t. 24.

ddychwelyd gyda phen Bendigeidfran. Clywn Branwen yn ynganu ac addasu'r un darn ag y dyfynna Gwynn ap Gwilym yn nheiti *Da o Ddwy Ynys*. Wrth i Branwen dorri ei chalon ger glan yr afon, yn sydyn, trawsnewidia i gyfleu rhywun arall, sef Prif Weinidog Prydain Fawr. Dyfalwn, wrth i Huw ddisgrifio ei 'phen cringoch,'²¹² mai am Margaret Thatcher y mae'n sôn. Cyhoedda honno'n falch, "Da o ddwy ynys, mi wnes i'n llawer gwell na hynny, mi ddiffeithiais Orllewin a Dwyrain heb sôn am wledydd y Trydydd Byd."²¹³ Gwrthoda'r Brif Weinidoges adael i Huw a'r milwyr gladdu pen Bendigeidfran. "Does dim lle i ramant mewn Gwleidyddiaeth. Enaid wir. Cleddwch y pen. Y fi, a Gweinidigion y Llywodraeth, sy'n amddiffyn Prydain."²¹⁴ Nid oes wir angen i Huw ddweud yn ddiweddarach, 'Roedd hi'n debycach i alegori na breuddwyd.'²¹⁵ Ymhelaetha, a dysgwn fod Huw yn gyfarwydd iawn â'r Mabinogi a'r Chwedlau Celtaidd. Yn gyn-athro Cymraeg - 'pan oedd y Gymraeg yn dal i fod yn bwnc a ddysgid mewn ysgolion'²¹⁶ – edrydd stori Branwen, gan hefyd gyfeirio at Chwedl y Tŷ Haearn, o ail gainc y Mabinogi.

Wrth gwrs, chwedl Wyddelig sy'n gysylltiedig â chwedl Branwen Ferch Llŷr yw chwedl y Tŷ Haearn, sy'n olrhain hanes y Pair Dadeni. Sonia'r stori am Fatholwch, Brenin Iwerddon, yn caethiwo Llasar Llaes Gyfnewid a'i wraig wedi iddynt fynd yn atgas gan bobl ei deyrnas mewn tŷ haearn, a'u llosgi'n ulw – ond mae'r ddau yn dianc i Gymru i geisio nawdd gan Fendigeidfran. Wrth gwrs, mae'r drychineb niwclear yn ffordd dda o foderneiddio'r chwedl, ac yn berthnasol iawn yn yr 1980au, pan oedd ynni ac arfau niwclear yn bwnc trafod. Fel y

²¹² Ibid. t. 34.

²¹³ Ibid. t. 34.

²¹⁴ Ibid. t. 35.

²¹⁵ Ibid. t. 38.

²¹⁶ Ibid. t. 38.

dywed beirniaid y Fedal Ryddiaith y flwyddyn honno, mae *Y Tŷ Haearn* yn 'cyflwyno cip ar thema enbyd o gyfoes o fewn patrwm ein hen chwedloniaeth.'²¹⁷

Fel y dôi manylion yn ôl i imi fe ddeuai ein sefyllfa ni yma, yn ein tipyn lloches yn boenus o eironig. Roeddem ninnau mewn tŷ o goncrïd a dur, ac fel seithgwr yng Ngwales, roedd drws y byddai'n rhaid ei agor, ac wrth agor y drws hwnnw fe fyddai'n rhaid inni wynebu holl drallod dynoliaeth. Ond nid oedd cysur anghofrwydd nefoedd yr hen Geltiaid ar gael i ni.²¹⁸

Pwysleisir, yn y fan honno yn y lloches, nad oes angen i'r un o'r cymeriadau sy'n trigo yno wynebu realiti'r sefyllfa y tu allan. Ymhelaetha John Fitzgerald, Dafydd Ifans a Rhiannon Davies Jones ar hyn: 'Dim ond diflastod a ddisgwyliai'r sawl a agorai'r drws tuag Aber Henfelen hefyd. Yn anffodus nid oes sôn yma am y Pair Dadeni i adfywhau'r lladdedigion.'²¹⁹ Disgrifia Huw'r pum sy'n weddill ar ddiwedd y nofel yn griw 'heb obaith ffydd, heb gysur breuddwydion'²²⁰ wrth fentro allan i'r byd ôl-apocolyptaidd. Mae'r ffaith mai dyna gofnod olaf Huw yn ei ddyddiadur, i ryw raddau, yn dweud y cwbl.

Heb os, mae dyfodol John Idris Owen yn dywyll iawn, ac nid oes hyd yn oed awgrym, fel yn *Cafflogion*, o unrhyw obaith i drigolion y dyfodol hwnnw. Ni ddisgrifir erchyllterau ôl-ffeithiau'r bom niwclear, gan adael i'r darlennydd ddefnyddio'i ddychymyg. Wrth edrych yn fanylach ar y cysyniad o'r byd ôl-apocolyptaidd yn llenyddiaeth ddyfodolaidd yr 1980au, gellid gweld effaith y refferendwm aflwyddiannus arnynt. Y refferendwm sy'n fom niwclear trosiadol yn creu tir gwleidyddol diffaith yng Nghymru. Tra bo Cliff Bere yn ei weld fel cyfle i

²¹⁷ W. Rhys Nicholas (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Llanbedr Pont Steffan a'r Fro 1984* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1984), t. 106.

²¹⁸ Owen, t. 39.

²¹⁹ Nicholas (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Llanbedr Pont Steffan a'r Fro 1984*, t. 106.

²²⁰ Owen, t. 100.

ni ailadeiladu a chreu cynghrair newydd yn y dyfodol, rhagwêl John Idris Owen y byddwn yn boddi ym myd biwrocraidaidd y Llywodraeth Doriäidd. Wrth inni droi cefn ar y degawd hwn, gwelwn fod elfen obeithiol eto wrth i gynnyrch ffuglen wyddonol y cyfnod weld addewid ar ffurf refferendwm 1997.

Pennod 5: Gwawr y Mileniwm Newydd

Ar drothwy'r mileniwm newydd, sylweddolwn fod dyfodol ambell nofel a stori yr wyf eisoes wedi eu trafod bellach yn orffennol. I ryw raddau, dyna ran o apêl rhyddiaith ddyfodolaidd. Er bod pob darn o ryddiaith yn perthyn i gyfnod arbennig, nid yw'r testun hwnnw yn dyddio yn yr un modd a wna'r nofel sy'n portreadu'r dyfodol. Afraid dweud, rwyf innau'n mynd ati i ddarllen *Wythnos yng Nghymru Fydd* mewn modd cwbl wahanol ag a wnaeth darlennydd o gyfnod ei chyhoeddi yn yr 1950au. Fel y sylwodd Dylan Iorwerth wrth drafod *Wythnos yng Nghymru Fydd*, 'mae cyd-destun ei darllen wedi altro'n sylweddol.'²²¹ Nid wyf innau'n cofio Cymru heb Theatr Genedlaethol, ac ni ddeallaf, mewn gwirionedd, ysfa Islwyn Ffowc Elis i sefydlu'r 'Eglwys Unedig', a minnau wedi tyfu mewn oes lle mae cynulleidfaoedd ein capeli'n crebachu. Serch hynny, mae'n bur debyg y byddai darllenwyr pan gyhoeddwyd hi gyntaf yn rhyfeddu at y fath nodweddion hynod, ac, o bosib, yn gobeithio eu gweld yn cael eu gwireddu yng Nghymru'r dyfodol.

Fodd bynnag, wrth gyrraedd man canol yr astudiaeth hon, sylwn fod hynny'n rhan o'r hwyl wrth ddarllen nofelau o'r fath. Er nad proffwydo yw bwriad y llenor sy'n mentro i'r dyfodol, gellid diolch nad yw pob un o'r cysyniadau yr ydym wedi darllen amdanynt wedi cael eu gweld y tu hwnt i gloriau'r llyfr. Diolchwn nad ydym wedi cael ein chwythu'n gyrbibion gan fom niwclear na chwaith o dan rym gormesol Brawdoliaeth bwerus a bod modd i ni barhau i weld sut y datblygodd ffuglen wyddonol yn y Gymraeg erbyn diwedd yr ugeinfed ganrif a dechrau'r unfed ganrif ar hugain.

²²¹ Iorwerth, t. xi.

Ystyrir 90au'r ganrif ddiwethaf yn drobwynt, o fath, yn hanes rhyddiaith Gymraeg - yn 'ddadeni honedig'²²² yn ôl Angharad Price. *Seren Wen ar Gefndir Gwyn* gan Robin Llywelyn a nodir fel y nofel gyntaf i ysgogi'r newid hwnnw yn nhueddiadau llenorion Cymraeg. Fodd bynnag, cyhoeddwyd *Y Trydydd Posibilrwydd* gan Mari Williams cyn hynny, yn 1991. Yn y nofel hon, gwelwn ddau Gymro a Chymraes – Mathew, Dafydd a Non - yn cael eu dewis gan swyddogion UDA i fynd ar wibdaith i'r gofod, i fesur 'yr atynfa ddisgyrchiannol a grymoedd eraill yng nghyffiniau'r seren ddu.'²²³

Fel y nodir gan sylwebydd teledu ar ddiwrnod ffarwelio â'r Cymry sydd ar fin dechrau'r daith i'r gofod, 'mae Cymru wedi cynhyrchu pencampwyr o bob math ers iddi ennill ei hannibyniaeth yn ôl ar ddechrau'r ganrif.'²²⁴ Dyma dro ar fyd ers nofelau'r 1980au, gyda'r cysyniad o Gymru annibynnol yn ymddangos unwaith eto, ond nid yn unig hynny, Cymru annibynnol sy'n cyflawni campau rhyngwladol. Serch hynny, gwelwn fod hen ragfarnau yn dal i fodoli yn y dyfodol hwn hefyd, wrth i gyrnol yr Unol Daleithiau gyfeirio at y wlad fel 'ardal' a galw'r tri o Gymru'n 'Brydeinwyr'.²²⁵

Wrth i Dafydd, Non a Mathew fentro allan i archwilio'r seren ddu, datblygir cymhlethdodau ar fwrdd y fam-long, gan achosi iddi ffrwydro yn y gwagle mawr: 'Bu tanchwa anferthol. Fflachiodd gwreichion y llong am ennyd ac yna diffodd cyn mynd ar ddisberod drwy'r bydysawd.'²²⁶ Mae'r triawd ar goll yn y gofod ac yn teimlo'r llong ofod yn cael ei hatynnu yn ôl at y Ddaear. Wedi iddynt lanio, sylweddola'r triawd nad ydynt wedi glanio yn ôl yn yr un Gymru ddyfodolaidd. Yn ail Gymru'r nofel, gwelwn gymdeithas sydd wedi troi cefn ar

²²² Angharad Price, *Rhwng Gwyn a Du: Agweddau ar Ryddiaith Gymraeg y 1990au* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2002), t. 3.

²²³ Mari Williams, *Y Trydydd Posibilrwydd* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1991), t. 25.

²²⁴ *Ibid.* t. 21.

²²⁵ *Ibid.* t. 7.

²²⁶ *Ibid.* t. 28.

dechnoleg a gwyddoniaeth ac wedi dychwelyd at ffordd symlach o fyw. Dyma Gymru heb geir, lle teithia'r trigolion ar geffylau a gwisgant frethyn cartref. Cyfeirir yn fras at 'Gyfnod y Trychinebau', a dysgwn maes o law mai trychinebau naturiol o dan law dyn oedd y trychinebau a frithai'r cyfnod hwnnw ac mai ar gynnydd technolegol aruthrol yr ugeinfed ganrif yr oedd y bai: "Mae'r byd wedi newid, syr. Does gan neb ddiddordeb yn y sêr mwyach. Mae technoleg ar drai ym mhob man oherwydd newyn a llifogydd a diboblogi."²²⁷ Nid yn unig hynny, ond mae'r llywodraeth yn defnyddio'r ffaith honno fel ffordd o gadw cymdeithas yn ddof a phawb yn eu lle. Dywed un o'r Gwarchodwyr sy'n cadw llygad ar bentref Llannerch: "Cyn belled ag y byddant yn dal i fod yn ofergoelus a pheidio â mynd ar ôl yr hen wybodaeth a dysg, siawns na fydd y byd yn lle haws i'w reoli o hyn allan."²²⁸

Yn ogystal â hynny, dysgwn fod nai ifanc Mathew, a oedd yn bedair oed ar ddechrau'r nofel, bellach yn hen ddyn a chlywn hanesion am deuluoedd Dafydd a Non. Er bod yna gysylltiadau real rhwng y gofodwyr a rhai o drigolion y byd, datgelir yn ddiweddarach yn y nofel mai dim ond ambell un ohonynt a all eu gweld. Mae Jac y Tafarnwr yn siarad gyda hwy, a darparu bwyd ar eu cyfer, cyn clywed y meddwon yn y dafarn yn chwerthin am ei ben am weini bwyd i fwrdd gwag.²²⁹ Fel ysbrydion, mae yna rai pobl sy'n gallu eu gweld ac eraill yn methu. Gwelwn densiynau amlwg rhwng y byd modern yr ydym ninnau'n gyfarwydd ag ef a bywyd symlach dan rym y llywodraeth dotalitaraidd y mae'r triawd yn dychwelyd iddo. Gwelwn gyfeiriadau lu at lôn gwerin - er enghraifft, meddylia Elsbeth a Jac y Tafarnwr mai 'cannwyll gorff' yw golau fflachlamp Mathew yn diflannu yn y pellter²³⁰ - a'r rheini'n cael eu defnyddio i esbonio nodweddion anesboniadwy, yn hytrach na ffeithiau a rhesymeg

²²⁷ Ibid. t. 30.

²²⁸ Ibid. t. 59.

²²⁹ Ibid. t. 45.

²³⁰ Ibid. t. 77.

wyddonol. Mae yna wrthdaro cyson yn *Y Trydydd Posibilrwydd*; gwyddoniaeth yn erbyn crefydd, y byd modern yn erbyn yr hen ffordd draddodiadol. Ymddengys nad oes yna fan canol.

Esbonnir arwyddocâd teitl y nofel gan Mathew cyn iddo gamu ar y llong ofod, wrth iddo ymateb i gwestiwn ynglŷn â beth fyddai tynged y tri gofodwr pe baent yn cael eu sugno i mewn i'r seren ddu gan rym disgyrchiant. Noda bod tri phosibilrwydd.

...naill ai byddwn yn disgyn i'r pwynt yng nghanol y trobwll lle mae deddfau ffiseg yn torri i lawr... neu ... byddwn yn chwyrlio o gwmpas ymyl y seren ddu am byth, gan fethu codi digon o gyflymder i ddianc o'i hawyrgylch.²³¹

Fodd bynnag, y trydydd posibilrwydd, yn ôl Mathew, a'r hyn sy'n digwydd i'r tri phrif gymeriad yn y nofel, yw "llithro trwy dwl i'r bydysawd eto. A dyn a wŷr ble cawn ni ein hunain wedyn, nac ym mha gyflwr!"²³² Yn ogystal â hynny, wedi gwaith ymchwil pellach, gellid gweld bod teitl y nofel hefyd yn gwrth-ddweud damcaniaeth sy'n rhan o un o ddeddfau'r meddwl, deddf y canol gwaharddedig, sy'n nodi bod rhywbeth naill ai'n wir neu'n anwir. Mae'r cysyniad o gyflwyno trydydd posibilrwydd yn golygu herio'r cysyniad hwnnw, a chyfleu y gall rhywbeth fod yn anhysbys neu'n amwys. Fel yr esbonia Meltzer, 'The explanation of this situation usually given is that it does not exhibit the breakdown of a logical law, but merely the vagueness and unsuitability of the concept involved,'²³³ gan ymhelaethu ac awgrymu, 'no finite procedure is known by which the proposition's validity can be definitely decided.'²³⁴

²³¹ Ibid. tt. 14-5.

²³² Ibid. t. 15.

²³³ Bernard Meltzer, 'The Third Possibility' yn *Mind* 73.291 (1964), t. 430.

²³⁴ Ibid. t. 431.

Wrth ystyried y ddamcaniaeth hon yng nghyd-destun y nofel, mae modd cwestiynu bodolaeth y dyfodol rhyfedd y dychwela'r triawd iddo. Ai rhyw fath o limbo neu uffern yw'r byd hwnnw, lle arddangosir hunllefau dwysaf y gofodwyr, ynteu yw'r byd hwnnw'n bodoli go iawn? Sylweddola Mathew mai Jonathan sydd wedi eu tynnu i'r byd rhyfedd hwnnw.

'Jonathan sydd wedi'n tynnu ni'n ôl, trwy ryw fath o delepathi,' meddai Mathew.

'Roedd hiraeth arno am yr hen ddyddiau, pan oedd gobaith i'r byd. Ni, a'r fenter i'r gofod oedd yn cynrychioli hynny iddo.'²³⁵

Gellid ei ddehongli fel byd go iawn, a dweud bod gan Jonathan bwerau goruwchnaturiol (nodwedd arall y gellid ei dadansoddi gyda deddf y trydydd posibilrwydd) ac wedi eu galw yn eu holau i achub byd am ei fod yn ystyried eu hoes hwy a'r antur i'r gofod yn gynrychiolaeth o ddyddiau gwell, neu, i'r gwrthwyneb, ei ddehongli fel rhithwelediad tri gofodwr wedi iddynt farw. Cyn iddynt gael eu llyncu i ddyfnderoedd dirgel y seren ddu, nodir, 'A beth petai'r llestr yn chwyrlïo ar gyrion y seren ddu hyd nes cael ei sugno trwy dwll yng ngwead y cread i ran arall ohono? Efallai y byddai hyn fel pyrth uffern yn agor iddynt.'²³⁶ Mae'n anodd anwybyddu'r derminoleg grefyddol a ddefnyddir cyn i'r triawd ddychwelyd i'r byd arall, ac ymddengys eu bod yn deffro mewn math o hunllef lle mae'n rhaid iddynt ddiogelu casgliad Jonathan o lyfrau ar gyfer y genhedlaeth nesaf (bron fel pe baent yn rhan o gêm gyfrifiadurol) a'i rhoi i Seimon, ei wŷr.

Erbyn diwedd glo'r nofel, mae Non, Mathew a Dafydd yn cael eu rhyddhau o'u limbo unigryw, wrth i drigolion Llanerch gynnal seremoni gwaredu ysbrydion. Ni allaf osgoi rhag meddwl am y gerdd 'Dychwelyd' gan T. H. Parry-Williams yng nghyd-destun y darn olaf, wrth i frawddegau olaf y nofel ddweud, 'Roedd ffurfiau'r tri theithiwr yn cael eu chwalu.

²³⁵ Williams, *Y Trydydd Posibilrwydd*, t. 98.

²³⁶ Ibid. t. 26.

Disgynnodd dŵch ar eu llygaid a syrthiasant i drwmgwsg. Cylch o dragwyddoldeb oedd eu crud lle nad oedd deffro mwy.²³⁷ Mae'r cyfeiriad at y 'crud' yn awgrymu ailenedigaeth o fath i'r triawd, a gobeithiwn, wrth ddarllen, nad ydynt yn dychwelyd i'r seren ddu i droelli yno am byth bythoedd.

I ryw raddau, nid oes syndod yr anghofwyd am *Y Trydydd Posibilrwydd*, a hithau yng nghysgod *Seren Wen ar Gefndir Gwyn*. Fe'i gelwid yn 'lletchwith ac yn dra anghrediniol ar adegau'²³⁸ gan Andras Millward yn ei adolygiad arni, ac o gymharu ag ymateb clodforus y beirniaid Eisteddfodol i nofel Robin Llywelyn, collwyd nofel Mari Williams mewn seren ddu yn y traddodiad llenyddol. Yn wir, cyflwyna *Seren Wen ar Gefndir Gwyn* wedd newydd ar ffuglen wyddonol, wrth i gystadleuaeth y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Genedlaethol Aberystwyth yn 1992 ofyn am 'Nofel fer neu gasgliad o straeon byrion yn ymwneud â'r dyfodol.' Heb os, roedd yn gyfle euraid i awduron ffuglen wyddonol. Serch hynny, nodwyd mai dim ond chwech o'r pedwar cystadleuydd ar ddeg a fentrodd i'r ganrif nesaf. Yn ogystal â hynny, beirniadwyd hwy yn hallt gan Alun Jones am ddefnyddio ystrydebau gorgyfarwydd. 'Ai dychymyg neu ddiffyg dychymyg sy'n gyfrifol am bresenoldeb ffôn-fideo ym mron bob un o'r nofelau hyn ynteu dim ond y perygl bod Aldous Huxley a George Orwell a'u dilynwy'r wedi llwyddo i wneud y dyfodol yn rhywbeth llawer mwy stêl na'r gorffennol?'²³⁹

Roedd Alun Jones, Robert Rhys a Dafydd Rowlands yn unfryd fod nofel 'Penbowlen' yn gwbl haeddiannol o'r wob, ac wrth dreiddio i arallfyd unigryw'r nofel, mae'n hawdd gweld pam. Mae antur ryfeddol *Seren Wen ar Gefndir Gwyn* yn cydio ynoch o'r cychwyn cyntaf, ac yn gwbl wahanol i'r nofelau realaidd a lywodraethai'r traddodiad llenyddol tan hynny. Fe'n

²³⁷ Williams, *Y Trydydd Posibilrwydd*, t. 104.

²³⁸ Andras Millward, 'Y Silff Ias: Bîm Mi Yp Scoti...' *Golwg*, 12 Rhagfyr 1991. t. 21.

²³⁹ Jones (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Aberystwyth 1992*, t. 125.

cyflwynir i fyd ffantasiol Robin Llywelyn drwy gyfarfod â'r clerc Zählappell sy'n hepian yn braf o flaen ei deledu, wrth i 'gardiau geiriau' cyfrinachol o Archifdy Sgrins Gwifrau Castell Entwürdigung olrhain hanes Rhyfel yr Ymerodraeth.

Y tystiolaethau hynny sy'n ffurfio corff y nofel, a'r rheini'n adrodd stori Gwern Esgus. Tra bo Zählappell yn hepian o flaen ei gyfrifiadur, chwaraea'r 'sothach hen-ffasiwn am y rhyfal'²⁴⁰ ar y sgrin, a synnwn ninnau wrth ddarllen sut y gall y clerc o Wlad Alltud gysgu drwy'r hanes rhyfeddol. Darllenwn deithlyfr trydan Gwern, sy'n cael ei anfon gan Triw Fel Nos, gwas Ceidwad yr Ateb, o Dir Bach fel llatai rhyfel 'i gludo'r neges ymarfogi i diroedd eraill y gynghrair'²⁴¹ ynghyd â Pererin Byd a Tincar Saffrwm. Gofynna Gwern i Triw Fel Nos, "Bedi'r gwaith 'ma ... Ydio'n talu?"²⁴² gan fynnu nad yw'r bri cenedlaethol a'r chwedlau yn ddigon.

'Ydi'r anrhyddadd o gael sefyll yn y bwlch dros dy bobol ddim yn ddigon o dâl ichdi, Gwern Esgus?'

'Nacdi wir. Be uffar wnaethon nhw erioed am ddim i mi?'²⁴³

Afraid dweud, arwr anfoddog yw Gwern. Ar ffo rhag y Cyrff Heb Enaid, milwyr brawychus ac arallfydol y Frenhines Fischermädchen o Wlad Alltud am ymyrryd gyda meddalwedd ei Hadran Ddarbwylllo, mae'n rhaid i Gwern dderbyn y gwahoddiad. Dysgwn fwy am driciau Gwern Esgus, wrth i Fischermädchen ddatgelu ei fod wedi sychu disg galed ar systemau Gwlad Alltud ac eglura Fischermädchen ei fod wedi gadael "neges ffiائد yn awgrymu y dylwn fynd i gyflawni gweithred anllad gyda "fy mhysgod."²⁴⁴ Dilynwn y triawd wrth iddynt

²⁴⁰ Robin Llywelyn, *Seren Wen ar Gefndir Gwyn* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1992), t. 148.

²⁴¹ Ibid. t. 63.

²⁴² Ibid. t. 61.

²⁴³ Ibid. t. 61.

²⁴⁴ Ibid. t. 66.

gasglu'r gynghrair ynghyd, ymuno yn y rhyfel a wynebu Brenhines Gwlad Alltud. Drwyddi draw, hiraetha Gwern am ei gariad, Anwes Bach y Galon, ac am ei fab, Calonnog.

Gorffenna teithlyfr trydan Gwern yn obeithiol - 'Am y tro, Gwern.'²⁴⁵ - ac yntau'n dychwelyd i Wlad Alltud i achub Anwes, wedi iddo sicrhau bod Calonnog yn ddiogel gyda Tincar Saffrwm. Fodd bynnag, datgela llythyr oddi wrth Anwes Bach y Galon, sydd hefyd ymysg un o gardiau geiriau Zählappell, iddo gael ei ladd ar gefn ei ful ac arddangosir ei ben ar bolyn wrth byrth y castell.²⁴⁶ Fel y sylwyd gan nifer o feirniaid craff eisoes, mae'r hanes hwnnw'n adleisio'r chwedloniaeth a amgylchyna farwolaeth Llywelyn ein Llyw Olaf. Maes o law, dysgwn fod Calonnog yn agor Dôr yr Ateb ac awgrymir mai efe yw'r Mab Darogan sy'n arwain Tir Bach at fuddugoliaeth.

Gwelwn yn y nofel hon gymysgedd o'r hen a'r newydd, a chymysgedd hefyd o'r real a'r afreal. Fel y crybwyllwyd wrth drafod y cysyniad o'r Trydydd Posibilrwydd, mae'r gwir a'r anwir yn bosib yn y nofel hon. Cyfeirir ati fel nofel 'wyddonias' sawl tro gan feirniad a darllenwyr, a holaf sut y gall byd lle mae'r holl gymeriadau amrywiol yn berchen ar enwau hudolus megis Siffrwd Helyg, Dei Dwyn Wyau ac Anwes Bach y Galon, fod yn enghraifft o ffuglen wyddonol? Ym mhle yn gwmws mae elfennau'r *genre* yn ymddangos yn y byd di-weleffon hwn? Yr 'unedau egni' a'r 'dyfeisiadau technolegol soffistigedig' sy'n ei phennu'n nofel ffuglen wyddonol, yn ôl Angharad Price.²⁴⁷ Er bod trigolion arallfyd Robin Llywelyn yn gwisgo clogynnau hirion a siwtiau brethyn, dibynnant hefyd ar Sgriniau y Gwifrau a thechnoleg ddatblygedig i ymladd rhyfeloedd a derbyn newyddion. I ryw raddau, y dechnoleg honno sy'n cyfiawnhau (ac yn esbonio) sut y bu nifer o ddarllenwyr Cymraeg mor

²⁴⁵ Ibid. t. 142.

²⁴⁶ Ibid. t. 144.

²⁴⁷ Price, *Rhwng Gwyn a Du*, t. 35.

barod i alw hon yn nofel ffuglen wyddonol. Er enghraifft, gellid cyfeirio at deithlyfr trydan Gwern Esgus, fel rhyw fath o ddyddiadur fideo dyfodolaidd, ac yn wir, gelwir pob pennod yn ‘Tystiolaeth #’ yn hytrach nag yn ‘bennod’. Yn ogystal â hynny, peiriannydd ar rwydweithiau Adran Ddarbwylo Gwlad Alltud yw Gwern, a pheiriannydd medrus hefyd, sy’n ymyrryd yn fwriadol â meddalwedd y sustem. Disodlir yr hen bostmyn, a bellach defnyddir ffyrdd o ddarparu gwybodaeth sy’n debyg i’r e-bost. Gan y torrwyd cyflenwad trydan Tir Bach, dywed Gwern; ‘Am bod [sic] yna ddim trydan toedd Sgrins y Gwifrau’n da i ddim chwaith a negeswyr hen-ffasiwn yn cario’r newyddion, fel y postmyn stalwm.’²⁴⁸ Gwelwn felly fod pethau wedi datblygu erbyn dyfodol arallfydol Robin Llywelyn, a rhyw dinc nad yw’r e-byst yn mynd i ddisodli’r sustem Bost Brenhinol wedi’r cwbl.

Wrth ystyried ymladd y rhyfel yn y nofel, sylwn ei fod yn ymdebygu, fel y dywedodd John Rowlands, i gêm gyfrifiadurol ‘oer ac annynol.’²⁴⁹ Yn wir, clywn Gwern Esgus yn wfftio pryderon Tincar Saffrwm drwy ddatgan; “Duwcs, dwi ‘di hen arfar hefo Gêm Hedfan Perthynol Gorad Drw Nos Dre’cw.”²⁵⁰ ‘Pensaer meddalwedd’²⁵¹ yw rôl Gwern yn y rhyfel, ac ymddengys mai gwasgu botymau a gwylio’r sgriniau yn unig yw ei swydd, ac nid yw’n gweld dim o’r gyflafan o’i awyren. Dywed David Seed: ‘Future wars narratives connect closely with the practice of war gaming ... which has since become institutionalized through computer simulations.’²⁵² Yn wir, ceir rhyw deimlad nad yw’r darllenydd i fod i gydymdeimlo gyda’r diniwed sy’n dioddef yn sgil y dinistr rhyfel, gan nad ydym yn gweld y golygfeydd hynny. Sioe fawr y dechnoleg sy’n ganolbwynt i’r darn.

²⁴⁸ Llywelyn, *Seren Wen ar Gefndir Gwyn*, t. 28.

²⁴⁹ John Rowlands, ‘Chwarae â Chwedlau: Cip ar y Nofel Gyrmaeg Ôl-fodern’ yn *Rhyddid y Nofel* gol. Gerwyn Williams (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1999), t. 178.

²⁵⁰ Llywelyn, *Seren Wen ar Gefndir Gwyn*, t. 98.

²⁵¹ *Ibid.* t. 94.

²⁵² David Seed, t. 103.

Serch hynny, mae Bethan Mair Hughes yn llygad ei lle wrth fynnu rhoi'r teitl herfeiddiol 'Nid gêm Nintendo yw hyn, ond bywyd!' ar ei hymdriniaeth â'r nofel. Mae'r rhyfel technolegol yn *Seren Wen ar Gefndir Gwyn* yn enghraifft arall lle y cyfosodir 'y gwir, yr anwir a'r lled-wir, ac nid oes modd gwahaniaethu rhyngddynt.'²⁵³ Noda Simon Brooks bod y golygfeydd rhyfel 'fel pe baem yn ennill mynediad i ryfel yn *cyber-space* ein cenedligrwydd, y mae "peiriannau heddwch" lled-realaidd *Seren Wen ar Gefndir Gwyn* yn clonio digwyddiadau a naratif Rhyfel y Gwlff ac yn eu troi yn gêm fideo.'²⁵⁴ Ac wrth i Pererin Byd alaru dros ddiodefwyr diniwed y nofel, dywed, "Fyddan nhw'n marw heb wybod pwy lladdodd nhw a ninna wedi'u lladd nhw heb wybod pwy laddon ni,"²⁵⁵ a phwysleisir, er mai "rhyfel technoleg newydd ydi hwn,"²⁵⁶ nad yw hi'n wahanol iawn, mewn gwirionedd, i ryfeloedd yr oesoedd a fu.

Gan ddychwelyd at drafod technoleg, sylwn hefyd nad oes yna berthynas gyfforddus iawn gyda'r dechnoleg newydd. Mynna Robin Llywelyn ei hun nad yw'n ystyried y nofel fel enghraifft o ffuglen wyddonol.²⁵⁷ Sylwn fod y cymeriadau i gyd yn ymwrthod â'r dechnoleg newydd. Rydym eisoes wedi sôn am y system bost ar ei newydd wedd, gyda'r postmyn yn dychwelyd. Difa'r ddisg galed a wna Gwern, wedi'r cwbl, ac mae'r cymeriadau yn gwneud yn iawn heb Sgrins y Gwifrau. Mae Anwes Bach y Galon yn sychu'r golch ar lein ddillad ac mewn byd lle gwelwn goctêls, ceir (er mai dim ond ambell un a welir) a theledu, mae'n bur debyg y byddai *tumble dryer* ar gael iddi. Ceir ymdeimlad o wrthod y dechnoleg honno, yn yr un modd ag y gwrthoda Robin Llywelyn gydnabod dylanwad ffuglen wyddonol ar ei waith:

Gan mai technoleg yw thema lywodraethol *Seren Wen ar Gefndir Gwyn* mi fyddwn yn mentro dweud mai nofel fel *Cafflogion R.* Gerallt Jones sydd debycaf iddi. Ond nid

²⁵³ Bethan Mair Hughes, 'Nid gêm Nintendo yw hyn, ond bywyd!' *Tu Chwith* 1 (1993), t. 44.

²⁵⁴ Simon Brooks, 'Ple'r Pla a throednodiadau eraill.' *Taliesin* 85 (1994), 41.

²⁵⁵ Llywelyn, *Seren Wen ar Gefndir Gwyn*, t. 102.

²⁵⁶ *Ibid.* t. 10.

²⁵⁷ Tomos, 'Llên Yfory: Gwyddonias Cymreig', t. 19.

oes yn *Seren Wen ar Gefndir Gwyn* yr hiraeth adferol am wynfyd cyn-fodern a chyn-
dechnolegol sydd yn *raison d'être* i'r nofel honno.²⁵⁸

Yn ogystal â goroesi heb dechnoleg, mae gwifrau trydanol yn anharddu tirlun y nofel. Mae Robin Llywelyn eu disgrifio'n 'ymddolennu fel sliwan fawr ddu rhwng y bryniau a'r corsydd.'²⁵⁹ Afraid dweud, mae'r cyfeiriadau chwedlonol cyson hefyd yn adleisio oes a fu. Wrth drafod baner Tir Bach, ac arni'r seren wen ar gefndir gwyn, ystyria Simon Brooks ei bod hi'n symbol o dechnoleg. 'Golau na ellid mo'i weld yn y "seren wen ar gefndir gwyn" yw golau technoleg.'²⁶⁰ Erbyn hyn, mae technoleg yn ymdoddi'n naturiol i'n bywydau, fodd bynnag, gellid dehongli'r ystyriaeth honno fel Robin Llywelyn yn gwrthod gwneud dyfeisiadau technolegol yn ganolbwynt.

Ymdrinnir â'r cysyniad o rym totalitaraidd mewn ffordd gwbl wahanol i'r ddelwedd Orwell-
aidd. Mae creu arallfyd o'r newydd yn rhoi rhwydd hynt i Robin Llywelyn feirniadu agweddau ar y byd o'i amgylch, mewn modd a rydd ddigon o bellter iddo, ynghyd â chuddio ei wir dargedau. 'Roeddwn i eisiau creu rhyw fath o rith o fyd lle roeddwn i'n gallu dweud beth oeddwn i isio heb gael rhywun yn pwyntio bys,'²⁶¹ meddai'r awdur. Serch hynny, rydym eisoes wedi crybwyll sut y sylwir ar gysylltiad rhwng rhyfel y nofel a Rhyfel y Gwlff, a sylwn fod rhai o diriogaethau dychmygol y gyfrol yn adlewyrchu manau cyfarwydd. Yn ôl John Rowlands, 'Mae gwledydd y gynghair yn hawdd eu nabod: allai'r Winllan Fawr fod yn

²⁵⁸ Brooks, t. 42.

²⁵⁹ Llywelyn, *Seren Wen ar Gefndir Gwyn*, t. 42.

²⁶⁰ Brooks, t. 42.

²⁶¹ Tomos, 'Llên Yfory: Gwyddonias Cymreig', t. 19.

unman ond Ffrainc. Ac onid Llydaw yw'r Winllan Bridd? ... Iwerddon yw'r Hirynys, ac India yw Baratîr.²⁶²

Atgyfnertha nifer o gliwiau cynnil fod yr hyn a ddywed John Rowlands yn ei adolygiad ar y nofel yn gywir. Er enghraifft, mae Gwern yn rhyfeddu wrth dderbyn 'rolyn does a hitha'n sych nes oedd ei chonglau hi'n troi mewn'²⁶³ i frecwast yn y Winllan Fawr, a dibynnir ar wybodaeth y darllenydd i'w adnabod fel croissant. Clywn acenion cymeriadau'r Winllan Bridd, sy'n debyg iawn i'r acen Lydewig, lle newidia Robin Llywelyn yr 'dd' Gymreig yn 'z', fel y gwelwn wrth i Stoti Fragw groesawu ei ymwelwyr. "Bezwch fel cardotwyr gyda mi."²⁶⁴ Ar 'gwch fferi'²⁶⁵ ânt i Hirynys, ac yno mae'r Hirynyswyr yn meddwi ac yn morio canu. Yn ogystal â hynny, 'mae popeth ynglŷn â Gwlad Alltud yn ffasgaid ei naws, a'r enwau'n Almaenig.'²⁶⁶ Fodd bynnag, rhybuddia Bethan Mair Hughes: 'Os yw nofel fel hon i weithio'n effeithiol, rhaid i ddarllenydd fod yn ymwybodol o stereodeipio sy'n bodoli, ei adnabod, a'i ddefnyddio er mwyn gweld rhinweddau'r cymeriadau drwy'r confensiwn fformiwlaig.'²⁶⁷ 'Cymru ddeisyfedig yw Tir Bach,'²⁶⁸ sef y wlad fechan dan rym ymerodraeth ormesol. Mae Llawr Gwlad, cynefin Gwern Esgus, fe ymddengys, mewn sefyllfa debyg. Credwn ei bod hi'n wlad rydd, ond wrth i Pererin Byd grybwyll y peth, chwardda Gwern, "Rhydd i ddilyn yn ôl troed Gwlad Alltud a gneud pob dim mae hi'n ei wneud ar ei hôl. Yn rhydd i gytuno, dyna wyt ti'n feddwl? Rhydd i gytuno ond ddim i anghydweld."²⁶⁹ Dychwelwn at y cysyniad fod yr arallfyd wedi ei ysbrydoli gan lefydd go iawn, wrth i Robin Llywelyn gyfaddef; 'Mae'r tirlun

²⁶² John Rowlands, 'Adolygiad ar Seren Wen ar Gefndir Gwyn' yn *Rhyddid y Nofel* gol. Gerwyn Williams (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1999), t. 299.

²⁶³ Llywelyn, *Seren Wen ar Gefndir Gwyn*, t. 84.

²⁶⁴ Ibid. t. 80.

²⁶⁵ Ibid. t. 85.

²⁶⁶ Rowlands, 'Adolygiad ar Seren Wen ar Gefndir Gwyn', t. 298.

²⁶⁷ Hughes, t. 46.

²⁶⁸ Angharad Price, 'Robin Llywelyn: Cyfarwydd ac Anghyfarwydd' yn *Y Sêr yn Eu Graddau: Golwg ar Ffurafafen y Nofel Gymraeg Ddiweddar* gol. John Rowlands (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2000), t. 207.

²⁶⁹ Llywelyn, *Seren Wen ar Gefndir Gwyn*, t. 69.

yn real. Cefn gwlad Cymru ydi Llawr Gwlad. Wel, ochra Llanfrothen oedd y tirlun wrth ymyl cartra Anwes Bach y Galon.²⁷⁰

Wrth i'r gynghrair ymuno a mynd i ryfel yn erbyn Gwlad Alltud, sylwn fod y Winllan Fawr wedi gwrthod ymuno yn y rhyfel (er iddi gytuno'n wreiddiol) ac nid oes yna'r un sôn am Baratîr. Fodd bynnag, erys y gwledydd 'Celtaidd' (pe dehonglem nhw yn ôl y llefydd 'go iawn' fel yr awgrymodd John Rowlands) yn driw i'w gilydd.²⁷¹ Cynigir gan Alun Jones mai stori am 'Celtia yn erbyn Ewropa'²⁷² yw'r rhyfel yn y nofel hon, tra bo John Rowlands yn cyfeirio at *Seren Wen ar Gefndir Gwyn* fel 'ple dros ddiwylliant lleiafrifol yn erbyn y bwli mawr drws nesaf.'²⁷³ Serch hynny, ar ddiwedd y nofel, mae'r clerc Zählappell yn deffro i glywed cnoc ar y drws, ac yntau wedi gwyllo'r dystiolaeth am yr hen ryfel drwy hap a damwain. Datgela Robin Llywelyn, er mai baner y seren wen ar gefndir gwyn sy'n 'nofio'n ei hunfan ar ei pholyn'²⁷⁴ ar dŵr y castell, '...dydi'r drefn newydd ddim gwell, mewn ffordd, na'r hen drefn. Er mai pobol Tir Bach sy'n rheoli rŵan, dydyn nhw ddim fawr gwell na'r gormeswyr. Mae'r drefn yr un fath ym mhob oes rywsut.'²⁷⁵

Cyn trafod elfennau ffuglen wyddonol *Seren Wen ar Gefndir Gwyn*, cyfeiriaf at ail nofel yr awdur, *O'r Harbwr Gwag i'r Cefnfor Gwyn*, lle y gwelwn isleisiau gwleidyddol tebyg, er nad oes yna ryfel yn y nofel hon. Dywed beirniaid cystadleuaeth y Fedal Ryddiaith, Eisteddfod Genedlaethol Nedd a'r Cyffiniau yn 1994:

²⁷⁰ R. Gerallt Jones, 'R. Gerallt Jones yn holi Robin Llywelyn' yn *Rhyddid y Nofel* gol. Gerwyn Wiliams (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1999), t. 303.

²⁷¹ Llywelyn, *Seren Wen ar Gefndir Gwyn*, t. 110.

²⁷² Jones (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Aberystwyth 1992*, t. 129.

²⁷³ Rowlands, 'Chwarae â Chwedlau: Cip ar y Nofel Gyrmaeg Ôl-fodern', t. 179.

²⁷⁴ Llywelyn, *Seren Wen ar Gefndir Gwyn*, t. 148.

²⁷⁵ Jones, 'R. Gerallt Jones yn holi Robin Llywelyn', t. 304.

Y mae [i'r nofel] ddimensiwn gwleidyddol pendant, er mai trwy ddrych mewn dameg y canfyddir hwnnw: trwy gyfrwng daearyddiaeth wleidyddol y nofel darlunnir y Gymru Gymraeg draddodiadol (a phob cymdeithas draddodiadol debyg, gellir tybio), dan warchae, megis rhai o gymunedau'r hen Iwgoslafia heddiw.²⁷⁶

Dyfarwyd hi'n fuddugol gan R. Geraint Gruffydd, Marion Eames a Gwerfyl Pierce Jones yn y gystadleuaeth lle cynigiwyd 'Cyrraedd' fel thema. Rhydd Robin Llywelyn yr elfen dechnolegol o'r neilltu gyda'r nofel hon, ac mae'r Gogledd Dir, lle y teithia Gregor Marini, prif gymeriad y nofel, iddo i gasglu chwedlau ar ran y Du Traheus, yn adlais o ryw hen oes a fu.

Disgrifir y lle fel a ganlyn gan y Du Traheus: "Mae'r lle'n gyntefig - tydyn nhw'n credu dim byd mewn technoleg. Does yna ddim peiriannau, dim trydan, dim teledu, ac mae'u dillad nhw'n hen-ffasiwn ac yn glytiau drostyn nhw."²⁷⁷ Yn wir, fel y cyfetyb gwledydd ffuglennol *Seren Wen ar Gefndir Gwyn* â llefydd cyfarwydd a real, noda Katie Gramich, 'Mae'r "Gogledd Dir" yn ddarlun dychmygol o Gymru, gwlad y chwedlau, y "gwynfyd", sy'n cael ei droi yn lle i dwristiaid ac yn ddim mwy nag amgueddfa werin fawr.'²⁷⁸ Er ei bod hi'n cyfeirio at wledydd iawn dan guddliw gwledydd arallfydol, nid oes i *O'r Harbwr Gwag i'r Cefnfor Gwyn* yr un elfennau ffuglen wyddonol â *Seren Wen ar Gefndir Gwyn*. Mynna Kate Gramich, 'Nid nofel wyddonias mo hon o gwbl: er nad yw'r gwledydd ynddi ar unrhyw fap, mae'r llefydd yn adnabyddus ac yn agos iawn atom.'²⁷⁹

²⁷⁶ W. J. Jones (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru Nedd a'r Cyffiniau 1994* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1994), t. 103.

²⁷⁷ Robin Llywelyn, *O'r Harbwr Gwag i'r Cefnfor Gwyn* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1994), t. 67.

²⁷⁸ Katie Gramich, 'O'r Seren Wen i'r Cefnfor Gwyn' *Taliesin* 87 (1994), 105.

²⁷⁹ *Ibid.* t. 105.

Dychwelwn, felly, at y nofel gyntaf, *Seren Wen ar Gefndir Gwyn*, ac atgyfnerthu sut yr ydym mor sicr bod rhannau o'r nofel wedi eu hysbrydoli gan lefydd yng Nghymru. Yn wir, er ein bod yn cael ein cyflwyno i fyd ffantasiol hollol ddieithr, mae yna nifer o elfennau cyfarwydd yn perthyn i'r byd hwnnw. Wrth drafod *Seren Wen ar Gefndir Gwyn*, dywed Bethan Mair Hughes yn ei hadolygiad hithau 'bod hanfod hollol Gymraeg i'r nofel, ac mai nofel am Gymro ac am Gymru ydyw rhywsut.'²⁸⁰ Sut, felly, y daeth hi i'r canlyniad hwnnw?

Heb os, ceir nifer o gyfeiriadau (bwriadol ac amwys) tuag at y chwedlau canoloesol ac at ddiwylliant poblogaidd Cymraeg. Esbonia Angharad Price fod 'hysbysyddion' yn bresennol drwy gydol y nofel, syniad a ddeillia o syniadaeth Roland Barthes ynglŷn â darllen ôl-strwythurol, a datgan mai '[c]yfeiriadau daearyddol, amserol, diwylliannol neu lenyddol'²⁸¹ yw'r rheini:

It is only at the level of these conformities and departures that analysis will be able to come back to, but now equipped with a single descriptive tool, the plurality of narratives, to their historical, geographical and cultural diversity.²⁸²

'Data realaidd yw'r rhain,'²⁸³ nodi Angharad Price, wrth sôn am sut y defnyddia Robin Llywelyn adleisiau o chwedlau'r Mabinogi ymysg pethau eraill i apelio at y darllenydd Cymraeg. Fodd bynnag, mae'n ddibynol ar bob darllenydd unigol i ddeall ac i wybod am y fath gyfeiriadau er mwyn deall eu harwyddocâd.

²⁸⁰ Hughes, t. 43.

²⁸¹ Angharad Price, *Llên y Llenor: Robin Llywelyn* (Caernarfon: Gwasg Pantycelyn, 2000), t. 32.

²⁸² Roland Barthes, *Image Music Text* (London: Fontana Press, 1977), t. 81.

²⁸³ Price, *Llên y Llenor: Robin Llywelyn*, t. 32.

Gwelwn fotiffau cyfarwydd o'r chwedlau canoloesol, megis talu pris sarhad (er, mae'n bur debyg mai dyma'r tro cyntaf i gymeriad roi anfoneb am hynny²⁸⁴) a'r arwr yn gorchfygu rhwystrau niferus, fel y gwelwn yn chwedl Culhwch ac Olwen. Rydym hefyd wedi cyfeirio eisoes at adleisiau hanes Llywelyn ein Llyw Olaf a phroffwydoliaeth y Mab Darogan. Cyfeirir hefyd at Tincar Saffrwm yn canu 'Stafell Cynddylan',²⁸⁵ a pha arwyddocâd fu gan un o gerddi enwocaf Canu Heledd yn yr olygfa lle mae'r teithiwr yn ffrio wyau? Yn ogystal â hynny, dyfynna Tincar Saffrwm un o ganeuon Dafydd Iwan, 'mi ddaw dial am hyn o drais, o myn Duw mi a wn y daw',²⁸⁶ fel yr amlygir gan John Rowlands.²⁸⁷ (Fe'i gwelir eto yn naratif y stori fer 'Cartoffl' o'r gyfrol *Y Dŵr Mawr Llwyd*, wrth i Cartoffl Goch fynnu dial ar lorwg y Gynffon.²⁸⁸) Yn *O'r Harbwr Gwag i'r Cefnfor Gwyn*, cyfeirir at hanesion Siôn Eos a Dic Penderyn,²⁸⁹ a chyfeirir hefyd at Llew Llaw Gyffes. Ar ddiwedd y nofel honno, dyfynna Alice, dyweddi Gregor, o soned R. Williams Parry, 'Y Llwynog', wrth ddatgan diwedd eu perthynas. "Digwyddodd; darfu"²⁹⁰ a gall nifer ohonom orffen y llinell enwog; 'megis seren wib.'

Gwelwn hefyd gyfeiriadaeth annisgwyl at Waldo Williams yn *Seren Wen ar Gefndir Gwyn*. Pa le sydd iddo yntau yn yr arallfyd ffantasiol hwn? Dyma'r ail dro i gyfeiriadau at y bardd ymddangos mewn cyd-destun dyfodolaidd, a synnwn i glywed Siffrwd Helyg yn herio Fischermädchen "Be wn i am nabod? Ddim Waldo ydi'n enw i."²⁹¹ Wrth gwrs, cyfeirio at gerdd benodol, 'Adnabod', a wna Siffrwd Helyg, wrth geisio peidio ag ateb cwestiynau'r frenhines ynglŷn â Gwern. Y tro cyntaf i ni weld Waldo yn cael ei grybwyll mewn darn o

²⁸⁴ Llywelyn, *Seren Wen ar Gefndir Gwyn*, t. 53.

²⁸⁵ Ibid. t. 120.

²⁸⁶ Ibid. t. 146.

²⁸⁷ Rowlands, 'Adolygiad ar Seren Wen ar Gefndir Gwyn', t. 299.

²⁸⁸ Robin Llywelyn, 'Cartoffl' yn *Y Dŵr Mawr Llwyd* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1995), t. 11.

²⁸⁹ Llywelyn, *O'r Harbwr Gwag i'r Cefnfor Gwyn*, t. 106.

²⁹⁰ Ibid. t. 163.

²⁹¹ Llywelyn, *Seren Wen ar Gefndir Gwyn*, t. 70.

ryddiaith ddyfodolaidd oedd yn *Pennod yn Hanes Milwr*. ‘Plentyn y Ddaear’ a ddyfynnwyd yn y gyfrol honno, wrth i Gronw gynllunio dyfodol newydd i Gymru a’r gwledydd Celtaidd.²⁹²

‘Daw dydd y bydd mawr y rhai bychain,

Daw dydd ni bydd mwy y rhai mawr.’²⁹³

O safbwynt ôl-drefedigaethol, rhagwelwn ddyfodol lle y gorchfygir y grym mawr. Cyfeirir sawl tro at y dyfyniad uchod gan John Rowlands, a’i hystyria’n ‘serious theme, which is a variation – and possibly an ironic comment – on Waldo’s *Daw dydd y bydd mawr y rhai bychain / Daw dydd ni bydd mwy y rhai mawr*.²⁹⁴ Portreada’r ddwy nofel dro ar fyd yn hanes y ‘rhai bychain’, sef Cymru a’r cenhedloedd Celtaidd, a’r gobaith y byddant eto’n ‘rhai mawr’. Er ei bod hi’n nofel ffantasiol, mae’r nofel yn frith o gyfeiriadau at y diwylliant Cymraeg. Heb os, byddai *Seren Wen ar Gefndir Gwyn* yn nofel y byddai’n anodd, os nad amhosib i’w chyfieithu, oherwydd ei bod hi mor berthnasol – a phersonol – i’r gynulleidfa Gymraeg.

Dywed Robert Rhys yn ei feirniadaeth ar y nofel: ‘Synnwn i ddim pe bai’r gyfrol hon yn gwyrddroi holl ddisgwyliadau darllenwyr Cymraeg ac yn agor pennod newydd arwyddocaol yn hanes ein rhyddiaith ffuglennol.’²⁹⁵ Byddwn wrth fy modd yn gallu dweud bod Robin Llywelyn wedi agor drysau i lenyddiaeth ffantasiol a ffuglen wyddonol yn y Gymraeg. Yn sicr, gwelwyd gweithiau gan lenorion ôl-fodern megis Mihangel Morgan ac Angharad Tomos yn gwneud cryn dipyn o argraff, ac yn cipio prif wobrau’r Eisteddfod Genedlaethol. Yn anffodus, ni welwyd yr un hwb i lenyddiaeth ffuglen wyddonol.

²⁹² Bere, t. 182.

²⁹³ Waldo Williams, *Dail Pren* (pedwerydd arg.; Llandysul: Gwasg Gomer, 1982), t. 68.

²⁹⁴ John Rowlands, ‘The Novel’ yn *A Guide to Welsh Literature c. 1990 – 1996* gol. Dafydd Johnston (Cardiff: Cardiff University Press, 1998), t. 199.

²⁹⁵ Jones (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Aberystwyth 1992*, t. 143.

Serch hynny, cyhoeddwyd *Prosiect Nofa* gan Andras Millward ym mis Tachwedd 1992, yng nghysgod *Seren Wen ar Gefndir Gwyn* yn 1992, fel nofel wedi ei thargedu at bobl ifanc. Dysgwn fod byd yr ail ganrif ar hugain wedi ei feddiannu gan seiborgiaid peryglus, ac er bod cysyniadau Owain Owain yn *Y Dydd Olaf* yn debyg iawn, Andras Millward yw'r unig lenor y cyfeirir ato yn y Gymraeg fel llenor 'cyber-punk.'²⁹⁶ Datblygwyd *cyberpunk* fel rhan o batrwm newydd rhai o lenorion ffuglen wyddonol yr 1980au, pan fu'n rhaid i'r *genre* ffuglen wyddonol ailfeddwl am fotiffau newydd wedi i'r daith ofodaidd ffuglennol chwythu ei phlwc. Aeth nifer ati i ymateb i'r hyn a elwid yn 'genre exhaustion'²⁹⁷ drwy arbrofi gydag elfennau *avant-garde* a radical, gyda'r cysyniad o *cyberpunk* yn cyfuno'r ôl-fodern a'r ffuglen wyddonol. Fe'i gwelwn fel is-*genre* sy'n trafod y cysyniad o fyd gordechnolegol mewn bydoedd dinesig, yn ymdrin â themâu megis arbrofi gyda pheirianeg genynnol a chreu peiriannau dynol, gyda'r byd rhithiol yn cydweddu'n naturiol gyda'r byd "real."²⁹⁸ Yn ogystal â hynny, gwelwn mai cymeriadau israddol, o isfyd y gymdeithas – llanciau gan amlaf - sy'n arwyr (neu'n hytrach yn wrth-arwyr) mewn rhyddiaith o'r fath, gan gryfhau'r cysyniad o *punk*. 'It is very much this unusual and unprecedented clash of high-tech with "low life" that accounts for the particular flavor of cyberpunk, easily recongized but rarely defined.'²⁹⁹

Er nad yw Gareth, prif gymeriad y nofel hon, ddim byd tebyg i haciwr proffesiynol y nofel *cyberpunk* gyntaf, *Neoromancer* gan William Gibson (a gyhoeddwyd yn 1984) sy'n crafu byw ac yn gaeth i gyffuriau, gwelwn ei fod wedi cael magwraeth anodd. Dysgwn nad yw wedi mynd i'r brifysgol, fel ei ffrindiau,³⁰⁰ a'i fod bellach yn gwario'i arian dâl ar gynnal a chadw ei

²⁹⁶ Tomos, 'Llên Yfory: Gwyddonias Cymreig', t. 19.

²⁹⁷ Roberts, *The History of Science Fiction*, t. 231.

²⁹⁸ Stephen Graham, 'Introduction' yn *The Cybercities Reader* gol. Stephen Graham (Llundain: Routledge, 2004), t. 389.

²⁹⁹ Sabine Heuser, *Virtual Geographies: Cyberpunk at the Intersection of the Postmodern and Science Fiction* (Amsterdam: Rodopi, 2003), t. 5.

³⁰⁰ Andras Millward, *Prosiect Nofa* (Talybont: Y Lolfa, 1992), t. 10.

feic modur.³⁰¹ Pe bai hon yn nofel i oedolion, gellid bod wedi gwthio'r cymeriad ymhellach, a'i wneud yn debycach i gymeriad truenus Bob, yn nofel Siôn Eirian, *Bob yn y Ddinas*. Yn y nofel honno, gwelwn Gymro Cymraeg yn 'gorfod cynilo ceiniogau prin y dôl i brynu Woodbines neu ambell beint'³⁰² ac yn ymdrybaeddu ym maw isaf y domen. Er bod yna nifer o ddarllenwyr Cymraeg wedi ffieiddio wrth ddarllen am hanesion Bob, a nofelau dinesig Goronwy Owen a Hefin Wyn fel ei gilydd, mynna John Rowlands eu bod yn 'ymatebion angenrheidiol i'r rhagrith diwylliannol Cymraeg'³⁰³ ac ni synnwn pe bai Andras Millward wedi gwthio cymeriad Gareth i'r un graddau, gallai fod wedi gwneud mwy o argraff gyda *Prosiect Nofa*.

'Cyberspace, cyborgs and cybernetics are a significant part of postmodern culture, and have led to prolific speculation about the emergence of a posthuman body.'³⁰⁴ Heb os, dyma un o brif themâu *Prosiect Nofa*. Cyfarfyddwn â'r 'Dyn' dirgel, sy'n deffro mewn cell, cyn dianc ar frys, yn pendroni pwy – a beth – yn union yw e. Wrth iddo fusnesu yng nghyfrifiaduron y labordai, dysgwn fwy amdano. 'Ef yw Nofa. Ffrwyth ymchwil genetig ac electronig: y cam nesaf ar ysgol esblygiad'³⁰⁵ a'i fod yn fath arbennig o 'uwch-ddyn.' Dihanga Nofa o'i gell ac o'r labordy, wedi iddo ddysgu bod cam nesaf 'Prosiect Nofa' yn Nofa II, sef canolfan arbennig yng Nghaer-grawnt. Yno, yn Nofa II, cedwir gweddill yr 'uwch-ddynion', mewn 'bocsys tebyg i eirch.'³⁰⁶ Darllena Nofa adroddiadau'r gwyddonwyr, a dysgu mai datblygiad

³⁰¹ Ibid. t. 10.

³⁰² Eaves, t. 156.

³⁰³ Rowlands, 'Nofelau Deng Mlynedd', t. 13.

³⁰⁴ Tim Woods, *Beginning Postmodernism* (Manchester and New York: Manchester University Press, 1999), t. 221.

³⁰⁵ Millward, *Prosiect Nofa*, t. 14.

³⁰⁶ Ibid. t. 95.

yr uwch-ddynion yw'r "cynllun biolegol gorau hyd yn hyn", er bod yna nifer o wendidau y mae angen eu datrys o hyd a'u bod yn "ansicr o'i botensial llawn."³⁰⁷

Wrth gwrs, mae yna gryn nifer o bobl yn awyddus i ddal y seiborg peryglus cyn iddo wneud unrhyw niwed iddo'i hun neu i unrhyw un arall. Un ohonynt yw Adam, sydd wedi teithio drwy amser o'r flwyddyn 2235 i geisio atal Nofa a newid cwrs hanes. Drwy hap a damwain, daw Gareth ar ei draws, a chael ei dynnu i mewn i'r antur. Dysgwn fod yr uwch-ddynion wedi bod yn gyfrifol am 'ethnig-lanhau Prydain, gan ddechrau yn y 2010au'³⁰⁸ a bod y drychineb yn arwain at gyflafan fyd-eang. Yn ogystal â hynny, mae colli Nofa wedi bod yn gatalydd i ddechrau'r Ryfel Cartref Prydeinig yn 2013. Edrydd Adam hanes datblygu'r 'uwch-ddynion', ac ni wŷr Gareth a ddylai ei gredu neu beidio:

"Erbyn 2017, roedd y llywodraeth wedi dechrau cael y llaw ucha', a lluoedd y gwrthryfelwyr wedi'u hamgylchynu yng Nghaergrawnt ... O rywle yng Nghaergrawnt, daeth catodau newydd o wrthryfelwyr. Roedden nhw'n ffres, heb fod yn ymladd am dair blynedd fel pawb arall, ond yn fwy na hynny, doedden nhw ddim... ddim yn ddynol."³⁰⁹

Cyhoedda Adam, "Dwi yma i atal datblygiad yr uwch-ddynion, i newid cwrs hanes – fy hanes i a dy ddyfodol di."³¹⁰ Fodd bynnag, nid Adam yw'r unig un sydd wedi teithio trwy amser o'r dyfodol. Mae Marc a Kathy – a gyflwynir fel "uchafbwynt Prosiect Nofa"³¹¹ - yn ymddangos er mwyn cynorthwyo Nofa, a'i arwain er mwyn sicrhau ei fod yn rhyddhau'r uwch-ddynion yn Nofa II cyn iddynt ddatblygu'n llawn. Fel y datgela Kathy, "Y peth pwysig yw mai fe sy'n

³⁰⁷ Ibid. t. 96.

³⁰⁸ Dafydd Price Jones, 'Ar Blaned Arall...' *Golwg*, 10 Rhagfyr 1992, t. 19.

³⁰⁹ Millward, *Prosiect Nofa*, t. 24.

³¹⁰ Ibid. t. 26.

³¹¹ Ibid. t. 59.

gyfrifol am y ddamwain a arweiniodd at y gwall ynon ni, y gwall a roddodd feddwl

annibynnol i ni ... cyn i'r llywodraeth allu ein rheoli ni'n iawn."³¹²

Keith Andrews sy'n gyfrifol am ddilyn trywydd Nofa ar ran y gwasanaethau cudd, a cheisio atal cyfrinach fwyaf y llywodraeth Brydeinig rhag dinistrio pob rhwystr a ddaw ar ei draws.

Fodd bynnag, ni all gystadlu gyda theclynau dyfodolaidd Adam. Mae bwledi arbennig Adam

yn treiddio trwy 'siaced wrth-fwledi' Andrews, a hwnnw'n methu credu'r peth.³¹³ Ni all

labordai'r gwasanaethau cudd hyd yn oed adnabod pa fetel yw bwledi'r Smith & Wesson

Gauss .22 a ddefnyddia'r dyn o'r dyfodol.³¹⁴ Yn ogystal â bod yn berchen ar well arfau, mae

gan Adam hefyd well siaced amddiffynnol. 'Edrychai i Gareth fel crys llwyd tywyll, a

sgleinia'i'n fetalaidd.'³¹⁵ Esbonia Adam ei fod yn "[g]ymysgedd o fetelau amrywiol a

chemegolion eraill; mae'n cynhyrchu maes magnetig cryf i wrthdroi bron pob metel arall."³¹⁶

Pwysleisia hefyd fywyd peryglus yr ail ganrif ar hugain, gan ychwanegu; "A ninnau'n ymladd

bob dydd, mae gwisgo un o'r rhain yn ail natur i ni."³¹⁷

Yn ystod y nofel, mae Adam yn cymryd y cyffur Combat 337, a hynny'n ymddangos yn beth

hollol naturiol. Gwelwn fod Combat 337 yn "helpu i gynhyrchu mwy o adrenalin, llacio a

chyflymu'r cyhyrau, clirio'r meddwl."³¹⁸ Wrth gwrs, ym myd y *cyberpunk*, cyfeirir yn aml at y

ffaith bod y cysyniad o gymryd cyffuriau yn norm. Nid yw'n norm i Gareth, wrth gwrs, a

hynny, o bosib, oherwydd mai nofel yw hi sydd wedi cael ei hysgrifennu ar gyfer pobl ifanc,

fodd bynnag, cedwir Nofa'n ddof drwy ddefnyddio cyffuriau (colli ei ddogyn dyddiol sy'n ei

³¹² Ibid. t. 90.

³¹³ Ibid. t. 44.

³¹⁴ Ibid. t. 53.

³¹⁵ Ibid. t. 87.

³¹⁶ Ibid. t. 87.

³¹⁷ Ibid. t. 88.

³¹⁸ Ibid. t. 71.

achosi i ddeffro a dianc) ac rydym eisoes wedi crybwyll eu gallu i gryfhau a rhoi egni newydd i Adam.

Er bod Adam yn cael ei ladd mewn ffrwgwd gyda Nofa, llwydda Andrews i atal ‘Y Ddamwain’ sy’n gyfrifol am ddeffro uwch-ddynion Nofa II. Fodd bynnag, megis dechrau mae stori Gareth. Er ei fod wedi gobeithio, wrth ymuno gydag Adam ar ei daith, ei fod yn ‘mentro’n hyderus i ddyfodol newydd – iddo ef, ac efallai i’r wlad gyfan,³¹⁹ dyfalwn nad effaith gadarnhanol fu’r profiad arswydus iddo, a brawddeg glo’r nofel hon yw, ‘Fyddai Gareth ddim yn iawn byth eto.’³²⁰ Yn ogystal â hynny, ni welwn a fu’r digwyddiad yn ddigon i newid trywydd hanes am byth, ac ni welwn chwaith pa fath o le yw 2135 heb yr uwch-ddynion.

Wrth gwrs, a hithau’n nofel i bobl ifanc, cyffwrdd yn unig â themâu dwys ymyrraeth fiolegol a pherygl technoleg a wna Andras Millward gyda *Prosiect Nofa*. Yn wir, wrth fwrw cipolwg yn ôl ar y traddodiad ffuglen wyddonol, mae modd gweld mai ymysg llenyddiaeth i blant mae motiffau’r *genre* yn ffynnu – gyda nifer o deithiau gofodaidd ac arallfydwyr yn britho llyfrau lluniau i blant a nofelau i bobl ifanc – fodd bynnag, ymddengys fod oedolion yn dal i fod yn gyndyn o agor eu dychymyg a darllen am bosibiliadau yn y nofel ddyfodolaidd. Yn wir, mae Andras Millward yn parhau i ysgrifennu nofelau antur i bobl ifanc yn Gymraeg, ac er y cyfeirir mewn cyfweiliad at ail nofel ffuglen wyddonol y bu’n ei hysgrifennu, sy’n ‘edrych ymlaen 15 mlynedd lle mae 50 corfforaeth yn berchen ar bopeth yn y byd,’³²¹ ni chyhoeddwyd y nofel, hyd y gwn i. Gadawyd i Arwel Vittle, yn nes ymlaen yn 2000, gyfleu’r byd hwnnw yn *Talu’r Pris*.

³¹⁹ Ibid. t. 62.

³²⁰ Ibid. t. 104.

³²¹ Tomos, ‘Llên Yfory: Gwyddonias Cymreig’, t. 19.

Yn 1993, awdur ôl-fodern, Mihangel Morgan, a gipiodd y Fedal Ryddiaith, gyda'i nofel gyntaf *Dirgel Ddyn*, serch hynny, un o'i straeon byrion, a gyhoeddwyd yn y gyfrol *Saith Pechod Marwol* sy'n denu ein sylw ni. 'Pwy Fyth a Fyddai'n Fetel?' yw'r gyntaf o saith stori sy'n cynrychioli pob un o'r saith pechod. 'Godineb' yw pechod 'Pwy Fyth a Fyddai'n Fetel?' ac chyfarfyddwn â Non a'i robot personol, Keflusker X. Dysgwn mai 'hen beiriant' ail law ydyw,³²² sy'n awgrymu ein bod mewn dyfodol lle mae robotiaid yn bethau digon cyfarwydd. Gwelwn fod yna gryn dipyn o ddadlau wedi bod ynglŷn â dewis y peiriant arbennig hwn, wrth i Non ddatgelu: 'Roedd Andy, ei chariad, wedi'i chynghori i beidio â chael un Llydewig, ond dywedasai Jac ei gŵr fod Keflusker X yn fath da, dibynadwy, a heb fod yn ddrud.'³²³ Daw'r 'godineb' felly'n amlwg.

Gwelwn gipolwg ar fy dystopaid, tu hwnt i ystafell wely moethus Non, wrth i'r newyddion cenedlaethol a lleol ddatgelu bod gan yr awdurdodau'r hawl i ladd. Trafodir 'dulliau newydd o ddelio â'r henoed', sef 'saethu'r rhai heb bensynau a'r digartref,'³²⁴ a sonnir am derfysgoedd yn Abertawe. Ymddengys nad yw'n beth anghyffredin, wrth i Non gwyno, 'Yr un hen beth o hyd ac o hyd.'³²⁵ Wrth gwrs, ym myd bach clyd Non, dibynna ar y peiriant ar gyfer gwneud pob dim, ac er ei bod wedi ei chyfareddu gan y rhaglen grefyddol ar y teledu, ymddengys nad yw hi ei hun yn gwrando ar nac yn dilyn y moesau crefyddol a drafodir. Heb os, nid yw Non yn arddangos unrhyw arwydd o euogrwydd ynglŷn â'i haffêr gydag Andy. Yn ei adolygiad ar y gyfrol, sonia Dafydd Arthur Jones, 'Gwraig wedi'i "rhaglennu" yw Non, un caeth i'w chwant ac y mae tro sydyn ar ddiwedd y stori yn goglais dyn i feddwl rhagor

³²² Mihangel Morgan, 'Pwy Fyth a Fyddai'n Fetel?' yn *Saith Pechod Marwol* (Talybont: Y Lolfa, 1993), t. 10.

³²³ Ibid. t. 10.

³²⁴ Ibid. t. 11.

³²⁵ Ibid. t. 11.

uwchben bwriad yr awdur.³²⁶ Ystyriwn hefyd, felly, ddatganiad Adam Roberts, ‘...the robot is that place in SF text where technological and human are most directly blended.’³²⁷ Wrth edrych yn fanylach, sylwn ein bod yn cydymdeimlo mwy gyda Keflusker X, sy’n cael ei drin fel gwas bach gan feistres ddiddiolch. A beth am ddiffyg teimladau Non? Adlewyrchir hyn ar ei orau wrth iddi ebychu, ‘Andy, rydw i wedi cael sioc!’, wrth siarad gyda’i chariad ar y ffôn, ond yn hytrach na’r sioc emosiynol a ddisgwylir yn y fath sefyllfa, cywira’r wraig ddiffyg consyrn ei chariad drwy ddatgan, ‘Sioc drydan lythrennol rydw i’n feddwl.’³²⁸

Ar yr olwg gyntaf, ymddengys fod y robot wedi datblygu ei deimladau a’i emosiynau ei hun, fodd bynnag, yn groes i’r hyn y byddech yn ei ddisgwyl o’r stori ffuglen wyddonol arferol, mae yna rywun yn rheoli Keflusker X. Drwy gydol y stori, mae Mihangel Morgan yn herio disgwyliadau’r darllenydd, drwy sylwadau amlwg y cymeriadau a chyfeiriadau uniongyrchol at y testun ac at gonfensiynau’r *genre* ffuglen wyddonol. “Dim ond mewn storïau a ffilmiau gwyddonias y mae peiriannau’n dod yn fyw ac yn meddwl drostyn nhw eu hunain,”³²⁹ medd Andy wrth i Non gwyno am y peiriant. Awgrymir ar ddiwedd y stori mai Jac sydd wrth wraidd ymddygiad rhyfedd Keflusker X. Hola Non, “Jac? Jac! Ti sydd yn gwneud hyn i gyd?”³³⁰ - a’r diwedd glo cynnil hwnnw sy’n eich synnu. Rydym yn disgwyl i’r robot fynd i ymosod ar y ddynoliaeth gyfan, gan ei ystyried fel gelyn, fodd bynnag, Jac sy’n ei reoli er mwyn dial ar ei wraig odinebus, ac ni “all yr un peiriant wneud dim oni bai’i fod wedi’i raglennu i’w wneud.”³³¹

³²⁶ Dafydd Arthur Jones, ‘Y Newydd a’r Cyfarwydd’ *Barn*, 373 (1994), 31.

³²⁷ Roberts, *Science Fiction*, t. 161.

³²⁸ Morgan, ‘Pwy Fyth a Fyddai’n Fetel?’, t. 15.

³²⁹ *Ibid.* t. 15.

³³⁰ *Ibid.* t. 21.

³³¹ *Ibid.* t. 15.

Yn ddiweddarch, yn 1996, cyhoeddwyd stori fer ddyfodolaidd gan Aled Islwyn yng nghylchgrawn *Taliesin*, 'Mae Mot Ymhlith y Cadwedig', ac ymddengys fod y stori fer yn gyfrwng da i allu bwrw cipolwg i'r dyfodol, heb i ddarllenydd syrffedu ar ddelweddau ystrydebol. Dychwelwn at y gyflafan apocalyptaidd, dros ddegawd wedi inni ei gweld diwethaf yn ein llenyddiaeth ddyfodolaidd. Yn y stori hon, mae Ceri, myfyriwr hŷn sy'n gweithio wrth ei draethawd ymchwil gyda'r nos, yn synnu gweld neges frys yn ymddangos ar sgrin ei gyfrifiadur. 'DIM OND Y RHAI A WÊL Y NEGES HON AC A ALL EI DARLLEN A FYDD YN GOROESI.'³³² I ddechrau, cred Ceri mai jôc ydyw, firws o fath 'i ddrysu holl drefnusrwydd deallusol gweithwyr y shift nos.'³³³ Serch hynny, mae'r ffrwydradau a glyw y tu allan i'r ffenest yn ei argyhoeddi bod y byd ar fin newid am byth.

'OS YDYCH YN DARLLEN Y NEGES HON, Y MAE LLE WEDI EI SICRHAU AR EICH CYFER YN Y DYFODOL NEWYDD.'³³⁴ Er y lleddir teulu Ceri, a hwythau yn ei gwllâu, yn ystod y drychineb, synna glywed Mot y ci yn cyfarth. Meddylia'n wreiddiol fod yr anifail wedi llwyddo i ddarllen y neges ar y sgrin,³³⁵ cyn sylweddoli maes o law fod gwartheg yn dal i frefu yn y cae drws nesaf i'w gartref.³³⁶ Sylweddola Ceri gyfrinach goroesiad y byd sydd ohoni; 'Peidio â bod yn fod dynol. Dyna'r tric. Mater o rywogaeth. Mater o lwc.'³³⁷

Ni ddatgelir pwy yw'r 'goresgynwyr' dirgel, dim ond awgrymu pa fath o ddinasyddion sydd wedi eu dethol i fod ymhlith y cadwedig. Pa fath o bobl sy'n syllu ar sgriniau eu cyfrifiaduron gyda'r nos? 'Ambell fyfyriwr prin (fel yntau) yn gymysg â'r pornograffwyr tylluanol. Neb o

³³² Aled Islwyn, 'Mae Mot Ymhlith y Cadwedig' *Taliesin*, 94 (1996), 36.

³³³ *Ibid.* t. 36.

³³⁴ *Ibid.* t. 37.

³³⁵ *Ibid.* t. 38.

³³⁶ *Ibid.* t. 39.

³³⁷ *Ibid.* t. 39.

bwys.³³⁸ Cyfeiria'r teitl yn uniongyrchol at Mot y ci, yr un a ddisgrifir gan Ceri fel 'Da was. Da ffyddlon.'³³⁹ Gan gyfeirio eto at Ceri'n datgan mai 'peidio â bod yn ddynol' a achubodd Mot, sylwn ei fod bron yr un mor ddiemosiwn â Non o 'Pwy Fyth a Fyddai'n Fetel?' ' Synna Ceri at ei allu ei hun i 'ymresymu mor rhwydd'³⁴⁰ o dan yr amgylchiadau. Er ei fod yn claddu cyrff ei wraig a'i blant, mae'r brawddegau byrion, moel yn ei gwneud hi'n anodd cydymdeimlo gyda Ceri wrth iddo alaru.

Adleisia teitl y stori adnod Feiblaidd, y drydedd adnod ar ddeg o ddegfed llyfr y Rhufeiniaid, yn y Testament Newydd, 'Canys pwy bynnag a alwo ar enw yr Arglwydd, cadwedig fydd.' Ymddengys yn y byd seciwlar sydd ohoni, mai'r cyfrifiadur a'r dechnoleg newydd sy'n Dduw a ddewisa'r rhai sy'n gadwedig. Wrth gwrs, yng Nghymru a gorllewin y byd, mae'r neges yn ymddangos yng nghanol y nos, fodd bynnag, dysgwn i'r neges ledu'n fyd-eang, wrth i Ceri glywed bod y mwyafrif y bobl a oroesodd yn byw yn hemisffer y de. Gwelwn newid byd aruthrol felly, wrth i Ceri sylweddoli, 'Byddai bellach fwy o bobl ddu eu croen na gwyn eu croen yn y byd.'³⁴¹ Am y tro cyntaf, mae'r grym gwyn, gormesol yn lleiafrif, a gwehilion o bobl sy'n weddill ym Mhrydain, yn ôl yr hyn yr ydym wedi ei grybwyll eisoes. Nid yw'r dinasyddion hynny fawr gwell nag anifeiliaid, a'r cwestiwn naturiol nesaf yw gofyn pa le sydd i'r Gymraeg yn y byd ôl-apocalyptaidd hwn?

Er i ni gael cipolwg ar y gyflafan, dychwelwn at y foeswers robotaidd erbyn 1998. Yn ystod y 1990au yn gyffredinol, ac yn dilyn ymddangosiad *Seren Wen ar Gefndir Gwyn*, ysgogwyd trafodaethau niferus ynglŷn â swyddogaeth llenyddiaeth Gymraeg, a sut i blesio'r farchnad. Cyhoeddwyd nifer o erthyglau yn dadlau yn erbyn ac o blaid ysgrifennu llyfrau 'poblogaidd',

³³⁸ Ibid. t. 38-9.

³³⁹ Ibid. t. 38.

³⁴⁰ Ibid. t. 39.

³⁴¹ Ibid. t. 39.

serch hynny, noda nifer mai 'gwrthun, yn wir, yw'r syniad y dylid – ac y gellid – cyfaddawdu yn y fath fodd gyda llenyddiaeth.'³⁴² Gwelwn rwyg enfawr ymysg llenorion, wrth i rai fynnu bod creu cynnyrch 'symlach' yn niweidiol i'n traddodiad llenyddol anrhydeddus.

Un o brif gefnogwyr yr ysgrifennu 'ysgafn' oedd Eirug Wyn, llenor a ddisgrifiwyd 'yn bresenoldeb diosgoi yn hanes ffuglen Gymraeg y 1990au.'³⁴³ Roedd yn awdur toreithiog a gyhoeddodd bron â bod yn flynyddol o 1996 tan ei farwolaeth yn 2004. Fel gwerthwr llyfrau, roedd yn ymwybodol iawn o dueddiadau darllenwyr Cymraeg, ac aeth ati'n fwriadol i lunio nofelau addas, gan wfftio tueddiadau elitaidd ac ysgolheigaidd. Serch hynny, enillodd Wobr Goffa Daniel Owen a'r Fedal Ryddiaith ddwywaith. Cipiodd y fedal yn 1998, lle gofynnwyd am gyfrol 'â chefnidir diwydiannol', ac yn hytrach na dilyn trywydd traddodiadol a thrafod y chwareli a'r pyllau glo, mentrodd 'i fyd y diwydiannau newydd, diweddar, sef y rhai electronig.'³⁴⁴ Er bod *Blodyn Tatws* yn frith o fotiffau a chysyniadau sy'n greiddiol i'r *genre* ffuglen wyddonol, fe'i disgrifiwyd yn 'wrth-ffuglen wyddonol' gan un o'r beirniaid, Harri Pritchard Jones.³⁴⁵ Ailwampiad o chwedl wreiddiol Blodeuwedd yw'r nofel, wedi ei lleoli yn y flwyddyn 2049. Mae Wang-Ho Saunders-Greenham, perchennog 'Wing-Ha Weng-Hi Wang-Ho Electronic Co.' yn sylweddoli fod 'yna rywbeth mawr ar goll yn ei fywyd.'³⁴⁶ Nid oes ganddo'r un ffrind, a phoena nad oes ganddo etifedd. Yn sgil hynny, o dan ddylanwad cyfrwys cyfrifiadur hollbwerus y cwmni, NESTA, penderfyna Wang-Ho adeiladu 'NESTA fach symudol'³⁴⁷ – merch robotig sy'n seiliedig ar y cyfrifiadur hollbwerus a adeiladwyd gan ei dad-cu. Fel ei dad a'i dad-cu o'i flaen, mae Wang-Ho'n beiriannydd dawnus, sy'n llwyddo i

³⁴² Price, *Rhwng Gwyn a Du*, t. 18.

³⁴³ Gerwyn Williams, 'Gwibdeithiau Blynyddol Eirug Wyn' *Taliesin*, 127 (2006), 16.

³⁴⁴ W. J. Jones (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Bro Ogwr 1998* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1998), t. 83.

³⁴⁵ *Ibid.* t. 85.

³⁴⁶ Eirug Wyn, *Blodyn Tatws* (Talybont: Y Lolfa, 1998), t. 19.

³⁴⁷ *Ibid.* t. 44.

ddyfeisio peiriannau megis 'y *cyber-pet* cyntaf erioed i gynganeddu, sef KWRWPGLO'³⁴⁸ ac nid yw creu'r ferch berffaith yn fawr o her.

Awgryma J. Hopkin Jones wrth drafod y Mabinogi yng nghyd-destun y chwedlau fel prawf o deithwyr rhyng-blanedol hynafol mai 'rhyw robot neu'i gilydd a greodd Gwydion' oedd Blodeuwedd.³⁴⁹ Wrth ystyried hynny, nid oes rhyfedd fod chwedl Blodeuwedd, a hithau'n bur debyg i'r greadigaeth Frankenstein-aidd sy'n britho'r *genre* ffuglen wyddonol, yn ei benthg ei hun yn naturiol at addasiad o'r fath. Mae'r wraig o flodau yn trosi'n dda fel gwraig o ficro djips, ac mae ystyried goblygiadau creu robot yn codi cwestiynau moesol tebyg i broblemau'r chwedl wreiddiol. A ddylai dyn (boed ddewin neu wyddonydd) ymyrryd gyda natur?

Un o brif fotiffau'r stori am robotiaid, fel y noda Adam Roberts, yw'r gynrychiolaeth 'men-machines as Frankenstein's Monster-style threats.'³⁵⁰ Heb os, dyna a welwn yn y nofel hon, wrth i NESTA, wedi i dad Wang-Ho roi'r gallu i ymresymu i NESTA,³⁵¹ herio'r drefn a holi cwestiynau. Synna Wang-Ho, 'Doedd NESTA erioed wedi gofyn cwestiwn iddo o'r blaen.'³⁵² 'Creu merch hardd, ddeallus a fyddai'n gwmpeini bythol iddo,'³⁵³ yw dyhead diniwed Wang-Ho, serch hynny, mae gan y cyfrifiadur sy'n ymwybodol o bob 'fformiwlâ gemegol, biolegol, mathemategol, ffisegol a gwyddonol oedd ar gael'³⁵⁴ syniadau eraill. Mae ganddi ei meddwl ei hun, yn wahanol i Keflusker X yn 'Pwy Fyth a Fyddai'n Fetel?', ac mae hi'n troi'n erbyn ei chreawdwr, ac yn datgan ei bod hi a Blodyn Tatws yn fwy na ddigon cymwys i redeg y cwmni heb ei help. Eu bwriad, maes o law, yw creu 'cannoedd ar filoedd o blant' robotig i Blodyn

³⁴⁸ Ibid. t. 15.

³⁴⁹ J. Hopkin Jones, 'Llong Ofod Lleu' *Barn* 200 (1979), 117.

³⁵⁰ Roberts, *Science Fiction*, t. 158.

³⁵¹ Wyn, t. 72.

³⁵² Ibid. t. 45.

³⁵³ Ibid. t. 44.

³⁵⁴ Ibid. t. 9.

Tatws gyda'r groth ddynol a fewnblanwyd ynddi.³⁵⁵ Wrth gwrs, yn wahanol i chwedl

Blodeuwedd, 'ddaw yna'r un dewin i droi'r ferch a wnaed o djips yn dylluan.'³⁵⁶

Ffraethineb a choegni Eirug Wyn a ddenodd sylw'r beirniaid gyda'r nofel hon. Rhyfeddai Ray Evans, Hafina Clwyd a Harri Pritchard Jones at hiwmor slei'r llenor, wrth i Hafina Clwyd ddatgan fel y 'syrthiodd fy nghalon i'm slipars pan sylweddolais ein bod ym myd ffuglen wyddonol, ffantasiol, oherwydd dda gen i mo'r cyfrwng arbennig hwnnw.'³⁵⁷ Gwelwn y doniolwch hwnnw ar ei orau wrth ddisgrifio rhai o nodweddion unigryw 2049. Ynghyd â'r weleffon a 'chlo llais a llaw' DB50 Wang-Ho,³⁵⁸ pwysleisir bod pobl yn byw yn hirach yn y mileniwm newydd, a bod Dafydd Iwan yn dal yn fyw ac yn dal i ganu yn 2049.³⁵⁹ Euros yw'r arian a ddefnyddir yn y Gymru Fydd hon, ac mae'r Llywodraeth Genedlaethol wedi ei lleoli ym Machynlleth.

Fel yr ydym eisoes wedi crybwyll yng nghyd-destun *Y Dydd Olaf*, gwelwn agweddau gwrthgyferbyniol y genhedlaeth hŷn ac iau tuag at dechnoleg. Dangosir hyn drwy ymateb Wang-Ho a'i nain, Cedora Hughes, at ddymchwel cwt sinc y busnes. Er bod yna ffatri newydd sbon gan Wing-Ha Weng-Hi Wang-Ho Electronics Co., maent yn dal i drysori'r cwt bychan. Yn dilyn gorchymyn gan y cynghorwyr lleol, mae Wang-Ho yn ystyried ildio a dymchwel y cwt. Wrth ddadlau gyda Cedora, mynna, "Fe fydd yn rhatach i'w hailadeiladu." Serch hynny, dwrdia Cedora, "Paid ti â bod mor ddibris o'th orffennol!"³⁶⁰ Yn ogystal â hynny, dadleua'r nain a'i hŷyr am ddylanwad NESTA:

³⁵⁵ Ibid. t. 190.

³⁵⁶ Ibid. t. 188.

³⁵⁷ Jones (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Bro Ogwr 1998*, t. 78.

³⁵⁸ Wyn, t. 107.

³⁵⁹ Ibid. t. 168.

³⁶⁰ Ibid. t. 48.

“Mae NESTA’n rheoli gormod ar dy fywyd di. Roedd hi’n rheoli gormod ar ein bywydau ni i gyd.”

“Dim ond compiwtar ydy hi!”

“Grymoedd natur a’i creodd hithau, paid ti byth â diystyru grymoedd natur. A bydd yn ofalus o’i gallu hi. Fe roddodd Weng-Hi y gallu i ymresymu yn ei chof hi cyn iddo farw.”³⁶¹

Mae’r llanc ifanc wedi ei fagu ymysg y cyfrifiaduron, ac maent, fel i nifer ohonom erbyn heddiw, yn ffactor cyffredin yn ei fywyd. Serch hynny, mae Cedora yn cofio oes pan nad oedd yna gyfrifiaduron yn bod, ac oes pan oedd pobl yn ddrwgdybus o’r dechnoleg newydd, beryglus.

Wrth adolygu’r nofel hon, mae Aled Islwyn yn llygad ei le wrth ddatgan, ‘tynnu coes ar draul y dyfodol tra’n codi’i het i gyfeiriad y ‘glendid a fu’³⁶² yw amcan y llenor gyda’r nofel. Fe’i gelwir yn ‘barodi’ gan Gerwyn Williams.³⁶³ Er bod *Y Trydydd Posibilrwydd* gan Mari Williams hefyd yn hiraethu am ffordd draddodiadol o fyw, mae ei defnydd o fotiffau ffuglen wyddonol yn cael ei gyflwyno mewn modd difrifol a hynny mewn ymgais i’w gwneud yn rhan o fyd real y nofel, nid fel techneg i ddychanu fel y gwelwn yn *Blodyn Tatws*.

Yn ystod yr un cyfnod, sylwn ar un llenor prysur a hepgorwyd o nifer o astudiaethau academaidd sy’n defnyddio lleoliad amserol y dyfodol i fychanu ac i ddychanu agweddau o’i bresennol, fel y gwnaeth Eirug Wyn. Cyhoeddodd Marcel Williams sawl nofel yn ystod y 1990au, gan ddechrau gyda *Diawl y Wenallt* yn 1990, a theithia i’r dyfodol ddwywaith yn

³⁶¹ Ibid. t. 72.

³⁶² Aled Islwyn, ‘Samuel’ *Barn*, 428 (1998), 48.

³⁶³ Williams, ‘Gwibdeithiau Blynyddol Eirug Wyn’, t. 26.

ystod y degawd hwnnw, yn *Gwalia ar Garlam a Senedd a Satan*. Dyfalaf na chynhwysid ei waith yn astudiaeth Angharad Price o lenyddiaeth y 1990au am nad oedd, o reidrwydd, yn cyd-fynd gyda'r duedd ôl-fodern a oedd mor boblogaidd ar y pryd. Serch hynny, nid oes syndod iddo dderbyn cefnogaeth awdur *Blodyn Tatws*, a alwodd ei nofelau cynnar yn 'chwa o awyr iach i lenyddiaeth Gymraeg.'³⁶⁴

Disgrifiwyd ei nofelau gan wasg Y Lolfa fel rhai cyfoes a deifiol wrth eu marchnata, ac yn wir, aeth Marcel Williams ati'n frwd i wyrdroi ac ecsploetio nifer o ddelweddau Cymreig eiconig, megis y Welsh Not, y gymuned grefyddol, draddodiadol, a'r Eisteddfod Genedlaethol, at ei ddibenion ei hun, a rhoi sawl cic i'r sefydliadau hynny wrth wneud. Mae ei nofel ddyfodolaidd gyntaf, *Gwalia ar Garlam* yn portreadu Cymru Rydd wedi ei rheoli gan lywodraeth fenywaidd. Catrin Penri yw ein Prif Weinidoges gyntaf, ac mae ei senedd hi wedi ei lleoli yn Aberystwyth. Yn yr un byd, gwelwn Loegr a'r Saeson fel '[c]enedl gwbl golledig yn ngolwg holl wledydd Ewrob,'³⁶⁵ a sylwn nad yw hynny wrth fodd nifer o gymeriadau Seisnig y nofel.

Un o nodweddion hynotaf y nofel hon yw gweld y Tywysog Charles – sydd bellach yn frenin ar Brydain – yn siarad Cymraeg. Yn y dyfodol lled-agos hwn, cyflwynna 'Brenin Charles y Trydydd' anerchiad o flaen y Senedd Gymreig, lle dyfynna eiriau cân enwog Dafydd Iwan, 'Carlo,'³⁶⁶ cyn mynd ati i fychanu'r "crachach" Seisnig. Â'r Prif Weinidog mor bell â honni ei fod "ar y slei yn frwdfrydig dros yr iaith,"³⁶⁷ a synnwn, wedi ymateb chwynr beirdd a llenorion i arwisgiad y Tywysog Charles yn 1969, glywed y Prif Weinidog yn achub cam y

³⁶⁴ Dienw, 'Oscars yr Inc : Dyfalu "Llyfr Y Flwyddyn" Golwg 8 Ebrill 1993, t. 18.

³⁶⁵ Marcel Williams, *Gwalia ar Garlam* (Talybont: Y Lolfa, 1991), t. 81.

³⁶⁶ Ibid. t. 28.

³⁶⁷ Ibid. t. 13.

brenin ac yn mynnu, “Rwy’n ymhyfrydu yn y ffaith ei fod yn ffrind i Gymru. Mae’n meddwl fel ffrind. Mae’n siarad fel ffrind.”³⁶⁸

Serch hynny, dilyn llysgennad cyntaf Lloegr yng Nghymru, Syr Oliver Singleton-Jones, a wnawn yn y nofel hon. Ymfrostia yn ei gefndir breintiedig, ac yntau’n gyn-ddisgybl o Eton, cyn-fyfyriwr o Rydychen ac un o’r Coldstream Guards.³⁶⁹ O’r cychwyn cyntaf, gwelwn ddirmyg amlwg tuag at y Cymry gan y Sais hwn, wrth iddo ddatgan mai dim ond un da a ddaeth o’r wlad, ‘sef iddi esgor ar y bardd Dylan Thomas.³⁷⁰ Daw hyn yn rhannol o anwybodaeth yr hanner Sais a gefnodd ar ei wreiddiau Cymraeg a chofleidio diwylliant ‘llawer mwy gwareiddiedig.’³⁷¹

Er i Catrin Penri fynegi nad yw’n hapus gweld Auberon Quayle yn derbyn ei swydd newydd fel Ysgrifennydd Tramor yng Nghabinet Lloegr, nid yw’r Prif Weinidog yn gwranddo, felly mae Mudiad Merched y Wawr – gan fod eu harweinydd hefyd yn gweithio yn swyddfa Catrin Penri – yn penderfynu herwgipio’r llysgennad, gan geisio’i annog i ddylanwadu ar yr Ysgrifennydd i ymddiswyddo. Roedd ei ‘dynged yn llwyr yn nwylo criw o fenywod Celtaidd, penwan,’³⁷² yn nhyb Syr Oliver. Serch hynny, yr un menywod sy’n bwrw ati i atal y fyddin Seisnig rhag ymarfer ar Fynydd Preseli. “Nod a phwrpas yr ymarfer fydd cipio Siambr Neolithig Pentre Ifan.”³⁷³ Tra bo y Saeson yn gaeth i’w delwedd ystrydebol, mae Marcel Williams yn rhoi gwedd newydd i un o’n mudiadau Cymraeg enwocaf. Maent yn llawer mwy na mudiad o wragedd sy’n ymgasglu i rannu cacennau cartref a sgwrsio yn *Gwalia ar Garlam*. Nhw sy’n rhuthro i faes y gad, fel Gwenllïan a Buddug gynt, a threchu’r milwyr. Gan

³⁶⁸ Williams, *Gwalia ar Garlam*, t. 30.

³⁶⁹ Ibid. t. 5.

³⁷⁰ Ibid. t. 10.

³⁷¹ Ibid. t. 5.

³⁷² Ibid. t. 66.

³⁷³ Ibid. t. 80.

fod Llysgennad Lloegr mewn dalfa gudd yng nghefn gwlad Cymru, ar “yr union adeg y dylai hwnnw fod yn brysur yn atgyweirio’r berthynas rhwng Lloegr a Chymru,”³⁷⁴ mae’r Prif Weinidog dros y ffin yn ildio i ofynion Senedd Cymru.

Heb os, y merched sy’n teyrnasu yn y nofel hon, a gwelwn berthynas agos rhwng rhyw a grym yn dod i’r amlwg. Defnyddia’r merched sy’n herwgipio Syr Oliver eu rhywioldeb benywaidd fel arf. Huda Megan Maredudd y llysgennad i ddod gyda hi i ystafell dywyll, ac wrth iddo brotestio yn ei gell, mynna aelod arall o Ferched y Wawr, Delyth, y bydd pawb yn credu stori’r merched yn hytrach na’i stori ef. “Mae pump o enethod hardda Aberystwyth yn barod i dystio fod y stori’n wir,”³⁷⁵ gan awgrymu bod pawb yn fwy tebygol o gredu eu stori hwythau yn hytrach na’r llysgennad, yn bennaf am eu bod yn ferched deniadol.

Ffieiddia Syr Oliver; “Feddyliais i erioed y byddai dynes yn medru cyflawni’r fath weithred.”³⁷⁶ Serch hynny, gwelwn yr olygfa lle manteisia Besi Prysor yn llwyr ar ei charcharor fel cosb haeddiannol, wedi i ni ddarllen am agwedd Syr Oliver tuag at fenywod. Dysgwn am ferch ifanc sy’n ysgrifennu traethawd ymchwil ar ‘ddylanwad rhyw ar ddiplomyddiaeth Lloegr,’³⁷⁷ wedi iddi ddiodef dan law y llysgennad. Yn ogystal â hynny, ym mharti blynyddol yr Archdderwydd, meddylia Syr Oliver am bethau aflan y byddai wrth ei fodd yn eu gwneud i Megan a Delyth. Dychmyga’r ‘gorfoledd amhrisiadwy o gael y ddwy dan ei arglwyddiaeth, i’w treisio a’u troi’n gonciwbaniad dof, a’r cwbl yn enw Lloegr!”³⁷⁸

Bwriadaf ddychwelyd eto at y cysyniad o ryw a rhywioldeb fel trosiad am rym Lloegr dros Gymru wrth drafod *Senedd a Satan*, ond mae’r dyfyniad hwnnw gan Syr Oliver yn adrodd cyfrolau am ei agwedd at fenywod.

³⁷⁴ Ibid. t. 90.

³⁷⁵ Ibid. t. 59.

³⁷⁶ Ibid. t. 76.

³⁷⁷ Ibid. t. 58.

³⁷⁸ Ibid. t. 42.

Fe'i galwyd yn 'rhyw stori du chwyneb i'r gwir'³⁷⁹ gan Robot Trefor, a heb os, mae'r Gymru Rydd yn *Gwalia ar Garlam* yn dal i fod yn anghyfarwydd, yn ogystal â'r ddelwedd newydd o wragedd Merched y Wawr. Er bod ei gweledigaeth o Gymru newydd yn lled-ddifyr, ac yn codi gwên, mae'r cyfeiriadau cyson at 'reddfau cyntefig', afraid dweud, yn ychwanegu at elfen ffarsaidd y nofel hon, ac yn gallu mynd dan groen darlennydd. Wrth gwrs, mae'n ddibynnol iawn ar chwaeth yr unigolyn os ydy hyn yn cael ei werthfawrogi, fel y nodwyd gan Rhiannon Tomos yn ei hadolygiad di-flewyn-ar-dafod ar y nofel.³⁸⁰ Un feirniadaeth amlwg a drafodwyd yn sgil *Gwalia ar Garlam* oedd y dyffig cefndir cymdeithasol. 'Does dim awgrym o'r fath o gymdeithas, y fath o Gymru, ydy hi; mae ei bywyd pob dydd, a hyd yn oed ei maint, yn ddirgelwch llwyr.'³⁸¹ Rydym eisoes wedi crybwyll beirniadaeth Johan Schimanski o ddiffyg cefndir hanesyddol i ddyfodol *Wythnos yng Nghymru Fydd*, serch hynny, a fyddai yna le mewn nofel ysgafn fel *Gwalia ar Garlam* i'r fath gefndir?

Symudwn ymlaen at Gymru Rydd arall yn *Senedd a Satan*, a gyhoeddwyd yn dilyn Refferendwm llwyddiannus 1997, yn 1999. I ryw raddau, mae hi'n nofel lai swreal na *Gwalia ar Garlam*, ac yn canolbwyntio ar y Senedd ac ar drefn gyfreithiol Cymru Rydd mewn dyfodol pellach na'r nofel flaenorol. Dechreuâ'r nofel yn ystod uchafbwynt yr Eisteddfod Genedlaethol, sef Seremoni'r Cadeirio. Mae Brenin Lloegr, Brenin Rupert y Cyntaf, wedi cael ei urddo i'r Wisg Wen ac yn eistedd ar orsedd arbennig ar lwyfan yn ystod y seremoni.³⁸² Serch hynny, nid oes yna'r un parch at draddodiadau'r Cymry gan y brenin newydd, o gymharu â Brenin Charles y Trydydd yn *Gwalia ar Garlam*, ac yn sgil hynny, nid eistedda'r bardd buddugol ym mherffaith hedd yr Eisteddfod. Plymia'r bardd hwnnw, Ffiona Degwel,

³⁷⁹ Robot Trefor, 'Rwts Tan Gamp' *Barn* 348/9 (1992), 90.

³⁸⁰ Rhiannon Tomos, 'Ar Garlam i Nunlle' *Golwg*, 5 Rhagfyr 1991, t. 18.

³⁸¹ *Ibid.* t. 18.

³⁸² Marcel Williams, *Senedd a Satan* (Talybont: Y Lolfa, 1999), t. 6.

ddagr i galon y brenin, a'i lofruddio o flaen pawb. Nid yn unig y mae clywed Ffiona'n ateb cwestiwn bloedd "A OES HEDDWCH?" yr Archdderwydd gyda "NAC OES" herfeiddiol yn sbardun i ddigwyddiadau'r nofel, ond mae'n tarfu ar un o draddodiadau hynaf Cymru. Mae gweddill y nofel yn olrhain hanes yr achos llys, a hwnnw'n cael ei gynnal yn Llysoedd Cymru, er ymgais Prif Weinidog Lloegr i berswadio'r Senedd i'w gynnal yn Lloegr.

Nid yr Eisteddfod Genedlaethol yw'r unig beth i gael ei wyrdroi gan Marcel Williams. Yn y nofel, dilynwn hanes tri brenhinwr - Quintin Cadwaladr, Osbert Meyrick a Vavasor Simlot – a'u bryd ar ddial ar y genedl Gymraeg am lofruddiaeth eu brenin. Ânt i'r Ganolfan Archaeoleg Geltaidd liw nos, gyda'r bwriad o osod bom. Wedi i bethau fynd o chwith, mae'r tri mewn ysbyty yng Nghymru, mae'r nyrs yn fwriadol greulon wrth Quintin am ei fod yn derfysgwr: "Pe bawn *i'n* cael fy ffordd, mi'ch tagwn chi cyn i'r heddlu gael gair allan ohonoch chi. Piti iddin nhw ddod â chi yma yn hytrach na mynd â chi i'r carchar yn union."³⁸³ Mae'n anodd peidio â gweld paralelau rhwng eu hymgyrch ac ymgyrch Saunders Lewis, Lewis Valentine a D. J. Williams wrth geisio llosgi Fomio Penyberth. Wedi'r cwbl, nodir: 'Roedd Quintin yn arghoeddedig mai dim ond unwaith o'r blaen yn hanes Cymru y bu i driawd mor annhebygol fentro ar y fath ymgyrch.'³⁸⁴ Er bod gan y ddau driawd egwyddorion cwbl wahanol i'w gilydd, onid cenedlaetholwyr yw'r triawd o fonarchwyr hefyd, fel y tri a geisiodd gynnu tân ym Mhenyberth? Dyfynnir D. J Williams yn y gyfrol '*Cythral o Dân*' yn honni eu bod hwythau wedi ceisio "achub anrhydedd cenedl"³⁸⁵ y noson honno, ac i ryw raddau, gwelwn mai dyna fwriad Quintin Cadwaladr a'i gyfeillion wrth fynd ati i "ddial am lofruddiaeth y Brenin Rupert."³⁸⁶

³⁸³ Ibid. t. 43.

³⁸⁴ Ibid. t. 37.

³⁸⁵ Arwel Vittle, '*Cythral o Dân*' (Talybont: Y Lolfa, 2011), t. 71.

³⁸⁶ Williams, *Senedd a Satan*, t. 140.

Mae cysylltiadau academaidd Quintin Cadwaladr yn Adran Saesneg y brifysgol yn cryfhau'r cysylltiad gydag arweinydd y triawd gwreiddiol, Saunders Lewis. Nodir bod Quintin Cadwaladr ar fin etifeddu'r Gadair Saesneg nesaf.³⁸⁷ Mae ei swydd yn y fantol yn dilyn y digwyddiad, a cheisia Arweinydd Ceidwadwyr Cymru, Olwen Ingleton achub ei gam. Fodd bynnag, nid yw'r Prif Weinidog, Ellis Hopkins, yn fodlon. Atgyfnerthir y cysylltiad rhwng triawd Penyberth wrth i Olwen ddadlau nad yw gweithredoedd Quintin a Saunders Lewis mor wahanol â hynny:

“Pan ddaw'r achos i'r llys, Mr Hopkins, bydd Quintin yn ymhyfrydu yn ei euogrwydd... fel y gwnaeth dyn arall o egwyddor nôl yn y tri degau – Saunders Lewis.”

“Nefoedd fawr! Dych chi ddim yn gosod Quintin Cadwaladr ar yr un lefel â Saunders?”

“Nac ydw. Mae Quintin ar lefel uwch. Roedd egwyddorion Saunders Lewis yn wirion.”³⁸⁸

O'n safbwynt ni fel Cymry, mae'r hyn a wnaeth Quintin Cadwaladr yn hollol anfaddeuol ond rydym yn barod iawn i glodfori'r un safiad ag a wnaeth Saunders Lewis. Mae'r sefyllfa swreal hon yn nofel Marcel Williams yn peri inni ailystyried y sefyllfa, a chwestiynu, o bosib, symbyliad Y Tri a ddaeth yn 'symbolau chwedlonol'³⁸⁹ yn hanes Cymru. Mae'n ddiddorol, hefyd, i'r digwyddiad a fu'n dyngedfennol wrth newid statws y Gymraeg yn llysoedd Cymru, ddylanwadu ar nofel sy'n portreadu Cymru Rydd ac iddi ei sustem gyfreithiol ei hun.

³⁸⁷ Ibid. t. 37.

³⁸⁸ Ibid. t. 53.

³⁸⁹ Vittle, *Cythral o Dân*, t. 13.

Dychwelwn at y cysyniad fod yna berthynas rhwng rhyw a grym, wrth i Ffiona Degwel, yn ystod yr achos llys, ddatgelu ei bod hi wedi cael ei threisio gan y Brenin. Tra bo y merched yn rym mwy pwerus yn *Gwalia ar Garlam*, y Brenin Rupert sy'n cymryd mantais o'r Gymraes yn y nofel hon. I ryw raddau, gellid ystyried Ffiona Degwel yn drosiad am Gymru. Wrth ystyried ei phrofiadau dan law y Brenin Rupert, mae'n ei rheibio o'i gwybodaeth hanesyddol ac yn ei threisio a'i defnyddio hi. Atgyfnerthir hyn wrth i Ffiona ei disgrifio'i hun fel a ganlyn: "Fi oedd *tegan* y brenin, *tegan* delfrydol, yn ymwybodol a hyblyg a meddal a chynnes, ac yn gwbl analluog i'w wrthsefyll. Ac fe fanteisiodd ar fy nghyflwr."³⁹⁰ Wrth edrych ar hanes ein gwlad, onid *tegan* oeddwn dan law yr Ymerodraeth Brydeinig? Serch hynny, mae Ffiona'n feichiog gyda mab y brenin – etifedd coron Lloegr – ac yn defnyddio hynny i sicrhau cydymdeimlad y Llys. Datgana'r prif reithiwr benywaidd fod Ffiona'n ddieuog, gan gyhoeddi, "Nid lladd *dyn* wnaeth Miss Degwel, ond diddymu a dinistrio *bwystfil*."³⁹¹

Dyma'r hoelen olaf yn arch yr Ymerodraeth Brydeinig (dyfalwn fod yr Alban ac Iwerddon hefyd yn annibynnol yn nyfodol y nofel hon) a daw'r Frenhines Matilda i'r orsedd. Mae taith wythnosol Aneurin Tudor, y Prif Weinidog newydd, i Balas Buckingham 'yn destun gobaith direidus i Gymru gyfan.'³⁹² Serch hynny, pe cymerem yn ganiatol yr ailadroddir digwyddiadau hanesyddol, mae cyfeiriad y llenor at 'ail Oes y Tuduriaid'³⁹³ yn destun pryder mawr, gan gofio mai Harri'r VIII, mab y brenin o Sir Benfro, Harri'r VII, a fu'n gyfrifol am ffurfio Deddf Uno 1536.

Er ein bod yn darllen cryn dipyn am brofiadau erchyll Ffiona Degwel dan law'r Brenin, mae hi'n anodd iawn cydymdeimlo gyda hi, wrth iddi eistedd yn siriol yn ei chell yn y carchar. Nid

³⁹⁰ Williams, *Senedd a Satan*, t. 112.

³⁹¹ *Ibid.* t. 136.

³⁹² *Ibid.* t. 171.

³⁹³ *Ibid.* t. 171.

yw i'w gweld yn edifarhau am ladd y brenin chwaith, ac mae'n orhyderus y bydd hi'n ddiuog. Owen Thomas, yn ei adolygiad ar y nofel, a fu'n ddigon craff i sylwi nad 'dadansoddi cymeriadau yn dyner ddwys yw natur *genre*'r nofelydd hwn. Â digwyddiadau gwleidyddol, ar lawer ystyr, y mae wnelo diddordebau'r awdur.³⁹⁴ Unwaith eto, gwelwn nad ymdreiddio i seice cymeriad yw diben llenorion ffuglen wyddonol nifer o'r gweithiau yr ydym wedi eu darllen, ac mae hynny'n nodwedd sydd wedi dod i'r amlwg yn ystod yr astudiaeth.

Yn yr un modd â *Da o Ddwy Ynys*, yr unig beth dyfodolaidd am nofelau Marcel Williams yw eu lleoliad amseryddol. Nid oes iddynt y dechnoleg na'r datblygiadau gwyddonol sy'n greiddiol i'r *genre* ffuglen wyddonol. Ar ddiwedd y degawd, mae'n drueni i ffuglen ddyfodolaidd gymryd cam am yn ôl, yn enwedig wedi i antur ofodaidd *Y Trydydd Posibilrwydd* Mari Williams a ffantasi arallfydol *Seren Wen ar Gefndir Gwyn* Robin Llywelyn gynnig tro ar fyd. Serch hynny, gyda gwawr y mileniwm newydd, a Chymru Fydd enwog Islwyn Ffowc Elis yn prysur nesáu, mae'r ganrif nesaf yn cynnig potensial newydd i lenyddiaeth ffuglen wyddonol yn y Gymraeg.

³⁹⁴ Owen Thomas, 'Adolygiad Senedd a Satan' *Y Traethodydd* CLVII (2002), 55.

Pennod 6: Machlud Hen Garrif

Cymru Fydd Arwel Vittle yn *Talu'r Pris* yw'r nofel ffuglen wyddonol gyntaf i gael ei chyhoeddi yn 2000, a daw tro ar fyd eto wedi dyfodol digon di-fflach Marcel Williams. Dechreuau'r nofel hon gyda'r 'Bennod Olaf', ac 'Un prynhawn llwyd yng Nghymru Fydd...'³⁹⁵ yn y flwyddyn 2048. Afraid dweud, mae'r cyfeiriad at Gymru Fydd yn denu sylw'r darllenydd craff yn syth. Fel y dywed Llŷr Titus, mae hi'n nofel sy'n 'ymwybodol o'i lle yn y canon ffuglen wyddonol Gymraeg.'³⁹⁶ Yn y prolog hwn, mae Maredudd Rhys yn cael ei orfodi i ildio hawliau'r Cynulliad Cenedlaethol, a gwelwn sgil-ffeithiau'r digwyddiad hwnnw yng nghorff y nofel, a leolir yn y flwyddyn 2082.

Mae'r Gymru hon ymhell o fod yn debyg i'r Gymru Annibynnol yr ydym wedi ei gweld yn *Wythnos yng Nghymru Fydd a Da o Ddwy Ynys*. Sonnir i drydydd refferendwm roi 'ergyd farwol' i unrhyw obaith a oedd gan Gymru o ddod yn wlad rydd,³⁹⁷ a bod y corfforaethau mawrion wedi hudo gwleidyddion y Cynulliad fel nad oedd yr un owns o egwyddor yn perthyn iddi. 'Arweiniodd hynny, ar ben y cweryla rhwng haenau llywodraethol Cymru-Wales, a chyfres o sgandalau, at ddileu siambr y Cynulliad a dwyn hanner canrif o ryddid smalio i ben.'³⁹⁸ Gwelwn fod corfforaeth fawr, BritCorp, yn rheoli Prydain erbyn hyn, ac mai is-adran yn unig yw Cymru, sef WalesCorp, wedi iddi golli ei hannibyniaeth. Dysgwn fod BritCorp yn awyddus i ymuno gydag Undeb Newydd Ewrop, mudiad sydd hefyd wedi newid cryn dipyn ar hyd y blynyddoedd. Manteisiwyd ar y cyfle, yn ystod brwydro chwyrn rhwng yr 'hen' Unol Daleithiau a Tsieina i "gael gwared ar yr hen ganoli biwrocraidaidd ac ad-drefnu'r

³⁹⁵ Arwel Vittle, *Talu'r Pris* (Talybont: Y Lolfa, 2000), t. 8.

³⁹⁶ Llŷr Titus, 'Astudiaeth o bedair nofel ffuglen wyddonol Gymraeg.' (Traethawd israddedig BA, Prifysgol Bangor, 2014), t. 20.

³⁹⁷ Vittle, *Talu'r Pris*, t. 78.

³⁹⁸ Ibid. t. 78.

Undeb yn gyd-ffederasiwn o ranbarthau ffederal.”³⁹⁹ Disodlwyd y faner yr ydym yn gyfarwydd â hi heddiw, sef y faner las ac arni sêr melyn, a mabwysiadwyd ‘hen faner gweriniaethwyr Iwerddon.’⁴⁰⁰ Rhoddir pwyslais ar wledydd bychain yr Undeb a phwysleisir bod ‘yr holl rym wedi’i wasgaru’n deg’,⁴⁰¹ a Chatalaniad, Lluís de la Riba yw eu Prif Weinidog. Heb os, byddai gweld BritCorp yn ailymuno yn siglo seiliau’r Undeb Newydd. “Os yw cais y Gorfforaeth Brydeinig i ailymuno â’r Undeb yn llwyddo mi fydd hi ar ben arnom ni wledydd bychain i gadw grym. Mi fyddai bron yn amhosib i ni wrthsefyll y cwmnïau rhyngwladol wedyn.”⁴⁰²

Anfonir Conor O’Brien, Gwyddel, i asesu safonau byw yr hyn a elwir yn ‘Brodiroedd’ yng Nghymru, ac wrth iddo ddarllen adroddiadau Lluís, dysgwn fwy am WalesCorp a’i isadrannau. ‘Rhennir WalesCorp yn nifer o ardaloedd ac adloniant er difyrwch yn bennaf i drigolion dinasoedd poblog Corfforaeth Prydain e.e WalHol (Hamdden), WalRes (Brodiroedd), WalParcs (Amgueddfeydd Treftadaeth).’⁴⁰³ Manteisir ar gyflwr truenus trigolion y brodiroedd, a thra’u bod hwythau’n byw mewn hen dai heb eu hatgyweirio - ‘Nid rhyfedd fod parseli bwyd a diod yn cael eu hanfon i’r Brodiroedd bob Nadolig o Romania ac Eritrea.’⁴⁰⁴ – mae unigolion megis RJ, Llywydd y Llwythau a dyn busnes llewyrchus, yn gwneud eu ffortiwn. Gwrthgyferbynna hyn yn llwyr gyda’r ddelwedd o’r Pab yn Ewrop yn ‘defnyddio dwy ran o dair o gyfoeth ariannol y Fatican i leddfu tlodi a newyn yn y gwledydd tlawd.’⁴⁰⁵

³⁹⁹ Ibid. t. 107.

⁴⁰⁰ Ibid. t. 45.

⁴⁰¹ Ibid. t. 107.

⁴⁰² Ibid. t. 25.

⁴⁰³ Ibid. t. 48-9.

⁴⁰⁴ Ibid. t. 37.

⁴⁰⁵ Ibid. t. 48.

Yn wir, gwelwn sawl enghraifft o BritCorp yn gweithredu ei grym trefedigaethol dros WalesCorp. Un o'r digwyddiadau mwyaf amlwg sy'n arddangos hyn yw penderfyniad BritWat, cwmni dŵr y Brydain ddyfodolaidd, i symud trigolion Penllyn i ddinas Salford Somerfield a boddi'r cwm i greu cyflenwad dŵr, er mwyn 'cynorthwyo trueniaid bro'r sychder yn BritNorth.'⁴⁰⁶ Adleisir digwyddiadau boddi Cwm Tryweryn, a gwelwn ei fod wedi mynd yn angof yn y dyfodol dystopaidd hwn. Serch hynny, nid yw'r gymdeithas ddof yn brwydro yn erbyn y penderfyniad; yn hytrach, maent yn ymfalchïo yn y cyfle i fynd i Salford Somerfield, gan fod 'alcoholiaeth a chyffuriau yn rhemp yno ... a safon byw yn isel.'⁴⁰⁷ Fel y dywed Conor O'Brien, "mae arweiniad gwleidyddol y bobl yna wedi'i sbaddu."⁴⁰⁸ Nid Penllyn yn unig sy'n diflannu dan ddŵr, y mae nifer o gymoedd y De eisoes wedi eu boddi i leddfu argyfwng dŵr y wlad.⁴⁰⁹ Serch hynny, dysgwn fod '*Operation Drought Saver*' yn ffordd o guddio cyfrinach lawer mwy difrifol. Ym meddiant lolo ap Mareddydd mae yna ddisg sy'n datgelu mai cynllun i gelu arbrawf gwyddonol ydyw, er mwyn sicrhau na fydd yna fygythiad i'w hymgais i ailymuno gydag Undeb Ewrop. Derbynia lolo ddisg oddi wrth Gwyddno Jones, gwyddonydd medrus, sy'n datgelu bod BritCorp yn awyddus i greu 'Milwyr Silicon'. 'Byddin o filwyr perffaith oedd y rhain. Eu cyrff wedi'u hasio trwy gyfrwng sglodyn silicon yn yr ymennydd gyda chyfrifiadur canolog eu tanciau a'u harfau.'⁴¹⁰ Wrth geisio dewis cenedl addas ar gyfer eu trawsnewid yn filwyr, penderfynir mai llwythau Brodiroedd WalesCorp oedd 'y grŵp ethnig mwyaf addas at ddibenion y prosiect.'⁴¹¹ Yn ôl yr ymchwiliad, y bobl a enwir yn 'aborijinis cyntefig' gan yr awdurdodau yw'r dinasyddion sy'n cynrychioli'r Prydeiniwr cyffredin orau, am nad 'oeddynt wedi'u "llygru" â genynnau Asiaidd

⁴⁰⁶ Ibid. t. 33.

⁴⁰⁷ Ibid. t. 27.

⁴⁰⁸ Ibid. t. 193.

⁴⁰⁹ Ibid. t. 50.

⁴¹⁰ Ibid. tt. 220-1.

⁴¹¹ Ibid. t. 223.

ac Affro-Caribiaidd.⁴¹² Fel y crynhoa Daniel, mae'r Llywodraeth yn "[d]wyn hawlfraint genynnau'r llwythau oddi arnynt."⁴¹³

Dysgw'n fwy am gymeriad lolo a'i gefndir lliwgar. Bu'n un o sefydlwyr Cwmwd Annibynnol Madryn, cymuned nid annhebyg i Gafflogion, o nofel R. Gerallt Jones. Ei fwriad ef a chriw bychan arall oedd sefydlu 'cymuned wâr wedi'i seilio ar werthoedd cydweithredol.'⁴¹⁴ Methiant fu'r gymdeithas, serch hynny, wrth i anghytuno ymysg trigolion y gymuned ym Mhenrhyn Llŷn eu rhwygo, a llosgwyd unrhyw ôl o'r Cwmwd (fel y'i gelwir gan gymeriadau'r nofel) cyn i'r JUDAS ddifa'r lle.⁴¹⁵ Wrth ddychwelyd at adfeilion y gymuned yn ddiweddarach, symboleiddia ddinistrio'r gymuned i lolo golli ei ffydd a'i obaith. 'Roedd eu llygaid ar y sêr ac ni welodd yr un ohonynt y maglau dan eu traed.'⁴¹⁶ Serch hynny, wrth ail ystyried yn ystod ymweliad â safle (sydd bellach yn adfeilion) 'ni allai gael gwared ar y syniad – na nid syniad, doedd gan rhesymeg ddim byd i wneud â'r peth – rhyw deimlad ym mêr ei esgyrn fod yna rhyw fath o obaith o hyd.'⁴¹⁷

Wrth ymateb i gwestiwn mewn cyfweliad, dychmyga Arwel Vittle ei 'frawddeg agoriadol ddelfrydol', dywed; 'Gwenodd y llawfeddyg Gwydion Rhys yn fodlon. Bu'r driniaeth i drawsblannu dur yn asgwrn cefn arweinwyr y genedl yn llwyddiant hyd yma.'⁴¹⁸ Fel y dywed Dafydd Glyn Jones wrth adolygu ei drydedd nofel, *Dial yr Hanner Brawd*, 'Gŵyr yr awdur hwn sut i anelu cic.'⁴¹⁹ Gwelwn eto yn *Talu'r Pris* ddawn Arwel Vittle i ddychanu ei

⁴¹² Ibid. t. 223.

⁴¹³ Ibid. t. 247.

⁴¹⁴ Ibid. t. 98.

⁴¹⁵ Ibid. t. 99.

⁴¹⁶ Ibid. t. 242.

⁴¹⁷ Ibid. t. 243.

⁴¹⁸ Arwel Vittle, 'Adnabod Awdur' Gwefan BBC Llên Cymru

<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/llyfrau/awdur/arwel-vittle.shtml> [Darllenwyd 15 Rhagfyr 2014].

⁴¹⁹ Dafydd Glyn Jones, 'Adolygiad Gwales: Dial yr Hanner Brawd'

<http://www.gwales.com/bibliographic/?isbn=9780862436612&tsid=3> [Darllenwyd 10 Rhagfyr 2014].

gymdeithas. Rydym eisoes wedi gweld sut y cyfeiria at ‘ryddid smalio’ ein Cynulliad,⁴²⁰ a llwydda i ddychanu mewn modd pur debyg i Marcel Williams. Serch hynny, mae yna ryfeddodau cynnil drwy gydol y nofel hon sy’n gwneud ei dyfodol yn un rhyfeddol, ffuglen wyddonol, yn enwedig o gymharu â dyfodol llonydd *Senedd a Satan* a *Gwalia ar Garlam*. Yn ogystal â chynnwys newidiadau gwleidyddol, benthycyca Arwel Vittle declynnau sy’n hen gyfarwydd mewn ffilmiau ffuglen wyddonol Hollywood, ond yn gysyniadau newydd mewn llenyddiaeth Gymraeg, megis chwystrelliadau clefydau rhywiol,⁴²¹ a pheiriannau sy’n adnabod unigolion yn ôl patrwm iris eu llygaid.⁴²² Un o’r enghreifftiau mwyaf nodedig, serch hynny, yw’r Eisteddfod Rithwir, y cyfeirir ati fel ‘campwaith technolegol y Palas Pleser.’⁴²³ Dysgw’n nad dyna unig brofiad rhithwir y Palas Pleser yn Teggie’s Town (Y Bala, gynt) ac ‘oni bai am lwyddiant y sioe ryw ni fyddai RJ wedi gallu mentro ariannu’r Steddfod Rithwir.’⁴²⁴ Fodd bynnag, nid yw’n ymdebygu i’n Heisteddfod bresennol ni, ‘gan fod yr wyl yn hollol Saesneg erbyn hyn.’⁴²⁵ Er y bu hi unwaith yn Eisteddfod ddwyieithog, serch hynny, ‘llyncwyd yr wythnos Gymraeg farwaidd gan fwrlwm cyffrous yr wyl Saesneg.’⁴²⁶ Cysyniad tebyg sydd i Eisteddfod 2023 yn stori fer Ifan Morgan Jones, ‘Un Diwrnod yn yr Eisteddfod Fydd,’ a gyhoeddwyd yn *Tu Chwith* yn 2013. Gwêl yntau’r brifwyl yn symud i safle parhaol,⁴²⁷ a dysga’r prif gymeriad Gwilym Prys gan lanc yn gwisgio crys-T “Guide” ‘it’s been bilingual since 2020!’⁴²⁸ Mae’n anodd dyfalu, wrth ddarllen y darnau dan sylw, a wyl y ddau lenor fod y brifwyl wedi bod yn ddwyieithog yn y gorffennol, ac na chyflwynwyd y Rheol Gymraeg yn

⁴²⁰ Vittle, *Talu’r Pris*, t. 78.

⁴²¹ Ibid. t. 181.

⁴²² Ibid. t. 188.

⁴²³ Ibid. t. 87.

⁴²⁴ Ibid. t. 88.

⁴²⁵ Ibid. t. 89.

⁴²⁶ Ibid. t. 89.

⁴²⁷ Ifan Morgan Jones, ‘Un Diwrnod yn yr Eisteddfod Fydd’ *Tu Chwith* 39 (2013), 55.

⁴²⁸ Ibid. t. 61.

swyddogol tan 1937.⁴²⁹ Serch hynny, mae'n bwysig nodi mai portread Arwel Vittle o'r Eisteddfod Rithwir (ac eithrio cipolwg Marcel Williams o'r seremoni gadeirio yn *Senedd a Satan*) yw'r tro cyntaf i ni weld y brifwyl ar ei gwedd ddyfodolaidd. A hithau'n un o uchafbwyntiau'r 'Calendar Cymreig' i nifer o Gymry, mae'n syndod nad yw'r pwnc wedi codi cyn hyn. Er y gwelwn noson lawen yng nghartref y Puwiaid yn *Wythnos yng Nghymru Fydd*, nid oes yna'r un sôn am yr Eisteddfod Genedlaethol.

O leiaf mae adfeilion Abaty Ystrad Fflur yn dal i fodoli yn 2082 ac ni adeiladwyd canolfan ddawnsio yno fel yn 2033 *Wythnos yng Nghymru Fydd*, fodd bynnag, nid yw cenedlaetholwr rhonc y nofel yn gyfarwydd â Dafydd ap Gwilym. Yno, daw lolo ar draws myfyriwr o 'Safeway University' (cysyniad ynddo'i hun sydd wedi dyddio ers cyhoeddi'r nofel, gan fod Morrisons eisoes wedi disodli'r hen Safeway) sy'n astudio 'Astudiaethau Cyntefig' ac yn chwilio am fedd bardd enwog. '...ac atebodd lolo'n onest nad oedd erioed wedi clywed am fardd yn yr ardal.'⁴³⁰ Fel y noda Angharad Price wrth drafod llenyddiaeth aruchel yr 1990au, 'hydreiddir y diwylliant Cymraeg gan yr argyhoeddiad fod ffyniant yr iaith i raddau helaeth yn ddibynol ar ffyniant ei llenyddiaeth.'⁴³¹ Pryderwn am ddyfodol bregus Cymru a'r diwylliant Cymreig wrth ddarllen am lolo'n cyfaddef nad oedd 'erioed wedi dod ar draws bardd yn ei oes, ac roedd wedi treulio'r rhan fwyaf o'i fywyd ar dir Cymru.'⁴³²

Heb os, drwy gydol *Talu'r Pris*, pwysleisir y dylid gwneud y mwyaf o bob cyfle gyda'r Senedd yng Nghymru, ac i beidio â derbyn bod ennill y refferendwm yn 1997 yn ddigon. "Dyna oedd camgymeriad ein pobl ar ddechrau'r ganrif. Yn ddiniwed yn meddwl y bydden ni'n cael ein

⁴²⁹ Hywel Teifi Edwards, *Yr Eisteddfod: Cyfrol Ddathlu Wythganmlwyddiant yr Eisteddfod, 1176-1976* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1976), t. 82.

⁴³⁰ Ibid. t. 135.

⁴³¹ Price, *Rhwng Gwyn a Du*, t. 16.

⁴³² Vittle, *Talu'r Pris*, t. 209.

rhyddid gan BritCorp dim ond i ni gynnal pleidlais ac ennill refferendwm.”⁴³³ Serch hynny, gorffenna’r nofel hon ar Nos Galan 2099, gyda Llywydd newydd y Cynulliad Cenedlaethol yn dathlu. Wedi darganfod bod BritCorp yn mynd ati i arbrofi’n gyfrinachol ar ddeunydd genetig, fe gynigir cytundeb newydd i Brydain:

Fel rhan o setliad gwleidyddol Corfforaeth Prydain a Chyd-ffedarasiwn Ewrop mi fyddai rhai o’r pwerau yn dychwelyd i Gynulliad Corfforaeth Cymru-Wales. Fel amod i ganiatáu aelodaeth gyflawn i Gorfforaeth Prydain caniatawyd annibyniaeth lwyr i’r Alban, adferwyd Cynulliad Cymru a gorfodwyd yr awdurdodau i addo etholiadau rhydd ledled y Gorfforaeth.⁴³⁴

Wrth edrych allan ar BayCity (Caerdydd gynt) mae RJ, y llywydd nesaf, dros ei gant, yn ofni dynion dirgel mewn clogynau, a datgelir bod Iolo ac Ernesto ar ffo.⁴³⁵ Synnwn glywed RJ yn dyfynnu Dafydd Iwan – nid am y tro cyntaf yn y nofel. Wrth drafod y Cymry yn Llys y Llwythau, dywed; “Rydym yn bobl hen, ac mae gennym hen hanes a heniaith fwyn sydd, **er gwaethaf pawb a phopeth**, wedi goroesi hyd at ddiwedd yr unfed ganrif ar hugain,”⁴³⁶ a geiriau olaf y nofel yw “Da’n ni yma o hyd.”⁴³⁷ Fel y gwelwn yn *Blodyn Tatws*, mae Dafydd Iwan a’i eiriau yn ymddangos yn anfarwol – boed hynny’n fwriadol neu yn dric dychanol – er ei bod hi’n anodd credu y byddai ei eiriau’n cadw eu grym hyd yn oed ar droad yr ail ganrif ar hugain.

Nid yn unig y gwelwn fyd sy’n rhemp o wleidyddion diegwyddor, sylwn fod y byd yn dioddef o sgil-ffeithiau cynhesu byd-eang:

⁴³³ Ibid. t. 217.

⁴³⁴ Ibid. t. 283.

⁴³⁵ Ibid. t. 285.

⁴³⁶ Ibid. t. 32.

⁴³⁷ Ibid. t. 286.

Ers chwalu'r haenen osôn yn llwyr yn y 2030au bu newid mawr yn hinsawdd y byd. Rhwng misoedd Mai a Medi roedd yn rhaid i bawb aros dan do rhwng un ar ddeg y bore a phedwar o'r gloch y prynhawn, naill ai hynny neu wisgo siwt ac offer anadlu arbennig.⁴³⁸

Gwelwn, wedi *Talu'r Pris*, fod pwnc llosg cynhesu byd-eang yn britho nofelau dyfodolaidd y 2000au. Datblygir cysyniad tebyg o fyd sy'n rhy boeth i fyw y tu allan yn *Annwyl Smotyn Bach*. Yn y nofel honno gan Lleucu Roberts, a gyhoeddwyd yn 2008, fe'n cyflwynir i ddau ddyfodol gwahanol. Yn y dyfodol cyntaf, a leolir yn 2089, mae Llio yn hen wreigen sy'n byw mewn 'Assisted Living Center'. Datgelir na all trigolion y ganolfan fentro allan i'r haul, oherwydd bod y tymheredd yn annaturiol o uchel. Noda Llio ei bod hi a gweddill y byd 'yn dal i ddysgu byw mewn byd lle mae'r adnoddau naturiol yn prysur ddiflannu, a hinsawdd sy'n chwyrltio tu hwnt i'n gallu i'w ddiodef.'⁴³⁹

Serch hynny, y dyfodol cyntaf, yn 2040, sy'n ffurfio naratif y nofel. Darllenwn lythyron Llio ganol oed at y baban ifanc yn ei chroth, a hithau'n disgrifio'r drefn ormesol o'i chwmpas ac yn gobeithio am fywyd a dyfodol gwell i'w baban heb ei eni a'i mab ifanc, Math. Dysgwn am fyd dan warchae, gyda llygaid 'Hi' ddirgel yn eu gwyllo bob awr o'r dydd. 'Hi. Yr Eryres o'r ochr arall i'r môr sydd â'i chrafanc yn ddwfn yng nghnawd ein gwarrau.'⁴⁴⁰ Serch hynny, erbyn 2089 mae'r byd yn rhydd unwaith eto o ddylanwad yr Eryres o'r Unol Daleithiau – datgela Math i'w Mam, "Does dim She! She is long gone."⁴⁴¹ – ac eithrio'r ffordd y sillafwyd 'Center' yn y ffordd Americanaidd.

⁴³⁸ Ibid. t. 58.

⁴³⁹ Ibid. t. 146.

⁴⁴⁰ Lleucu Roberts, *Annwyl Smotyn Bach* (Talybont: Y Lolfa, 2008), t. 27.

⁴⁴¹ Ibid. t. 86.

Ymddengys mai yn 2020au y cyflwynwyd y drefn newydd, wrth i lywodraeth yr Unol Daleithiau gyflwyno 'gweledigaeth am fyd unffurf, diwahân, dan un grym, un bwriad, un cyfeiriad.'⁴⁴² Sylwn fod y 'Nhw' bondigrybwyll yn ymddangos eto, a threfn dotalitaraidd y byd sydd ohoni yn 2049 yn pwysu'n drwm ar Llio a'i theulu. Fodd bynnag, dylanwadau Americanaidd yn hytrach nag Ewropeaidd fel yn *Cafflogion*, sy'n gormesu'r byd hwnnw. Fel rhan o hyn, gwelwn fod sistem addysg y gyfundrefn honno yn seiliedig ar athroniaeth un dyn yn Llundain, yn dysgu plant y byd i gyd drwy sgriniau cyfrifiadurol.⁴⁴³ Gobeithia Llio am ddyfodol gwell i'w phlentyn, a eilw yn 'Smotyn Bach', wrth iddi obeithio y bydd y baban 'yn darllen heb ofni bod llygad gwladwriaeth wrth dy gefn, yn ei ddarllen efo ti.'⁴⁴⁴

Wrth i'r cysyniad o Brydain fel 'surveillance society' ddod i'r amlwg ar droad y ganrif newydd, cyhoeddwyd adroddiad a ddatgela fod 4.2 miliwn o gamerâu cylch cyfyng ym Mhrydain.⁴⁴⁵ Gwelwn fod y mater wedi esblygu ers cyhoeddi'r ystadegau hynny yn 2006, a bod cyfrifiaduron yng nghartref Llio a'i theulu yn nodi pob symudiad. 'Mae'n crynhoi data amdanon ni: ein symudiada [sic] drwy stafelloedd y tŷ, ein defnydd o'r llunffon a chynnwys y sgysiau, ein defnydd o bob teclyn a pheiriant, yn ogystal â'r data ar y CCTV, sy'n orfodol bellach ym mhob cartref.'⁴⁴⁶ Yn yr un modd, mae specwyr, lle mae specwyr, camera ar ffurf pelen arian yn hedfan o gwmpas yn cadw llygad ar drigolion WalesCorp yn *Talu'r Pris*. Fe'i disgrifir yn estyniad naturiol o'r camerâu CCTV 'a ddaeth yn boblogaidd ar ddiwedd yr ugeinfed ganrif.'⁴⁴⁷ Sylwn: 'Yr oedd plismyn electronig yn cadw llygad ar y cyfiawn a'r

⁴⁴² Ibid. t. 74.

⁴⁴³ Ibid. t. 27.

⁴⁴⁴ Ibid. t. 11.

⁴⁴⁵ Dienw, 'Britain is "Surveillance Society"', 2 Tachwedd 2006 <http://news.bbc.co.uk/1/hi/uk/6108496.stm> [Darllenwyd: 29 Rhagfyr 2014].

⁴⁴⁶ Roberts, *Annwyl Smotyn Bach*, t. 57.

⁴⁴⁷ Vittle, *Talu'r Pris*, t. 21.

anghyfiawn fel ei gilydd ... Doedd neb yn saff rhag y camerâu hollbresennol.⁴⁴⁸ Un nodwedd arall sy'n debyg yn y ddwy nofel, yw'r cysyniad mai bod yn 'subversive' yw trosedd mwyaf difrifol y ddau ddyfodol. "Mae unrhyw beth sy'n gwyro oddi ar y global, rhag y norm, yn subversive,"⁴⁴⁹ dywed Lleucu Roberts wrth ddisgrifio *Annwyl Smotyn Bach*, a gwelwn gosbau llym i droseddwyr. 'Cwrs ailwareiddio, ac os metha hwnnw, y Dymp, y ffrynt yn y Dwyrain Canol.'⁴⁵⁰ Dewisa Arwel Vittle Gymreigio'r 'sybfysif'⁴⁵¹ yn hytrach na'i adael yn air Saesneg bygythiol fel y gwna Lleucu Roberts. Fe'i defnyddir wrth i Vaughan gwyno am ryddhau Ffreuer Mechain, un a darfodd ar gyfarfod blynyddol y Llwythau. Ymddengys mai ymweliad Conor O'Brien o'r Undeb Ewropeaidd a'i hachubodd – 'yr oedd cadw pethau'n dawel yn hollbwysig i Vaughan, RJ, a'u mestri gwleidyddol.'⁴⁵² Fel mewn nifer o weithiau ffuglen wyddonol, gwelwn fod cyfraith gwlad yn gorfodi trigolion dyfodol dystopaidd i gadw eu lle. Wrth edrych yn ôl ar ei llythyron o 2040, dysgw'n fod Llio'n un o ddinasyddion 'Catagori 1', oherwydd swydd ei gŵr, Siôn, gyda Heddlu'r We. Disgrifia Llio ef fel 'Dyn da mewn cadwynau'n dynn,'⁴⁵³ yn gweithio er gwaethaf ei egwyddorion i sicrhau bywyd cysurus a diogel i'w deulu ifanc. 'Bodoli mae dy dad. Er mwyn cynnal ei bodolaeth Hi.'⁴⁵⁴ Serch hynny, gwelwn Llio'n cael ei harwain ar gyfeiliorn gyda'i ffrindiau Non a Miriam. Mae un ohonynt yn llawfeddyg sy'n cynnig triniaethau i ddinasyddion Catagori 2 a 3, a'r llall yn benderfynol o sefydlu ysgol Gymraeg gudd.

Wrth gydweithio gyda'i ffrind Miriam wrth sefydlu'r ysgol gyfrianchol, tynnir Llio i helbul arall, wrth iddi ganfod Llyfr Du Caerfyrddin yn ei meddiant. Dysgw'n fod brawd Miriam,

⁴⁴⁸ Ibid. t. 21.

⁴⁴⁹ Lleucu Roberts, 'Nofel y Ymladd y Grymoedd Mawr: Y Bach o Dan y Lach' *Golwg*, 21 Chwefror 2008, t. 24.

⁴⁵⁰ Roberts, *Annwyl Smotyn Bach*, t. 33.

⁴⁵¹ Vittle, *Talu'r Pris*, t. 55.

⁴⁵² Ibid. tt. 41-2.

⁴⁵³ Roberts, *Annwyl Smotyn Bach*, t. 42.

⁴⁵⁴ Ibid. t. 107.

Geraint, a rhai o weithwyr y Llyfrgell Genedlaethol wedi rhag-weld camau i ddinistrio'r llawysgrifau Cymraeg, ac yn trefnu i'w symud. Yn sgil hynny, Llio sy'n derbyn llawysgrif hynaf casgliad Peniarth, ac yn ei symud o Gaernarfon i Dresait. Gwelwn fod gwarchod ein hanes a'n hetifeddiaeth yn thema bwysig yn y nofel hon. Sonnir am gynlluniau criw'r Llyfrgell Genedlaethol, a nodir am gau'r Llyfrgell Genedlaethol, 'Roedd difa ei chynnwys Cymraeg a Chymreig yn gyfystyr â cholli ein hunaniaeth yn llwyr.'⁴⁵⁵

I ddechrau, mae Llio'n ystyried gwrthod, ac mae Miriam yn gwylltio, ac yn ei hatgoffa bod nifer o'n traddodiadau Cymreig yn hŷn na rhai cyffelyb Lloegr. Cyfeiria at Ganu Heledd fel rhywbeth oedd yn bodoli, "Cyn bod Lloegr", ac fel yr ychwanega Llio, 'Cyn ei bod Hi.'⁴⁵⁶

Penderfyniad anodd Llio yw aberthu diogelwch ei theulu ifanc a gwarchod llawysgrif hynaf Cymru, neu adael i'r llawysgrif gael ei dinistrio gan ddylanwad y llywodraeth Americanaidd. "Gwarchod petha ddoe 'ta gwarchod petha fory, yr un peth ydi o yn y diwedd."⁴⁵⁷

Dangoswyd i ni yn *Wythnos yng Nghymru Fydd* berygl anwybyddu hanes a thraddodiadau Cymreig – "Mae'r Cymry yma i gyd wedi colli'u cefndir – wedi peidio â bod yn Gymry a heb lwyddo i fod yn Saeson."⁴⁵⁸ – a sylwn pa mor greiddiol i'n hunaniaeth Gymraeg yw ein hen drysorau. Yn yr un modd, cwestiyna Llio a oes gwerth i ddiwylliant lleiafrifol ymladd yn erbyn grym diwylliant cryfach. 'Pa dolc bosib allai'r Gymraeg ei tharo ym mwystfil anferth y wladwriaeth?'⁴⁵⁹ Fodd bynnag, gwelwn fod yna lygedyn o obaith i'r Gymraeg. Er ei bod hi wedi colli'i ffordd yn 2089, dysgw'n nad yw hi'n iaith waharddedig erbyn hynny.

Wrth gwrs, un o nodweddion amlycaf y nofel hon yw'r oes ôl-lyfr. Er ei fod wedi bod yn bryder a fu ar feddwl nifer o awduron ffuglen wyddonol megis Ray Bradbury ers degawdau,

⁴⁵⁵ Ibid. t. 75.

⁴⁵⁶ Ibid. t. 53.

⁴⁵⁷ Ibid. t. 89.

⁴⁵⁸ Elis, *Wythnos yng Nghymru Fydd*, t. 211.

⁴⁵⁹ Roberts, *Annwyl Smotyn Bach*, t. 25

mae'n bryder cymharol newydd yng nghyd-destun llenyddiaeth Gymraeg. Yn oes y Kindles a'r iPads, ofnir y collir hud y llyfr print. Ar yr hyn o bapur sydd gan Llio ar ôl i'w ddefnyddio, mae'n boenus o ymwybodol na ddylid gwastraffu'r un gair. Sonnir yn y nofel am gyrchoedd difa papur, mewn ymgais i arbed y fforestydd glaw a'r amgylchedd.⁴⁶⁰ Disgrifia Llio sut y bu'n gwirioni wrth dderbyn papurau a phiniau ffelt ar ddiwrnod Nadolig pan oedd yn blentyn, a thrafod potensial y papur hwnnw. '...'meddwl i'n llawn bwriadau ynglŷn â beth i'w roi ar y papur.'⁴⁶¹ Wrth gwrs, mae ei chofnod hithau yn ffordd o drosglwyddo hanes ei chyfnod, yn yr un modd ag y mae dyddiaduron a llythyron Marc yn y nofel *Y Dydd Olaf*.

Yn ogystal â hynny, sylwa Lois Barrar yn ei hadolygiad ar y nofel i wefan Gwales:

Hi ac nid 'Ef' yw'r Brawd Mawr hollbresennol sydd yn dal ei gafael. Criw o fenywod sydd yn mynd ati i gynnal yr ysgol gudd er mwyn ceisio sicrhau goroesiad y Gymraeg. Clywn am fam ac am fam-yng-nghyfraith y prif gymeriad a'u barn gadarn. Menyw ydyw'r prif gymeriad sydd yn peryglu ei bywyd ei hun, ei phlentyn a'i phriodas. Stori'r mamau ydy hon yn y bôn. Y menywod yw'r cymeriadau sy'n goroesi ac yn dioddef.⁴⁶²

Er ein bod wedi gweld cipolwg o Gymru, "y wlad garedicaf ei hagwedd tuag at hawliau merched a gwragedd"⁴⁶³ yn *Gwalia ar Garlam*, gwelwn dro ar fyd yn ein ffuglen wyddonol Gymraeg er 1991. Ac eithrio straeon byrion Kate Roberts, Mari Williams yw'r llenor benywaidd cyntaf i gyhoeddi nofel ffuglen wyddonol, a bellach, yn 2008 a 2009, gwelwn ddwy lenor benywaidd yn mynd ati i ail-greu eu dyfydol o berspectif y ferch. Dyma'r tro

⁴⁶⁰ Ibid. t. 11.

⁴⁶¹ Ibid. t. 12.

⁴⁶² Lois Barrar, 'Adolygiad Gwales: Annwyl Smotyn Bach' <http://www.gwales.com/goto/biblio/cy/9781847710277/> [Darllenwyd 29 Rhagfyr 2014].

⁴⁶³ Williams, *Gwalia ar Garlam*, t. 123.

cyntaf i ni weld dilyniant, gydag *Annwyl Smotyn Bach* ac yna enillydd cystadleuaeth Gwobr Goffa Daniel Owen 2009, *Y Llyfrgell* gan Fflur Dafydd.

Serch hynny, parha'r merched sy'n rhan o'r traddodiad ffuglen wyddonol (hyd yn oed yn fyd-eang) yn greaduriaid prin. Fel y nodwyd gan Pamela J. Annas, 'Men wrote it; men (and boys) read it. The literature was based on largely unquestioned patriarchal assumptions. With few exceptions, women in the worlds of SF were props rather than characters when they appeared at all.'⁴⁶⁴ Wrth edrych yn ôl ar nofelau megis *Wythnos yng Nghymru Fydd* ac ystyried rôl merched y nofel, sylwir mai 'Dynion yw'r arweinwyr sy'n dal swyddi proffesiynol, tra bo'r merched yn gweini mewn tai bwyta ac yn cyflawni dyletswyddau digon traddodiadol.'⁴⁶⁵ Sylwn mai digon tebyg yw rôl Mair yn *Cafflogion*. Gwraig tŷ a mam yw hi, ac nid oes sôn amdani'n cyflawni dyletswyddau eraill i helpu'r gymuned. Yn ogystal â hynny, dynion yw awduron y ddwy nofel – Islwyn Ffowc Elis ac R. Gerallt Jones. Fodd bynnag, mae dyfodol Fflur Dafydd, yn y flwyddyn 2020 yn rhoi gwedd newydd ar yr hen 'Frawdoliaeth'. Drwyddi draw, y merched yw awdurdod y nofel hon. Fe'i lleolir yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth, lle mae dwy lyfrgellwraig, gefelliaid Nan ac Ana, yn meddiannu'r adeilad am y dydd. Maent â'u bryd ar ddial ar yr adolygydd Eben Prydderch a'i dafod miniog am ysgrifennu beirniadaeth greulon ar un o nofelau eu mam, yr awdures Elena Wdig. Wrth gwrs, rydym eisoes wedi gweld lleoliad eiconig y llyfrgell yn cael ei grybwyll sawl tro – cafodd ei throï'n westy yn *Wythnos yng Nghymru Fydd*, ac mae'r lle wedi cau (ac yna wedi ailagor) yn *Annwyl Smotyn Bach* – a gellid ei hystyried fel rhyw fath o symbol o'n hanes a'n hunaniaeth Gymreig. Yn wir, onid o fewn muriau'r adeilad y cedwir trysorau ein cenedl?

⁴⁶⁴ Pamela J. Annas, 'New Worlds, New Words: Androgyny in Feminist Science Fiction' *Science Fiction Studies* 15.5 (1978), 144.

⁴⁶⁵ Delyth George, *Llên y Llenor: Islwyn Ffowc Elis* (Caernarfon: Gwasg Pantycelyn, 1990), t. 60.

“Peidiwch â meddwl am y lle fel llyfrgell ... Meddyliwch amdano fel sefydliad cenedlaethol, yr un pwysicaf oll. Mae’n symbol o’r wlad, o’r diwylliant sy’n gwneud y wlad yr hyn ydyw. Ac felly, pe bai rhywun eisiau ymosod ar Gymru – dyma’r man lle bydden nhw’n dechrau ar eu hymgyrch. Mae grym Cymru i gyd yn yr adeilad hwn.”⁴⁶⁶

Â Fflur Dafydd ati i chwarae gyda’r cysyniad hwnnw, wrth gwestiynu dilysrwydd ein canon llenyddol. Fel y dywed John Rowlands yn ei feirniadaeth, mae’r nofel yn ‘codi cwestiynau perthnasol iawn am natur *llyfrgell* yn yr oes electronig.’⁴⁶⁷ Yn ogystal â hynny, codir cwestiynau pwysicach fyth ynglŷn â natur y canon Cymreig. HOLA Fflur Dafydd sut y cafodd y canon llenyddol ei bennu? Ac yn bwysicach ‘na hynny, ‘...pwy oedd yn gwneud y dewis hwnnw rhwng yr eilradd a’r blaenaf?’⁴⁶⁸ Mae’r llawysgrifau prin wedi diflannu’n sydyn ‘un nos olau leuad,’⁴⁶⁹ ac unig eiriau cysurlon y Brif Weinidoges yw, “Ry’n ni’n byw mewn oes ôl-lyfryddol,” meddai, “ac mae angen i ni dderbyn hynny. Dwi’n galw ar y Llyfrgell i foderneiddio fel y gallwn ni ddiogelu ein dyfodol.”⁴⁷⁰ Dysga Ana, maes o law, mai’r Llywodraeth a’r Llyfrgell fu’n gyfrifol am y lladrad. Daw hi ac Eben ar draws archif gudd y Llyfrgell, lle teflir llyfrau detholedig i gael eu cywasgu’n rhan o seiliau’r adeilad. Wrth gwrs, y Senedd sy’n ariannu’r wlad, gan gynnwys ‘cof y genedl.’⁴⁷¹ Cwestiynir dilysrwydd y cof yn *Y Llyfrgell*, wrth i ni weld dirywiad meddyliol Nan, sy’n dioddef o dementia, fel ei mam. ‘Doedd

⁴⁶⁶ Fflur Dafydd, *Y Llyfrgell* (Talybont: Y Lolfa, 2009), t. 84-5.

⁴⁶⁷ J. Elwyn Hughes (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru Meirion a’r Cyffiniau 2009* (Llandysul: Gwasg Gomer, 2009), t. 109.

⁴⁶⁸ Dafydd, t. 201.

⁴⁶⁹ Ibid. t. 179-80.

⁴⁷⁰ Ibid. t. 180.

⁴⁷¹ Ibid. t. 247.

ei chof ddim yn ddogfen ddibynadwy.⁴⁷² Cwestiwn naturiol wedyn, yw holi pa mor ddibynadwy yw cof ein cenedl ni?

Gwelwn fod gan y ddwy efaill swyddogaethau pwysig iawn yn y Llyfrgell. Nan yw Prosesydd Deunyddiau'r Llyfrgell. 'Nan fyddai'n cofnodi pob dim a âi ar system y Llyfrgell, ac yn cael goruchwyllo testun pob un lawrlwythiad.'⁴⁷³ Cred fod ganddi well swydd na'i chwaer, gan na all y ddwy, na neb arall, drafod eu gwaith ymysg ei gilydd.⁴⁷⁴ Fodd bynnag, 'Didolwr Deunyddiau' yw swydd yr ail efaill. 'Ana oedd yn penderfynu beth a gâi fod yn rhan o'r cof hwnnw, beth oedd yn bwydo ymwybod a *chydwybod* y genedl.'⁴⁷⁵ Fodd bynnag, gwelwn fod ei barn bersonol hefyd yn llywio'i phenderfyniadau. Anghytuna gyda'r Brif Lyfrgellwraig ynglŷn â phwysigrwydd T. Gwynn Jones i'r genedl a cheisio achub *Lona*, fodd bynnag, dadleua ei chyflogwr, "Mae'n rhaid ei fod wedi bod yn un o aelodau cynnar y frawdoliaeth, neu'n gyfrifol am osod ei seiliau, o leiaf. Ei fai e yw'r ffaith fod yr holl rwtsh partriachaid diwerth yn y lle 'ma o gwbl.'⁴⁷⁶ Yn yr un modd, mae hi hefyd yn dadlau yn erbyn cadw un o nofelau Kate Roberts, *Deian a Loli*, am fod yn gas ganddi'r prif gymeriadau. I ryw raddau, gellid dadlau bod gan bob un darlennydd ei ganon llenyddol personol. Cwestiwn naturiol i mi, yn sgil hynny, yw pwy sy'n gyfrifol am absenoldeb nofelau ffuglen wyddonol yn ein canon llenyddol? Dilyn 'sgwarnog yr wyf wrth godi'r hen grachen honno, ond tybiaf fod ateb y cwestiwn hwnnw yn destun doethuriaeth.

Gwelwn fod y cysyniad o'r merched v bechgyn yn rhedeg drwy'r nofel gyfan, ac ymddengys nad yw hynny'n anghyffredin mewn dyfodolau dystopaidd. 'Centrally concerned with the clash between individual desire and social demand, dystopian fiction often focuses on

⁴⁷² Ibid. t. 250.

⁴⁷³ Ibid. t. 137.

⁴⁷⁴ Ibid. t. 137.

⁴⁷⁵ Ibid. t. 189.

⁴⁷⁶ Ibid. t. 187.

sexuality and relations between the genders as elements of this conflict.⁴⁷⁷ Mae agwedd cymeriadau gwrywaidd y nofel hon tuag at y dyfodol ffeministaidd yn adrodd cyfrolau. Cofia Dan, un o borthorion y Llyfrgell, glywed rhywun ar y teledu yn cwyno, 'Blydi merched sy'n cael eu dyrchafu'n ddiddiwedd yn y wlad 'ma,'⁴⁷⁸ ac yn cytuno'n llwyr gyda'i farn. Mae agwedd Eben, sydd dipyn yn hŷn na Dan, hyd yn oed yn waeth. Pan fo yn y ddalfa, yn cael ei gwestiynu gan y ditectif benywaidd, cwyna, a chreu senarios dychmygol yn ei feddwl, megis... 'Cydio mewn gwn a saethu at y sefyldiad a oedd yn ei anwybyddu'n gyson.'⁴⁷⁹ Wrth sylweddoli ei fod ar fin cael ei feio am holl ddigwyddiadau terfysgol y dydd, a hynny ar gam, sylla ar y ditectif a theimlo bod 'y minlliw indigo ar ei gwefusau'n ei wawdio.'⁴⁸⁰

Sylwn hefyd mai dynion y nofel sy'n gyndyn o newid a symud ymlaen, tra bo y Brif Weinidoges yn benderfynol o gyflwyno datblygiadau newydd. (Barn y darllenydd, wrth gwrs, yw penderfynu a ydyw o blaid neu'n erbyn newidiadau'r dyfodol hwn.) Wrth ystyried ei gofiant i Elena Wdig, teimla Eben yn chwithig ei fod yn cael ei gyhoeddi ar e-ddarllenydd yn hytrach na thrwy gyfrwng y llyfr print.

Eisoes teimlai'n ddigalon oherwydd nad llyfr go iawn fyddai ei astudiaeth, ond rhyw rith-ffurf ddigidol o fewn clawr rwber yr e-ddarllenydd ... Roedd Eben yn eiddigeddus o Elena, yn gynddeiriog ei bod hi wedi cyhoeddi ar adeg pan fyddai clod a bri yn perthyn i lyfrau go iawn, llyfrau y gellid cydio ynddynt, llyfrau â llun yr awdur yn

⁴⁷⁷ M. Keith Booker, 'Woman on the Edge of a Genre: The Feminist Dystopia' *Science Fiction Studies* 64.5 (1994), 337.

⁴⁷⁸ Dafydd, t. 22.

⁴⁷⁹ Ibid. t. 238.

⁴⁸⁰ Ibid. t. 238.

glamp o gadarnhad ar ei gefn. Llyfr ac iddo ei arogl, ei swmp a'i sylwedd, ei
bersonoliaeth ei hun.⁴⁸¹

Ymhelaetha, 'Doedd e erioed wedi ymgyswddo â'r teclynnau electroneg hyn: y dafell
denau, un sgrin, â rhyw bin bach – y dudalen ddiolwr – yn cael ei ddefnyddio i sgrolio i lawr
y dudalen.'⁴⁸² Yn yr un modd, wrth drafod technoleg newydd, mae Dan yn hiraethu am
deimlad solet y pethau cyfarwydd. Mae'r Archborthor yn benderfynol o ddefnyddio lleian,
rhyw fath o *remote* i reoli cau ac agor drysau'r Llyfrgell Genedlaethol, ond sylwn fod Dan yn
gyndyn o adael fynd o'r hen allwedd. 'Doedd Dan ddim yn gweld beth oedd o'i le ar
ddefnyddio allwedd. Roedd e'n hoffi eu teimlo yn ei ddwylo, yn hoffi'r jingl-jangl yna o
awdurdod wrth iddo nesáu at y drws.'⁴⁸³ Fodd bynnag, nid oes gan y dynion ddim i'w wneud
ond ildio i drefn 2020, wrth i Eben grisialu rolau'r ddwy ryw. 'Roedd y dynion i gyd wrth
droed y Llyfrgell pan ddaethai i lawr, yn gwarchod ac yn amddiffyn, ond nid nhw oedd yn
gwneud y penderfyniadau.'⁴⁸⁴ Fel y crynhoa Dafydd Morgan Lewis: 'Creuaduriaid digon llipa
yw dynion y nofel, efallai am eu bod gymaint dan y fawd erbyn y flwyddyn 2020.'⁴⁸⁵

Fodd bynnag, symudwn i diroedd gwahanol iawn yn nofel apocalyptaidd Lloyd Jones, *Y Dŵr*.
Nid yw'n debyg i apocalypsau niwclear *Pennod yn Hanes Milwr* a *Y Tŷ Haearn*, na 'chwaith
'Mae Mot Ymhlith y Cadwedig', yn hytrach, gwelwn y byd ymhell wedi'r storm drychinebus
wreiddiol, ac yn debycach i fyd llwm a llonydd *The Road* gan Cormac McCarthy gyda'r tir yn
'barren, silent, godless.'⁴⁸⁶ Yn y nofel hon, dilynwn hanes teulu Dolfrwynog dros gyfnod o

⁴⁸¹ Ibid. t. 29.

⁴⁸² Ibid. t. 29.

⁴⁸³ Ibid. t. 17.

⁴⁸⁴ Ibid. t. 248.

⁴⁸⁵ Dafydd Morgan Lewis, 'Un o'r Gorau Erioed' *Golwg Awst* 13 2009, t. 24.

⁴⁸⁶ Cormac McCarthy, *The Road* (pedwerydd arg.; Basingstoke a Rhydychen: Picador, 2009), t. 2.

flwyddyn. Dyfalwn mai'r flwyddyn 2110 yw hi⁴⁸⁷ a dychmyga Lloyd Jones ganrif gythryblus o'n blaenau. Mae Elin wedi dychwelyd gyda'i phlant, Mari a Huw, a'i chariad, Jac, yn ôl i'w chynefin, i ddianc rhag terfysgoedd tanllyd y ddinas. Mae'r teulu, ynghyd â Wil ei brawd, y ffermwr cryf a chadarn, yn rhygnu byw ar yr hen fferm, lle nad yw Duw 'wedi dangos ei big erstalwm.'⁴⁸⁸ Yn tarfu ar fywydau undonog y teulu, daw Nico, llanc ifanc o Wlad Pwyl, sy'n closio at Mari ac yn ei beichiogi.

Sonnir mai cynhesu byd-eang sydd ar fai am gyflwr y byd. 'Cafodd llawer o rwtsh ei siarad am *carbon footprints* a byw'n wyrdd, ond ni wnaed dim byd pendant i ddatrys y problemau, dim ond blynyddoedd o falu awyr ymysg y gwleidyddion heb fawr o newid.'⁴⁸⁹ Yn hytrach na thywydd cynnes eithafol yn unig, fel y gwelwn yn *Talu'r Pris* ac *Annwyl Smotyn Bach*, mae'r teulu yn ceisio addasu ac i baratoi ar gyfer stormydd gwylltion ac eira mawr. Sylwn fod y ffermdy wedi ei leoli ger yr hyn a dybiwn sy'n llyn anferthol, ond datgela Nico mai'r môr ydyw, yn codi'n raddol a llyncu arfordir Prydain. Nid yn unig hynny, ond mae 'Cymru'n ynys erbyn hyn. Boddwyd y darn bach diwethaf o dir rhwng Cymru a Lloegr.'⁴⁹⁰ Wrth gwrs, yn nofel D. Griffith Jones, *Ofnadwy Ddydd*, mae'r ddaeargryn sy'n chwalu'r ffin rhwng y ddwy wlad yn cyflwyno gobaith newydd am 'Ynys Gwalia' a Chymru annibynnol, ond gwelwn yn nyfodol diobaith *Y Dŵr* fod y cymeriadau wedi hen roi'r gorau i'r fath freuddwyd.

Mae'r cysyniad o 'ddŵr' yn y Gymraeg yn ein harwain at nifer o ddelweddau cyfarwydd ac eiconig. Amyga Charmian Savill hynny yn ei hadolygiad ar gyfieithiad diweddar o'r nofel; 'The rich imagery of Jones's *Water* yields a myriad of evocative appropriations of Welsh

⁴⁸⁷ Lloyd Jones, *Y Dŵr* (Talybont: Y Lolfa, 2009), t. 12.

⁴⁸⁸ *Ibid.* t. 43.

⁴⁸⁹ *Ibid.* t. 187.

⁴⁹⁰ *Ibid.* t. 270.

myth, history and legend.⁴⁹¹ Yn wir, nodwyd bod gan y teulu ofn y llyn mawr. 'Roedd arnyn nhw ei ofn o mewn ffordd gyntefig, heb fod ganddynt reswm. Roedd ganddo nerth enfawr yn ei gysgodion, a grym aruthrol drostyn nhw.'⁴⁹² Heb os, meddyliaf innau am Gantre'r Gwaelod, a hefyd am hanes boddi Tryweryn. Dilyna meddwl Mari, yn y nofel, drywydd tebyg, wrth gofio'r hen chwedlau a digwyddiadau hanesyddol. Mae'n anodd credu y byddai merch ifanc yn y ganrif nesaf yn deall goblygiadau hanes boddi Tryweryn, yn enwedig â'r digwyddiad wedi mynd yn angof yn *Talu'r Pris*, serch hynny, awgryma Lloyd Jones ei fod yn ddigwyddiad a fydd wedi dylanwadu ar hanes Cymru a'r Gymraeg am byth. 'Boddi cwm ac anesmwytho enaid cenedl. *Cofiwch Dryweryn*. Y digwyddiad hwnnw yn y cof am byth. Fel petai ar y Cymry ofn boddi.'⁴⁹³ Ystyria Mari bŵer a grym dŵr – 'Rhaid oedd yfed dŵr i fyw; ond medrai ladd rhywun yr un mor hawdd,' gan ychwanegu'r gymhariaeth drawiadol, 'Fel cariad.'⁴⁹⁴ Heb os, mae modd cymharu presenoldeb cynyddol y dŵr i ormes trefedigaethol Lloegr a Phrydeindod (ac America hefyd, o bosib) dros Gymru a'r diwylliant Cymreig. Mae'n fygythiad sy'n lledu drosom yn araf bach, cyn ein boddi i gyd yn y pen draw, heb inni wneud dim i atal y peth. Fel y dywed Llinos Dafis yn ei hadolygiad, 'Yn eu diwedd anynad down ninnau wyneb yn wyneb ag ansicrwydd ein tranc ni ein hunain, ac yn fwy arswydus efallai, i ni Gymry ymwybodol a balch, â breguster ein hunaniaeth.'⁴⁹⁵

Sonnir dro ar ôl tro am dawelwch enbyd y byd ôl-apocalyptaidd, ac am y nifer o bobl sy'n methu dod i delerau gyda'r newid byd. 'Collodd miloedd eu pwyll, oherwydd ni allen nhw ddygymod â'r distawrwydd. Roedd trydedd genhedlaeth yr iPods a'r iPhones wedi arfer â

⁴⁹¹ Charmian Savill, 'Water' *Planet* 216 (2014), 139.

⁴⁹² Jones, *Y Dŵr*, t. 127.

⁴⁹³ *Ibid.* t. 270.

⁴⁹⁴ *Ibid.* t. 270.

⁴⁹⁵ Llinos Dafis, 'Rhybudd Proffwydol' *Taliesin* 138 (2009), 170.

chymaint o sŵn yn eu clustiau fel na allent ymdopi â distawrwydd y byd naturiol.⁴⁹⁶ Wrth gwrs, yr hyn sy'n fwyaf brawychus am apocalyps Lloyd Jones yw mai ein presennol ni sy'n gyfrifol. Adwaenwn ddylanwad prynwriaeth a'r bywyd materol, ac mae *Y Dŵr* yn dangos bywyd heb y cysuron yr ydym yn eu cymryd yn ganiataol o ddydd i ddydd.

Er bod y teulu yn ceisio'i orau glas i ddal gafael ar bethau, nid yw'r newid byd wedi bod o fudd i Elin. Disgrifia Wil sut y dihangodd ei chwaer o'r fferm i'r ddinas cyn gynted ag y medrai, 'wedi ymuno'n frwd â'r byd mawr; gwaith, gŵr, a gwaddol eBay wedi dod i'w rhan mor naturiol â chymryd ei gwynt,⁴⁹⁷ gan ddychwelyd i'w chynefin i briodasau ac i angladdau yn unig. Yn sgil hynny, nodi Wil nad yw ond yn gweld Elin ar ei gorau a'i gwaethaf, gan ryfeddu at effaith bywyd ffals y ddinas arni. 'Yn chwerthin neu'n wylo'n ddi-baid, heb gymedroldeb, a heb Gymreictod.'⁴⁹⁸ (Mae'n ddifyr nodi hefyd, yn ddiweddarach, mai yn Saesneg yr ysgrifenna Elin at ei merch i ffarwelio â hi.⁴⁹⁹) Yn wir, gwelwn hefyd sut y rhyfedda Huw at straeon ei fam am eu bywyd yn y ddinas:

Byddai ei fam yn sôn byth a beunydd am ei *gym* hi yn y ddinas, lle arferen nhw fyw.

Bob yn ail frawddeg byddai'n dweud rhywbeth fel *pan oeddwn i yn y gym* neu *un diwrnod pan oeddwn i'n siopa yn New Look...* Roedd ei fam yn byw yn y gorffennol.⁵⁰⁰

Ymddengys nad Elin yw'r unig un ychwaith, wrth i Mari golli ei dwy chwaer a'i brawd bach o achos y newid byd. Er ei bod hi'n amlwg nad oes yna fywyd gwerth ei fyw yn y ddinas bellach, mae Elin yn dal i hiraethu am ei hen fywyd. I ryw raddau, gwelwn o'r cychwyn

⁴⁹⁶ Jones, *Y Dŵr*, t. 176.

⁴⁹⁷ Ibid. t. 35.

⁴⁹⁸ Ibid. t. 35.

⁴⁹⁹ Ibid. t. 257-8.

⁵⁰⁰ Ibid. t. 18.

cyntaf bod habit siopa Elin yn obsesiynol. Sylwn, wrth ei hymateb i'w gŵr Gwydion, mai gadael y siopau mawrion sy'n ei phoeni fwyaf ynglŷn â gadael y ddinas. 'Ymadael â pharadwys? Ymadael â'r siopau glân, cynnes a chlyd?'⁵⁰¹ Nid symud ac amharu ar drefn ei theulu sy'n ei phoeni. Mae hi wedi colli ei lle mewn byd lle nad yw'r pethau materol yn golygu dim bellach. Mae blaenoriaethau'r cymeriadau wedi gorfod newid. Mae Wil, er enghraifft, wedi siomi bod ei chwaer yn gweini bwyd ar y platiau 'willow pattern' a arferai fod ar y dresel.⁵⁰²

Serch hynny, gwisga Mari fodrwy ei nain am ei bys: 'Gosododd ran o'r gorffennol ar ei bys ifanc, rhywbeth cadarn a dibynadwy mewn byd mor gyfnewidiol, oriog ac anwadal.'⁵⁰³ Er mwyn cadw diddordeb Nico, edrydd Mari straeon chwedlonol am y pedwar bedd sydd wrth ffynnon y fferm. Mae'n llwyddo i wau hen chwedloniaeth a llên gwerin Gymreig i'w straeon, ac i ryw raddau, dyna'r oll sy'n weddill o'r traddodiadau Cymreig.

Fodd bynnag, wrth i Mari weld ei hewythr yn dirywio, dychmyga ei bod hi'n gweld hoelen olaf arch y Gymru draddodiadol. 'Marwolaeth yr hen Gymru - ia, dyna roedd hi'n ei weld o flaen ei llygaid. Marwolaeth yr hen ffordd o fyw, yr hen fuchedd Gymreig.'⁵⁰⁴ Yn sgil y drychineb, mae'r Gymru hon yn dir anial lle nad oes yna werth i ddiwylliant nac iaith, gan mai rhygnu byw a goroesi, a byw mewn limbo creulon, yn aros i bethau wella a wna'r teulu. 'Roedd y freuddwyd drosodd. Aros roedden nhw rŵan; aros i'r dyfodol gyrraedd.'⁵⁰⁵ Fel y dywed Elin Wyn Rowlands 'Mae'n alegori gref, yn ddameg i ni heddiw, dyma Gymru'r

⁵⁰¹ Ibid. t. 100.

⁵⁰² Ibid. t. 36.

⁵⁰³ Ibid. t. 76.

⁵⁰⁴ Ibid. t. 158.

⁵⁰⁵ Ibid. t. 171.

dyfodol lle mae'r cof yn dechrau pylu a ffwndro a hwnnw'n chwarae triciau hefyd.⁵⁰⁶ Mae'n arwyddocaol ein bod yn dychwelyd eto at y cysyniad o gof cenedl, fel yn *Y Llyfrgell*, ac yn gweld pa mor fregus ac anwadal yw'r cof hwnnw.

Er mor anobeithiol yr edrych pethau, synna Wil ei fod yn gweld y sêr yn gliriach nac erioed. 'Roedd yn haws eu gweld y dyddiau hyn, ers i Ddolfrwynog gollir letrig.'⁵⁰⁷ Ymddengys bod y sêr i'w gweld fel symbol o obaith yn nifer o'n gweithiau dystopaidd diweddar, wrth i Llio yn *Annwyl Smotyn Bach* hefyd fynnu, 'Fedar Hi ddim cuddio'r sêr rhagom.'⁵⁰⁸ Yn wir, wrth edrych i fyni i'r nen y gwêl cymeriadau'r nofel hon oleuni, a gobaith am fyd sydd well.

Gorffenna'r nofel gydag adroddiad y 'Bad Patrol Blodyn Lotws III', ar ddechrau'r flwyddyn newydd. Er i Nico gael ei ladd ac i Mari farw, mae eu plentyn yn dal i fod yn fyw, a gwelwn ei dynged ddiflas yn cael ei nodi'n foel gan yr adroddwr. Enwir y plentyn yn 'Mwnici' ar ôl ei unig degan, a nodir iddo gael ei anfon i Gartref Plant Amddifad yn Shanghai 'i'w asesu yn ôl y drefn arferol parthed ei ladd/hyfforddi ar gyfer y fyddin.'⁵⁰⁹ Gobeithiwn y bydd modd i'r olaf o deulu Dolfrwynog dorri ei gwys ei hun yn y byd, a mynd ymlaen at fywyd gwell.

Ac eithrio Lloyd Jones, portreada'r tair nofel arall Gymru ddyfodolaidd mewn cyfnodau mae'n bosibl y bydd y darlennydd yn fyw i'w gweld. Mae dyfodol *Y Llyfrgell* Fflur Dafydd, yn enwedig, yn 2020 yn teimlo'n agos iawn. Fel yr ydym eisoes wedi crybwyll wrth weld atgofion Elin o'n presennol ni, yr hyn sydd fwyaf brawychus am y dyfodol a bortreadir gan lenorion y 1990au a dechrau'r ganrif hon yw eu bod yn cyflwyno posibiliadau sy'n frawychus o real. Dywed Meinir Jones yn ei hadolygiad ar *Annwyl Smotyn Bach*; 'Ein dwthwn ni ydi'r cefndir, a'r hyn sy'n ddychryn ydi fod y datblygiadau i gyd i'w gweld yn lled bosibl, gan fod

⁵⁰⁶ Elin Wyn Rowlands, 'Dwyter Dweud y Dŵr: Y Dŵr a bydoedd gwallgo' ffilmiau Mad Max, Delicatessen neu Brazil' *Golwg*, 30 Gorffennaf 2009, t. 37.

⁵⁰⁷ Jones, *Y Dŵr*, t. 69.

⁵⁰⁸ Roberts, *Annwyl Smotyn Bach*, t. 58.

⁵⁰⁹ *Ibid.* t. 286.

nifer o'r deddfau sy'n erydu hawliau dynol eisoes yn eu lle.⁵¹⁰ Wrth weld datblygiadau teclynnau fel y Kindle a'r Ipad, mae byd ôl-lyfr Fflur Dafydd bron â bod yn realiti erbyn hyn.

Yn hynny o beth, mae'r ffuglen wyddonol ddiweddaraf wedi symud o elfennau ffarsaidd Eirug Wyn a Marcel Williams ac yn ystyried ein perthynas ni heddiw gyda thechnoleg fodern. Tra bo Fflur Dafydd yn canolbwyntio ar oblygiadau'r dechnoleg newydd ar draul yr hen, mae Lloyd Jones yn ein tynnu i fyd lle'r ydym wedi colli'r cwbl ac yn gorfod dysgu byw o'r newydd hebdo. Wrth gollu'r elfen dros ben llestri, gwelwn fod llenorion Cymraeg y cyfnod hwn yn cymryd y *genre* ffuglen wyddonol o ddifrif, drwy ei ddefnyddio i ymdrin â phynciau llosg y degawd, megis presenoldeb camerâu cylch cyfyng a chynnydd technegau gwylidwriaeth eraill a cynhesu byd-eang. Gyda geni'r ganrif newydd, gwelwn wedd newydd ar ein ffuglen ddyfodolaidd Gymraeg, a gobeithiwn mai dyma'r fath gyfeiriad yr awn iddo yn y dyfodol.

⁵¹⁰ Meinir Jones, 'Dyfodol Du' *Barn* 543 (2008), 39.

Pennod 7: Yn Ôl i'r Dyfodol

Mae dychwelyd i'r presennol, er ond am ennyd, yn cynnig rhyw fath o ryddhad. Mae hi'n bryd tynnu'r daith hon i'w therfyn, gydag amser a gofod wedi mynd yn drech na ni. Gwelwn ein llenyddiaeth ddyfodolaidd yn dychwelyd at wedd ffantasiol Robin Llywelyn gydag *Ar Drywydd y Duwiau* gan Emlyn Gomer Roberts yn 2010, cyn gweddnewid yn llwyr eto gyda chyfrol unigryw Jerry Hunter, *Ebargofiant*, a gyhoeddwyd yn 2014. Serch hynny, ceisio crynhoi ac olrhain datblygiad y sawl dyfodol amrywiol yr ydym eisoes wedi darllen amdanynt yw fy nhasg yn y fan hon, gan obeithio mai dechreubwynt yn unig yw'r astudiaeth hon ar gyfer gwaith ymchwil manylach a mwy cynhwysol rywbryd eto.

Wrth gwrs, cydnabûm o'r dechrau bod diffinio ffuglen wyddonol yn orchwyl anodd.

Dewiswyd y dyfodol fel thema oherwydd ei fod yn fotiff amlwg yn y *genre*. Rhaid i mi gydnabod hefyd y bu rhaid hepgor rhyddiaith ofodaidd, megis llythyron Syr Meurig Grynswth o'r lleuad, nofelau W. J. Jones, *Y Blaned Dirion* gan Islwyn Ffowc Elis, a nofelau am arallfydwyr megis *Sibrydion o Andromeda* gan Emyr Wyn Humphreys a nofelau *zombie* D. Griffith Jones. Eto, pwysleisiaf y gobaith mai dechreubwynt yw'r astudiaeth hon, a bod angen gwaith ymchwil sy'n olrhain hanes y *genre* ffuglen wyddonol yn Gymraeg yn ei gyfanrwydd, yn hytrach nag agwedd ohono.

Yn ogystal â hynny, mae archwilio cyd-destunau'r nofel neu'r stori ddyfodolaidd, fel yr ydym eisoes wedi gweld, yn newid yn sylweddol wrth i amser fynd yn ei flaen. Mae cysyniadau nifer o'r nofelau a'r straeon byrion a astudiwyd yn y traethawd hwn wedi dyddio. Gwelwn hyn ar ei amlycaf yn agweddau rhai o lenorion canol yr ugeinfed ganrif tuag at fenywod - gwelwn wahaniaeth mawr yn rôl y ferch yn y dyfodol yn llenyddiaeth yr 1950au a'r 1970au, lle parha yn wraig ac yn weinyddes, i'w gymharu â llenyddiaeth yr 1990au a'r 2000au, lle

dyrchefir merched y byd yn ffigyrau awdurdodol. Yn yr un modd, mae'r ddinas, fel pinacl y dyfodol, yn gysyniad sydd wedi dyddio, yn ogystal â nifer o fotiffau eraill. Alun Jones, wedi'r cwbl, a fynegodd wrth feirniadu cystadleuaeth y Fedal Ryddiaith yn 1992, fod y cysyniad o'r weleffon, teledrych a'r llunffon wedi dyddio, ond yn dal i fritho'r dyfodol Cymraeg, yn ôl ein llenyddiaeth ddyfodolaidd.⁵¹¹

These visions are themselves now historical and dated ...That particular Utopian future has in other words turned out to have been merely the future of one moment of what is now our own past.⁵¹²

Sylwn, ar adegau, fod ein traddodiad ffuglen wyddonol fymryn ar ei hôl hi o gymharu â'r *genre*'n fyd-eang. Un feirniadaeth gan Llŷr Titus yn ei waith ymchwil yntau oedd bod ein ffuglen wyddonol yn dueddol o fod yn 'blwyfol',⁵¹³ ac yn hynny o beth, mae'n werth dadlau a yw'r elfen honno yn ein cyfyngu? Un o weithiau mwyaf dyfeisgar y traethawd hwn yw *Seren Wen ar Gefndir Gwyn*, nofel na fyddai 'wedi gallu bodoli mewn unrhyw iaith arall',⁵¹⁴ yn ôl Ifan Morgan Jones. Efallai'n wir bod gormod o bwyslais ar y cysyniad o Gymru Rydd fel iwtopia a Chymru Ddu fel dystopia, ac i ryw raddau, er y cyffyrddir â'r thema o dynged y diwylliant Cymraeg, fod nofel heb wleidyddiaeth lawdrwm o'r fath, fel *Y Dŵr*, yn gam ymlaen.

Afraid dweud, beth bynnag yw gweledigaeth pob llenor, fod y dyfodol yn cynnig cyfnas glân i awdur, ac er eu bod yn aml yn creu arallfyd o'r newydd, gwelwn mai adlewyrchu nodweddion o'r byd o'u cwmpas a wna'r rhan fwyaf ohonynt. Fel y dywed Adam Roberts,

⁵¹¹ Jones (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Aberystwyth 1992*, t. 125.

⁵¹² Frederic Jameson, 'Progress Versus Utopia; or, Can We Imagine the Future?' *Science Fiction Studies* 9.2 (1982), 151.

⁵¹³ Titus, t. 32.

⁵¹⁴ Ifan Morgan Jones, 'E bargofiant' <http://ifanmj.blogspot.co.uk/2014/05/ebargofiant.html> [Darllenwyd 12 Awst 2014].

'SF does not project us into the future; it releases to us stories about our present, and more importantly about the past that has led to this present.'⁵¹⁵ Cytuna Raymond Williams, gan esbonio mai patrwm o'r gymdeithas gyfoes sy'n ymddangos mewn lle neu amser gwahanol,⁵¹⁶ ac fel y datgela Mihangel Morgan, "Dydych chi ddim yn trïo darogan y dyfodol ond yn trïo dweud rhywbeth am nawr."⁵¹⁷

Tra bod stori fer ddyfodolaidd gyntaf Kate Roberts, 'Y Diafol yn 1960' yn archwilio ei phryderon personol ac yn beirniadu uwch-swyddogion y Rhyfel Byd Cyntaf, mae ei hail stori, 'Ysgol Haf Machynlleth 1976', yn yr un modd ag y gwna Cymru Rydd *Wythnos yng Nghymru Fydd*, yn cyflwyno dyfodol delfrydol sydd wedi cael ei greu o ganlyniad i weledigaeth Plaid Cymru. Mae'r ddau ddyfodol gwrthgyferbyniol yn *Wythnos yng Nghymru Fydd* yn rhoi dewis i'r darlennydd ac yn awgrymu mai Cymru Ddu yw tynged ein gwlad os na chefnogwn Plaid Cymru. Fel y dywed Doctor Heinkel ar ddiwedd y nofel,

"Mae Cymru 2033 – a chyn hynny, debyg iawn – yn dibynnu arnoch chi, a Tegid, a'ch teuluoedd a'ch cyfeillion a'u teuluoedd hwy a chyfeillion y rheini, o Gaergybi i Gaerdydd. Fedr Almaenwr fel fi mo'ch helpu chi. A fedr y Saeson mo'ch rhwystro chi. Chi Gymry, a chi'n unig, sydd i ddewis."⁵¹⁸

Symudwn ymlaen at weithiau Owain Owain, R. Gerallt Jones a Gwynn ap Gwilym, a gweld fod y 1970au yn ddegawd sy'n amrywiol iawn o ran ei gynnyrch dyfodolaidd. Dechreuwn gyda gwaith y gwyddonydd o lenor sy'n ein rhybuddio am ddylanwad peiriannau yn ein bywydau, ac i fod yn ofalus ynglŷn â'r grym hwnnw. Synnwn i nofel fel *Y Dydd Olaf* ddiflannu i ddifancoll tan yn ddiweddar iawn, yn enwedig gan mai dyma'r unig nofel ymhlith y casgliad

⁵¹⁵ Roberts, *Science Fiction*, tt. 35-6.

⁵¹⁶ Williams, *The Long Revolution*, t. 281.

⁵¹⁷ Tomos, 'Llên Yfory: Gwyddonias Cymreig', t. 18.

⁵¹⁸ Elis, *Wythnos yng Nghymru Fydd*, t. 251.

hwn a ysgrifennwyd gan wyddonydd. Wrth drafod 'Rhyddiaith Gwyddoniaeth', gwta fisoedd cyn i Owain Owain gyhoeddi ei nofel, dywed Eirwen Gwynn,

Yr ydw i'n gwerthfawrogi'n fawr ymdrech y llenorion a nodais yn ysgrifennu yn y maes ffug-wyddonol. Mae angen mawr am straeon difyr o'r math yma ac nid yw'n anfri o gwbl ar yr awduron hyn pan ddywedaf na chynhyrchwyd yn Gymraeg unrhyw beth nodedig iawn yn y maes yma - hynny, hwyrach, am na chafwyd hyd yma wyddonydd o lenor i fentro rhoi ei ddychymyg ar bapur yn ei famiaith.⁵¹⁹

Trueni mawr na fu gan y nofel hon ddylanwad grymusach ar y traddodiad ffuglen wyddonol Gymraeg, gan y gwelwn ddiffyg ffuglen wyddonol 'gadarn'. Er i Mari Williams geisio cyfleu'r antur ofodaidd mewn modd credadwy, fe'i beirniadwyd gan Andras Millward am ei harddull Star Trek-aidd,⁵²⁰ a beirniadwyd hefyd wybodaeth Lloyd Jones o gynhesu byd-eang gan Llinos Dafis yn ei hadolygiad ar *Y Dŵr*: 'Mae gofyn i nofel am y dyfodol sydd i fod yn broffwydoliaeth rybuddiol – a dyna yw hon – fod wedi ei seilio ar wybodaeth gadarn am yr hyn sy'n debygol o ddigwydd.'⁵²¹ Er efallai nad oes angen gwyddonydd i ysgrifennu llenyddiaeth ffuglen wyddonol, mae ymchwil drylwyr yn hanfodol.

Sylwn gyda chymuned iwtopaidd *Cafflogion* mai ar yr elfennau cymdeithasol y canolbwyntia rhyddiaith ddyfodolaidd Gymraeg, a sylwir mai'r elfen wleidyddol sy'n mynd â bryd Gwynn ap Gwilym yn *Da o Ddwy Ynys*, a hefyd yn ngweithiau Marcel Williams yn nes ymlaen.

'Where this is done well, such stories provide us with a detailed picture of what life in a society designed to satisfy the relevant ideal would be like.'⁵²² Er bod Y Ddinas yn dod i ddinistrio cymuned Cafflogion, gwelwn gymdeithas sydd wedi torri tir newydd, a phwysleisir

⁵¹⁹ Gwynn, t. 249.

⁵²⁰ Millward, 'Y Silff Ias: Bîm Mi Yp Scoti...', t. 21.

⁵²¹ Dafis, tt. 171-2.

⁵²² Michael Philips (gol.), *Philosophy and Science Fiction* (New York: Prometheus Books, 1984), t. 3.

bod modd byw mewn cymuned gydweithredol sydd ‘wedi’i sylfaenu ar feddwl a thrafod a gwneud.’⁵²³

Ar wedd iwtopia *Wythnos yng Nghymru Fydd a Cafflogion*, mae’n ddigon eglur sut y portreadir yr ‘ideal’ y sonia Michael Philips amdano. Fodd bynnag, defnyddir y dyfodol dystopaidd i weithredu fel rhybudd, fel yr ydym eisoes wedi ei weld. Gwelwn rybudd gwleidyddol dyrys Arwel Vittle, yn *Talu’r Pris*, i beidio â chymryd dyfodiad y Senedd i Gymru yn ganiatol, a bod rhaid i ni weithio’n galed i sicrhau mwy o hawliau i Gymru Fydd. Gwelwn hefyd rybudd Lloyd Jones yn *Y Dŵr* yn bur amlwg, wrth iddo ddarogan byd sydd yn ein gorfodi i ddychmygu sut le fydd hi heb ddylanwad ein teclynnau modern a’r siopau mawrion.

Wrth drafod *Annwyl Smotyn Bach*, dywed Lleucu Roberts mai archwilio posibiliadau yr oedd, ac nad oedd proffwydo yn rhan o’r stori. “Er mai darlun tywyll sydd ynnddi o Gymru’r dyfodol, dw i’n credu bod digon o ewyllys gyda ni fel Cymry i sicrhau na ddaw’n wir. Gobeithio bod digon ynnddi i wneud i ni gnoi cil dros beth allai ddigwydd ac, yn wir, beth sydd eisoes yn bod.”⁵²⁴ Dyfalu a wna’r llenor sy’n darlunio’r dyfodol, nid darogan. Cyflwynir sefyllfa – eithafol, fel arfer – yn seiliedig ar ganlyniadau gweithredoedd ei bresennol, ac fel yr ydym eisoes wedi gweld, nid Lleucu Roberts yn unig a wna hynny.

Pwysleisiaf eto mai’r weledigaeth a’r rhyfeddodau technolegol, ac nid y cymeriad sy’n ganolbwynt i’r nofel ffuglen wyddonol. Fel yr esbonia Scott Sanders, ‘twentieth century science fiction as a genre is centrally about the disappearance of character.’⁵²⁵ Gwelwn fod y cysyniad o’r unigolyn yn fygythiad i’r drefn. Fodd bynnag, llwydda Robin Llywelyn a Lleucu

⁵²³ Jones, *Cafflogion*, t. 27.

⁵²⁴ Roberts, ‘Nofel y Ymladd y Grymoedd Mawr: Y Bach o Dan y Lach’, t. 24.

⁵²⁵ Scott Sanders, ‘Characterization in Science Fiction: The Disappearance of Character’ yn *Science Fiction: A Critical Guide* gol. Patrick Parrinder (London and New York: Longman, 1979), t. 132.

Roberts i greu arwyr arbennig sy'n ennyn ein cydymdeimlad, oherwydd bod eu sefyllfaoedd - Gwern Esgus fel cymeriad real, anghyflawn sy'n ferchetwr ond serch hynny yn caru Anwes Bach y Galon, a Llio, mam feichiog sy'n ceisio'i gorau i sicrhau dyfodol gwell iddo (neu iddi) - yn rhai dynol y gall nifer ohonom uniaethu â hwy. Nid tywyswyr mo'r cymeriadau hyn, fel y lleill, ac o bosib, mae'n werth cofio ei bod hi'n bosib cyfuno cymeriadau cryfion â'r rhyfeddodau ffuglen wyddonol.

Felly, i grynhoi, gwelwn fod nifer o bynciau pwysig yn cael eu gwyntyllu yn yr amryw enghreifftiau a drafodwyd yn y traethawd hwn, a'r rheini'n amrywio gan ddibynnu ar gyfnod cyhoeddi'r nofelau. Yn hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif, mae Kate Roberts ac Islwyn Ffowc Elis yn cynnig deongliadau creadigol o'u gobeithio am ddyfodol Plaid Cymru. Mae pethau'n datblygu eto erbyn ail hanner y ganrif, wrth inni weld bod tueddiadau amlwg ymysg gwaith llenorion yr 1970au wrth iddynt ddyfalu ynghylch canlyniad ac effaith y refferendwm yn 1979, cyn i dir diffaith wedi'i reibio gan chwalfa niwclear nodweddu nofelau'r 1980au. Mae cynnyrch y 1990au yn dra amrywiol, wrth i Mari Williams ac Andras Millward fynd ati i greu hygrededd newydd i'r *genre* ffuglen wyddonol yn y Gymraeg, ac wrth i Eirug Wyn a Marcel Williams fanteisio ar y *genre* hwnnw i ddychanu ac i ddeifioli. Yn y 2000au, gwelwn wawr newydd, wrth i ddibyniaeth y ddynolryw ar dechnoleg ddod yn thema flaenllaw, yn ogystal â pheryglon cynhesu byd-eang. Heb os, bydd hi'n ddiddorol gweld pa fath o ddyfodol a ddyfelir nesaf gan lenorion.

Llyfryddiaeth

Llyfrau

Alkon, P. K. *Origins of Futuristic Fiction* (Athens and London: The University of Georgia Press, 2010).

ap Gwilym, G. *Da o Ddwy Ynys* (Abertawe: Gwasg Christopher Davies, 1979).

Baldick, C. *The Oxford Dictionary of Literary Terms* (chweched arg.; Oxford: Oxford University Press, 2008).

Barthes, R. *Image Music Text* (London: Fontana Press, 1977).

Bassett, T. M. (gol.) *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon a'r Cylch 1979* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1979).

Bere, C. *Pennod yn Hanes Milwr* (Caerfyrddin: Gwasg yr Ynys Newydd, 1981).

Bevan, H. (gol.) *Gohebiaethau Syr Meurig Grynswth*, (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1948).

Chapman, T. R. *Writers of Wales: Islwyn Ffowc Elis* (Cardiff: University of Wales Press, 2000).

Chapman, T. R. *Rhywfaint o Anfarwoldeb: Bywgraffiad Islwyn Ffowc Elis* (Llandysul: Gwasg Gomer, 2003).

Davies, J. *Hanes Cymru* (trydydd arg.; London: Penguin Books, 2007).

Dafydd, Ff. *Y Llyfrgell* (Talybont: Y Lolfa, 2009).

Edwards, H. T. *Yr Eisteddfod: Cyfrol Ddathlu Wythganmlwyddiant yr Eisteddfod, 1176-1976* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1976).

Elis, I. Ff. *Wythnos yng Nghymru Fydd* (trydydd arg.; Llandysul: Gwasg Gomer, 2007).

Evans, G. *Eu Hiaith a Gadwant* (Caerdydd: Plaid Cymru, 1949).

Frow, J. *Genre* (London a New York: Routledge, 2006).

George, D. *Llên y Llenor: Islwyn Ffowc Elis* (Caernarfon: Gwasg Pantycelyn, 1990).

Heuser, S. *Virtual Geographies: Cyberpunk at the Intersection of the Postmodern and Science Fiction* (Amsterdam: Rodopi, 2003).

Hughes, J. E. (gol.) *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru Meirion a'r Cyffiniau 2009* (Llandysul: Gwasg Gomer, 2009).

Ifans, D. (gol.) *Annwyl Kate Annwyl Saunders: Gohebiaeth 1923 – 1983* (Aberystwyth: Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 1992).

Jones, G. W. *Fel Drôr I Fwrdd: Astudiaeth o Waith Kate Roberts hyd 1962* (Caernarfon: Gwasg y Bwthyn, 2010).

Jones, J. T. (gol.) *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Rhydaman a'r Cylch 1970* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1970).

Jones, L. *Y Dŵr* (Talybont: Y Lolfa, 2009).

Jones, R. G. *Cafflogion* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1979).

Jones, R. M. *Llenyddiaeth Gymraeg 1936 – 1972* (Llandybie: Christopher Davies, 1975).

Jones, R. W. *Rhoi Cymru'n Gyntaf: Syniadaeth Plaid Cymru Cyfrol 1* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2007).

- Jones, W. J. (gol.) *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Aberystwyth 1992* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1992).
- Jones, W. J. (gol.) *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru Nedd a'r Cyffiniau 1994* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1994).
- Jones, W. J. (gol.) *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Bro Ogwr 1998* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1998).
- Llywelyn, R. *Seren Wen ar Gefndir Gwyn* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1992).
- Llywelyn, R. *O'r Harbwr Gwag i'r Cefnfor Gwyn* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1994).
- Llywelyn, R. *Y Dŵr Mawr Llwyd* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1995).
- Llwyd, A. *Kate 1891-1985: Cofiant Kate Roberts* (Talybont: Y Lolfa, 2011).
- McCarthy, C. *The Road* (pedwerydd arg.; Basingstoke and Oxford: Picador, 2009).
- Millward, A. *Prosiect Nofa* (Talybont: Y Lolfa, 1992).
- Nicholas, W. Rh. (gol.) *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Llanbedr Pont Steffan a'r Fro 1984* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1984).
- Orwell, G. *Nineteen Eighty-four* (11fed arg.; London: Penguin, 2008).
- Owain, O. *Y Dydd Olaf* (Abertawe: Christopher Davies Cyf, 1976).
- Owen, J. I. *Y Tŷ Haearn* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1984).
- Owen, Ll. *Heulfan* (Talybont: Y Lolfa, 2012).
- Philips, M. (gol.) *Philosophy and Science Fiction* (New York: Prometheus Books, 1984).

- Price, A. *Llên y Llenor: Robin Llywelyn* (Caernarfon: Gwasg Pantycelyn, 2000).
- Price, A. *Rhwng Gwyn a Du: Agweddau ar Ryddiaith Gymraeg y 1990au* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2002).
- Roberts, A. *Science Fiction* (New York and London: Routledge, 2000).
- Roberts, A. *The History of Science Fiction* (Basingstoke and New York: Palgrave Macmillan, 2005).
- Roberts, E. L. *Llên y Llenor: Kate Roberts* (Caernarfon: Gwasg Pantycelyn, 1994).
- Roberts, Ll. *Annwyl Smotyn Bach* (Talybont: Y Lolfa, 2008).
- Rowlands, J. *Ysgrifau ar y Nofel* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1991).
- Seed, D. *Science Fiction: A Very Short Introduction* (Oxford: Oxford University Press, 2011).
- Vittle, A. *Talu'r Pris* (Talybont: Y Lolfa, 2000).
- Vittle, A. 'Cythral o Dân' (Talybont: Y Lolfa, 2011).
- Williams, I. (gol.) *Pedeir Keinc y Mabinogi* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1951).
- Williams, M. *Gwalia ar Garlam* (Talybont: Y Lolfa, 1991).
- Williams, M. *Senedd a Satan* (Talybont: Y Lolfa, 1999).
- Williams, M. *Y Trydydd Posibilrwydd* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1991).
- Williams, R. *The Long Revolution* (London: Chatto & Windus, 1961).
- Williams, W. *Dail Pren* (pedwerydd arg.; Llandysul: Gwasg Gomer, 1982).
- Womack, Y. L. *Astrofuturism: The World of Black Sci-Fi and Fantasy Culture* (Chicago: Lawrence Hill Books, 2013).

Woods, T. *Beginning Postmodernism* (Manchester and New York: Manchester University Press, 1999).

Wyn, E. *Lara* (Talybont: Y Lolfa, 1995).

Wyn, E. *Blodyn Tatws* (Talybont: Y Lolfa, 1998).

Straeon Byrion

Islwyn, A. 'Mae Mot Ymhlith y Cadwedig' *Taliesin* 94 (1996), tt. 36 – 39.

Jones, I. M. 'Un Diwrnod yn yr Eisteddfod Fydd' *Tu Chwith* 39 (2014), tt. 53 – 61.

Llywelyn, R. 'Cartoffl' yn *Y Dŵr Mawr Llwyd* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1995), tt. 9-21.

Morgan, M. 'Pwy Fyth a Fyddai'n Fetel?' yn *Saith Pechod Marwol* (Talybont: Y Lolfa, 1993), tt. 10-21.

Roberts, K. 'Y Diafol yn 1960' *Y Darian*, 12 Tachwedd 1918, t. 3.

Roberts, K. 'Ysgol Haf Machynlleth, 1976: Yr Arweinwyr yn Parhau'n Dirf ac Iraidd.' *Y Ddraig Goch*, 2 Gorffennaf 1929, t. 6.

Erthyglau/Penodau

Annas, P. J. 'New Worlds, New Words: Androgyny in Feminist Science Fiction' *Science Fiction Studies* 15.5 (1978), tt. 143-56.

Bevan, H. 'Darllen Nofelau' yn *Beirniadaeth Lenyddol* gol. Roberts, B. F. (Caernarfon: Gwasg Pantycelyn, 1982), tt. 31-44.

Booker, M. K. 'Woman on the Edge of a Genre: The Feminist Dystopia' *Science Fiction Studies* 64.5 (1994), 337-50.

Brians, P. 'Nuclear War in Science Fiction, 1945-59' *Science Fiction Studies* 11.3 (1984), 253-63/

Brooks, S. 'Ple'r Pla a throednodiadau eraill.' *Taliesin* 85 (1994), 38-67.

Dafis, Ll. 'Rhybudd Proffwydol' *Taliesin* 138 (2009), 170-2.

Eaves, S. 'Hynt a Helynt y Nofel Gymraeg, 1975-1982' yn *Rhyddid y Nofel* gol. Williams, G. (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Caerdydd, 1999), tt. 154-60.

Elis, I. Ff. 'Yr Eisteddfod Genedlaethol a'r Nofel Gymraeg' yn *Rhyddid y Nofel* gol. Williams, G. (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Caerdydd, 1999), tt. 122-34.

Graham, S. 'Introduction' yn *The Cybercities Reader* gol. Graham, S. (London: Routledge, 2004), tt. 387-94.

Gramich, K. 'O'r Seren Wen i'r Cefnfor Gwyn' *Taliesin* 87 (1994), 105-7.

Gwynn, E. 'Rhyddiaith Gwyddoniaeth' yn *Y Traddodiad Rhyddiaith yn yr Ugeinfed Ganrif* gol. Bowen, G. (Llandysul: Gwasg Gomer, 1976), tt. 241-50.

- Hughes, B. M. 'Nid gêm Nintendo yw hyn, ond bywyd!' *Tu Chwith* 1 (1993), t. 43-6.
- Hughes, B. M. 'Dwy Nofel, Dau Fyd, Un Gamp' *Golwg*, 18 Awst 1994, t. 20-1.
- Iorwerth, D. rhagymadrodd i *Wythnos yng Nghymru Fydd* gan Elis, I. Ff. (trydydd arg.; Llandysul: Gwasg Gomer, 2007), tt. ix-xvii.
- Islwyn, A. 'Samuel' *Barn*, 428 (1998), 46-8.
- Jameson, F. 'Progress versus Utopia: Or, Can We Imagine the Future?' *Science Fiction Studies* 9.2 (1982), 147-58.
- Jones, D. A. 'Y Newydd a'r Cyfarwydd' *Barn*, 373 (1994), 30-2.
- Jones, D. P. 'Ar Blaned Arall...' *Golwg*, 10 Rhagfyr 1992, t. 19.
- Jones, J. H. 'Llong Ofod Lleu' *Barn* 200 (1979), 115-7.
- Jones, M. 'Dyfodol Du' *Barn* 543 (2008), 38-9.
- Jones, R. G. 'R. Gerallt Jones yn holi Robin Llywelyn' yn *Rhyddid y Nofel* gol. Williams, G. (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1999), tt. 300-4.
- Jones, W. J. 'Islwyn Ffowc Elis' yn *Dyrnaid o Awduron Cyfoes* gol. Rees, D. B. (Pontypridd a Lerpwl: Cyhoeddiadau Modern Cymreig Cyf., 1975), tt. 100-20.
- Lewis, D. M. 'Un o'r Gorau Erioed' *Golwg* Awst 13 2009, tt. 24-5.
- Lewis, S. 'Deg Pwynt Polisi'r Blaid: Egwyddorion a Sylfeini Polisi Cymdeithasol ac Economaidd' *Y Ddraig Goch*, Mawrth 1934, t. 1.
- Meltzer, B. 'The Third Possibility' yn *Mind* 73.291 (1964), t. 430-3.
- Millward, A. 'Y Silff Ias: Bîm Mi Yp Scoti...' *Golwg*, 12 Rhagfyr 1991, t. 21.

Morgan, M. 'Kate yn y Cwm' yn *Cwm Cynon* gol. Hywel Teifi Edwards (Llandysul: Gwasg Gomer 1997), tt. 285-90.

Owain, O. 'Addysg 2,000 OC' *Y Cymro*, 23 Gorffennaf 1969, t. 6.

Owain, O. 'Y Sawl a Garo ei Hanner Iaith' yn *Bara Brith* (Lerpwl: Cwmni Cyhoeddiadau Modern Cymreig, 1971), t. 105.

Price, A. 'Robin Llywelyn: Cyfarwydd ac Anghyfarwydd' yn *Y Sêr yn Eu Graddau: Golwg ar Ffurfafen y Nofel Gymraeg Ddiweddar* gol. Rowlands, J. (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2000), tt. 192-211.

Roberts, Ll. 'Nofel y Ymladd y Grymoedd Mawr: Y Bach o Dan y Lach' *Golwg*, 21 Chwefror 2008, t. 24.

Rowlands, E. W. 'Dwyster Dweud y Dŵr: Y Dŵr a bydoedd gwallgo' ffilmiau Mad Max, *Delicatessen neu Brazil' Golwg*, 30 Gorffennaf 2009, t. 37.

Rowlands, J. 'Nofelau Deng Mlynedd' yn *Y Traethodydd* CXLIV (1989), 6-24.

Rowlands, J. 'The Novel' yn *A Guide to Welsh Literature c. 1990 – 1996* gol. Johnston, D. (Cardiff: Cardiff University Press, 1998), tt. 159-203.

Rowlands, J. 'Chwarae â Chwedlau: Cip ar y Nofel Gymraeg Ôl-fodern' yn *Rhyddid y Nofel* gol. Williams, G. (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1999), tt. 161-85.

Rowlands, J. 'Adolygiad ar Seren Wen ar Gefndir Gwyn' yn *Rhyddid y Nofel* gol. Williams, G. (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1999), tt. 297-300.

Sanders, S. 'Characterization in Science Fiction: The Disappearance of Character' yn *Science Fiction: A Critical Guide* gol. Patrick Parrinder (London and New York: Longman, 1979), tt. 131-47.

Savill, C. 'Water' *Planet* 216 (2014), 139-40.

- Schimanski, J. 'Singing "Che Gelida Manina" In Welsh: Internal and External Cultural Translation In the Future Wales of Islwyn Ffowc Elis' *Interlitteraria* 5 (2000), 365-74.
- Schimanski, J. 'Hen Wraig y Bala' *Barn* 414-5 (1997), 72-3.
- Schimanski, J. 'Wythnos yng Nghymru Fydd – unwaith eto' *Taliesin* 88 (1994), tt. 24-30.
- Thomas, O. 'Adolygiad Senedd a Satan' *Y Traethodydd* CLVII (2002), 55-7.
- Tomos, Rh. 'Ar Garlam i Nunlle' *Golwg*, 5 Rhagfyr 1991, t. 18.
- Tomos, R. 'Llên Yfory: Gwyddonias Cymreig' *Golwg*, 28 Ebrill 1994, tt. 18-9.
- Trefor R. 'Rwts Tan Gamp' *Barn* 348/9 (1992), 90.
- Varsam, M. 'Concrete Dystopia: Slavery and Its Others' yn *Dark Horizons: Science Fiction and the Dystopian Imagination* gol. Baccolini, R. a Moylan, T. (London and New York: Routledge, 2003), tt. 203-24.
- Wiliam, A. Rh. 'Termau Technegol' *Y Gwyddonydd* 9.4 (1971), 201-2.
- Williams, G. 'Gwibdiethiau Blynyddol Eirug Wyn' *Taliesin*, 127 (2006), 14-36.
- Dienw 'Cofio Owain Owain' *Y Cymro* 12 Ionawr 1994, t. 12.
- Dienw 'Oscars yr Inc : Dyfalu "Llyfr Y Flwyddyn" *Golwg* 8 Ebrill 1993, t. 18-9.

Gwefannau

ap Dyfrig, Rh. 'Cymroddyfodoliaeth' <https://medium.com/@nwdls/cymroddyfodoliaeth-574f23a5fdd3> [Darllenwyd: 25 Tachwedd 2014].

Barrar, L. 'Adolygiad Gwales: Annwyl Smotyn Bach' <http://www.gwales.com/goto/biblio/cy/9781847710277/> [Darllenwyd 29 Rhagfyr 2014].

Jones, D.G. 'Adolygiad Gwales: Dial yr Hanner Brawd' <http://www.gwales.com/bibliographic/?isbn=9780862436612&tsid=3> [Darllenwyd 10 Rhagfyr 2014].

Jones, I. M. 'Ebargofiant' <http://ifanmj.blogspot.co.uk/2014/05/ebargofiant.html> [Darllenwyd 12 Awst 2014].

Jones, M. E. 'Cwestiynu'r Cyfieithiad' Gwyddonias <https://gwyddonias.wordpress.com/2014/03/25/cwestiynur-cyfieithiad-miriam-elin-jones-syn-holi-beth-yn-gwmws-yw-science-fiction-yn-gymraeg> [Darllenwyd: 23 Ionawr 2015].

Prysor, D. 'Adolygiad Gwales: Sibrydion o Andromeda', <http://www.gwales.com/goto/biblio/cy/9780860742296> [Darllenwyd: 4 Medi 2014].

Stone, A. 'Sense of Emergency: Gwenno Interviewed' The Quietus <http://thequietus.com/articles/16576-gwenno-interview> [Darllenwyd 1 Tachwedd 2014].

Vittle, A. 'Adnabod Awdur' Gwefan BBC Llên Cymru <http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/llyfrau/awdur/arwel-vittle.shtml> [Darllenwyd 15 Rhagfyr 2014].

Dienw 'What then, is steampunk?' *Steampunk Magazine* 1 (2007) 4

<http://www.combustionbooks.org/downloads/SPM1-web.pdf> [Darllenwyd 21 Rhagfyr 2014].

Dienw 'Britain is "Surveillance Society"', 2 Tachwedd 2006

<http://news.bbc.co.uk/1/hi/uk/6108496.stm> [Darllenwyd: 29 Rhagfyr 2014].

Erail

Saunders, G. *Y Dydd Olaf* (Peski, 2014) CD.

Titus, Ll. 'Astudiaeth o bedair nofel ffuglen wyddonol Gymraeg.' (BA, Prifysgol Bangor, 2014)